Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
DYDDIAD:	**3 Mehefin 2021**
LLEOLIAD:	O bell trwy fideogynadledda
TEITL:	Diweddariad Rhaglen Waith Archwilio Cymru
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y cynnydd ar yr astudiaethau y mae Archwilio Cymru wedi neu yn ymgymryd â nhw.
Portffolio'r Cabinet ac Aelod o'r Cabinet:	**Y Cyng. Ray Quant MBE, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a Gwasanaethau Democrataidd**

Cyflwyniad
Darperir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar astudiaethau cyfredol Archwilio Cymru a'r cynnydd sy'n cael ei wneud mewn ymateb i gynigion neu argymhellion blaenorol.

Mae dwy elfen i'r adroddiad:
1) darparu manylion am y cynnydd hyd yma ar yr adroddiadau blaenorol gan Archwilio Cymru, a
2) adrodd ar y gwaith cyfredol gydag Archwilio Cymru.

1) **Diweddariad ar Gynnydd**

- Cynllun Archwilio Cyngor Sir Ceredigion 2021-2022 (**Atodiad 1**)
- Adroddiadau lleol a dderbyniwyd:
    - Archwilio Cymru Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2019-20 – Cyngor Sir Ceredigion (**Atodiad 2**)
- Adroddiadau cenedlaethol a dderbyniwyd: dim
- Tystysgrifau a dderbyniwyd: dim
- Ffurflenni Ymateb Rheolwyr ar y gweill/wedi'u cwblhau:
    - Taenlen Excel o Ymatebion Ffurflenni Ymateb Rheolwyr (**Atodiad 3(a)**)
    - "Gwella ein Perfformiad' Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru (30/7/2020) (**Atodiad 3(b)**)
    - Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (7/10/19) (**Atodiad 3(c)**)
    - Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb (23/7/2020) (**Atodiad 3(d)**)
    - Y 'Drws Blaen' i Ofal Cymdeithasol i Oedolion (11/9/19) (**Atodiad 3(e)**)
    - Cynnydd o ran rholi'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith (21/11/19) (**Atodai 3(f)**)

- Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o ddylunio a gweithredu Model Gwasanaethau Integredig y Cyngor – Cyngor Sir Ceredigion (20/12/19) (**Atodiad 3(g)**)
- Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-20 (13/10/20) (**Atodiad 3(h)**)
- System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (15/10/20) (**Atodiad 3(i)**)
- Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru (6/6/2019) (**Atodiad 3(j)**)
- Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol (6/10/2020)

- Diweddariad Prisio Asedau (ar lafar)
- Protocolau Archwilio Cymru (**Atodiadau 4(a) a 4(b))**

2) Gwaith Cyfredol

- Brîff Prosiect – Gwerth am Arian Taliadau Uniongyrchol (**Atodiad 5**)
- Brîff Prosiect – Adolygiad o Gynllunio (**Atodiad 6**)
- Prosiect Asesu Cynaliadwyedd Ariannol 2020-2021 (**Atodiad 7**)
- Llythyr Archwilio Cymru – Adroddiadau ac Argymhellion Archwilio Cymru (**Atodiad 8**)
- Archwilio Cymru – crynodeb o'r cynnydd a wnaed o ran rhaglenni gwaith **(Atodiad 9)**

ARGYMHELLION: Ystyried yr adroddiadau a dderbyniwyd gan Archwilio Cymru

Rheswm/Rhesymau dros y penderfyniad Hysbysu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am adroddiadau, cynigion a'r gwaith sy'n mynd rhagddo.

Atodiadau:

Atodiad 1 - 2021-2022 Cynllun Archwilio
Atodiad 2 – Adroddiad Mai 2021 – Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2019-20
Atodiad 3 (a) – (j) Ffurflenni Ymateb Rheolwyr (x 9) ac Atodlen Excel
Atodiad 4 (a) & (b) – Protocolau Archwilio Cymru
Atodiad 5 - Brîff Prosiect: Gwerth am Arian Taliadau Uniongyrchol
Atodiad 6 - Brîff Prosiect: Adolygiad o Gynllunio
Atodiad 7 - Brîff Prosiect: Prosiect Asesu Cynaliadwyedd Ariannol 2020-2021
Atodiad 8 - Llythyr Archwilio Cymru – Adroddiadau ac Argymhellion Archwilio Cymru
Atodiad 9 - Archwilio Cymru – crynodeb o'r cynnydd a wnaed o ran rhaglenni gwaith Archwilio Cymru

Enw Cyswllt: Elin Prysor
Swydd: Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Swyddog Cyfreithiol a Llywodraethu a Monitro
Dyddiad yr Adroddiad: 25 Mai 2021

Archwilio Cymru
Audit Wales

Cynllun Archwilio 2021– Cyngor Sir Ceredigion

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2319A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, a phan fo hynny’n berthnasol, yr archwilydd sy’n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru drwy e-bost: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Cynllun Archwilio 2021

Ynglŷn â'r ddogfen hon 4

Fy nyletswyddau 4

Effaith COVID-19 5

Archwiliad o'r datganiadau ariannol 5

Archwiliad perfformiad 9

Ardystio hawliadau a ffurflenni grant 12

Swyddogaethau archwilio statudol 12

Ffi, tîm archwilio ac amserlen 13

Cynllun Archwilio 2021

Ynglŷn â'r ddogfen hon

1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith y bwriadaf ei wneud yn ystod 2021 i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Fy nyletswyddau

2 Rwy'n cwblhau gwaith bob blwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau canlynol.

Archwilio datganiadau ariannol

3 Bob blwyddyn rwy'n archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) i sicrhau y rhoir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.

Gwerth am arian

4 Rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid i mi fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.

Gwelliant parhaus

5 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Cyngor yn debygol o fodloni'r gofynion hyn (neu wedi gwneud hynny). Bydd rhai gofynion o'r Mesur yn darfod yn ystod 2021-22 oherwydd newidiadau deddfwriaethol sy'n dod o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Fodd bynnag, rwy'n disgwyl yn ystod 2021-22, bydd dal angen i mi archwilio asesiad cyhoeddedig y Cyngor o'i berfformiad sy'n cynnwys y flwyddyn 2020-21.

Egwyddor datblygu cynaliadwy

6 Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

Effaith COVID-19

7 Mae pandemig COVID-19 yn parhau i gael effaith sylweddol ar draws y Deyrnas Unedig ac ar waith sefydliadau'r sector cyhoeddus. Fel yn 2020, mae'n debygol o effeithio'n sylweddol ar baratoi cyfrifon 2020-21 a'm gwaith archwilio ariannol ac archwilio perfformiad.

8 Mae datblygiadau diweddar mewn cysylltiad â rhaglen frechu yn dangos y disgwylir i gyfyngiadau Llywodraeth Cymru ar symud a'r lefelau absenoldeb oherwydd salwch a ragwelir leddfu drwy 2021. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod bod ansicrwydd sylweddol o hyd a deallaf efallai na fydd llawer o awdurdodau lleol yn gallu paratoi cyfrifon yn unol â'r amserlen a nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Yn ogystal â chyflawni fy nghyfrifoldebau statudol fel yr Archwilydd Cyffredinol, fy mlaenoriaeth yw sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant staff Archwilio Cymru, eu teuluoedd a chyfrifoldebau ein partneriaid mewn mannau eraill yn y gwasanaeth cyhoeddus ar yr adeg hynod heriol hon.

9 Bydd staff Archwilio Cymru yn parhau i weithio'n hyblyg i gyflawni'r gwaith archwilio a nodir yn y cynllun hwn. Mewn ymateb i gyngor y llywodraeth a chyfyngiadau dilynol, byddwn yn parhau i weithio o bell, gan adeiladu ar y trefniadau a wnaed yn 2020, hyd nes y bydd yn ddiogel ailddechrau gweithgareddau ar y safle. Rwyf wedi ymrwymo o hyd i sicrhau na fydd gwaith staff Archwilio Cymru yn amharu ar y gweithgareddau hanfodol y mae angen i gyrff cyhoeddus eu gwneud i ymateb i heriau parhaus a gyflwynir gan bandemig COVID-19.

10 O ganlyniad, er bod y cynllun archwilio hwn yn nodi amserlen gychwynnol ar gyfer cwblhau fy ngwaith archwilio, mae'r ansicrwydd parhaus ynghylch effaith COVID-19 ar y sector yn golygu y gallai fod angen ailedrych ar rai amseriadau. Bydd fy nhîm archwilio yn trafod y diwygiadau sy'n ofynnol i'r amserlen arfaethedig gyda'r awdurdod wrth i sefyllfa 2021 ddod yn gliriach.

Archwiliad o’r datganiadau ariannol

11 Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adrodd ar y datganiadau ariannol. Mae hyn yn cynnwys:

- barn ar 'wirionedd a thegwch' datganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021; ac
- asesiad ynghylch a yw Adroddiad Naratif a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn cael eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol a’u bod yn gyson â'r datganiadau ariannol â'm gwybodaeth i am y Cyngor.

12 Yn ogystal â'm cyfrifoldebau dros archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, rwyf hefyd yn gyfrifol am:

- ardystio ffurflen i Lywodraeth Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am y Cyngor i gefnogi'r gwaith o baratoi Cyfrifon Llywodraeth Gyfan;

- ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau am y cyfrifon gan etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os bydd angen);
- archwilio datganiadau ariannol 202-21 Awdurdod Porthladd Ceredigion; ac
- ardystio nifer o hawliadau a ffurflenni grant fel y cytunwyd gyda'r cyrff ariannu.

13 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ar wirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond mabwysiadaf gysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rheini a allai gamarwain y sawl sy'n darllen y cyfrifon. Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yn cael eu nodi yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio cyn cwblhau'r archwiliad.

14 Byddaf yn ymdrin ag unrhyw gamddatganiadau sydd o dan lefel ddibwys (a bennir ar 5% o berthnasedd) fel materion nad oes angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn cyflwyno adroddiad amdanynt.

15 Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn. Os cafodd unrhyw gyfyngiadau eu gosod dylid eu datgan yma neu mewn lle priodol yng nghorff y ddogfen.

16 Byddaf hefyd yn adrodd drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fanylach yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau, ynghyd â rhagor o wybodaeth am fy ngwaith.

Risgiau archwilio'r datganiadau ariannol

17 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r risgiau sylweddol yr wyf wedi'u nodi ar gyfer archwilio'r Cyngor.

Arddangosyn 1: risgiau archwilio'r datganiad ariannol

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r risgiau archwilio datganiad ariannol allweddol a nodwyd yn ystod cam cynllunio'r archwiliad.

Risg archwilio	Ymateb arfaethedig yr archwiliad
Risgiau arwyddocaol	
Mae'r risg y bydd rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau i'w gweld ym mhob endid. O ganlyniad i'r modd anrhagweladwy y gallai'r gwrthwneud hyn ddigwydd, ystyrir ei bod yn risg arwyddocaol [ISA 240.31- 33]	Bydd fy nhîm archwilio yn: • profi priodoldeb yr wybodaeth yn y cyfnodolion a newidiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol; • adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer tueddiadau; a

Risg archwilio	Ymateb arfaethedig yr archwiliad
Risgiau arwyddocaol	
	• gwerthuso sail resymegol unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol.
Effaith COVID-19 Mae argyfwng cenedlaethol COVID-19 yn parhau a gall y pwysau ar adnoddau staff a gweithio o bell effeithio ar baratoi, archwilio a chyhoeddi cyfrifon. Mae perygl y gallai ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol e.e. amcangyfrifon a phrisiadau, gael eu peryglu gan arwain at fwy o achosion o wallau. Gall trefniadau monitro ansawdd gael eu peryglu oherwydd materion amseru a/neu ba mor rhwydd yw hi i gael gafael ar adnoddau.	Byddwn yn trafod eich proses gau a'ch trefniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn gwneud trefniadau i fonitro'r broses o baratoi cyfrifon. Byddwn yn helpu i nodi meysydd lle gall fod bylchau yn y trefniadau.
Bydd pandemig COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar beryglon camddatganiadau perthnasol a ffurf a dull fy archwiliad. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod amryw o ffrydiau ariannu ar gael i'r Cyngor. Mewn rhai achosion, mae'r arian hwn yn rhoi cymorth ariannol i'r awdurdod ei hun. Mewn achosion eraill, gweinyddir yr arian gan y Cyngor, gan wneud taliadau i drydydd partïon ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r symiau dan sylw yn berthnasol i'r cyfrifon. Mae enghreifftiau o risgiau archwilio yn cynnwys: • Triniaeth gyfrifyddu anghywir ar gyfer cyllid COVID-19 h.y. prif drefniadau neu drefniadau asiantaeth • Risgiau twyll/gwallau • Ansicrwydd prisio posibl ar ddiwedd y flwyddyn	Byddwn yn adolygu'r ffrydiau ariannu a dderbynnir oddi wrth Lywodraeth Cymru ac yn cadarnhau'r driniaeth gyfrifyddu briodol gyda'r Cyngor.

Risg archwilio	Ymateb arfaethedig yr archwiliad
Risgiau arwyddocaol	
• Amcangyfrif o ddarpariaethau gwyliau blynyddol cronedig	
Risgiau archwilio eraill	
Dyfarniad McCloud Yn 2015 cyflwynodd y Llywodraeth ddiwygiadau i bensiynau'r sector cyhoeddus, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o weithwyr y sector cyhoeddus wedi cael eu symud i gynlluniau pensiwn newydd yn 2015. Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y trefniadau 'gwarchodaeth drosiannol' yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon. Daeth ymgynghoriadau ar rwymedïgau arfaethedig ar gyfer cynlluniau pensiynau Llywodraeth Leol, yr Heddlu a Thân i ben ym mis Hydref 2020. Cyhoeddodd y Llywodraeth yn ddiweddar, ar gyfer cynlluniau hen eu hariannu, mai tanategu fydd y model dewis gohiriedig ar gyfer y rhwymedi. Nid oes cyhoeddiad wedi'i wneud eto ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Disgwylir i'r manylion terfynol gael eu cyhoeddi yn ystod 2021. Mae effaith y dyfarniad yn debygol o gael effaith sylweddol ar rwymedigaethau datgelu IAS 19.	Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu'r ddarpariaeth a wnaed yn flaenorol mewn cysylltiad â dyfarniad McCloud ac yn monitro cynnydd ar ganlyniad yr ymgynghoriad sydd i'w gymhwyso yng nghynlluniau pensiwn Llywodraeth Leol.

Risg archwilio	Ymateb arfaethedig yr archwiliad
Risgiau archwilio eraill	
Cyfrifyddu cyfalaf Mae gan y Cyngor raglen gyfalaf o tua £18 miliwn. Nododd ein harchwiliadau ar gyfer 2015-16, 2016-17, 2017-18 a 2018-19 rai meysydd i'w gwella. Mae perygl nad yw'r driniaeth gyfrifyddu ar gyfer cyfalaf yn cael ei hadlewyrchu'n gywir yn y Datganiad o Gyfrifon.	Bydd fy nhîm archwilio yn cynnal profion i gael sicrwydd bod y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer cyfalaf yn cael ei hadlewyrchu'n gywir yn y Datganiad Cyfrifon. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r tîm Ystadau gan gynnwys profion cynharach a mwy o weithio gyda nhw a'r tîm cyfrifon i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i helpu i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol.

Materion eraill

18 Mae un mater pellach y bydd fy nhîm archwilio yn ymgymryd â gwaith cynnar arno wrth baratoi ar gyfer archwiliad 2021-22

Arddangosyn 2: Materion eraill

Mae'r tabl hwn yn crynhoi risgiau archwilio’r datganiad ariannol allweddol a nodwyd yn ystod cam cynllunio'r archwiliad.

Materion eraill	
Unwaith eto, mae CIPFA/LASAAC wedi gohirio cyflwyno IFRS 16 tan 1 Ebrill 2022. Fodd bynnag, bydd angen i'r awdurdod wneud gwaith sylweddol i nodi prydlesi, a gall pandemig COVID-19 achosi risgiau gweithredu.	Bydd fy nhîm yn gwneud rhywfaint o waith cynnar i adolygu parodrwydd ar gyfer cyflwyno Prydlesi IFRS 16.

Archwiliad perfformiad

19 Yn ogystal â'm Harchwiliad o Ddatganiadau Ariannol rwyf hefyd yn cynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau fel Archwilydd Cyffredinol fel y nodir ar **dudalen 4** mewn cysylltiad â gwerth am arian a datblygu cynaliadwy.

20 Mewn ymateb i'r pandemig, rwyf wedi mabwysiadu dull hyblyg o ymdrin â'm gwaith archwilio perfformiad o ran cwmpas a methodoleg pynciau. Mae fy ngwaith ar

gynllunio adferiad, dysgu o COVID-19 a'm gwaith sicrwydd ac asesu risg yn enghreifftiau o hyn. Mae hyn wedi fy ngalluogi i ymateb i'r amgylchedd allanol sy'n symud yn gyflym a rhoi mwy o adborth amser real mewn amrywiaeth o fformatau.

21 Ar gyfer 2021-22, rwy'n bwriadu adeiladu ar y dull hwn i helpu i alluogi fy ngwaith i fod yn ymatebol ac yn amserol, a lle bo'n bosibl rhannu dysgu'n gyflymach. Fel rhan o'r dull hwn, rhagwelaf y bydd cyfran sylweddol o'm rhaglen archwilio perfformiad leol yn cael ei chyflawni drwy'r Prosiect Sicrwydd ac Asesu Risg, a fydd yn mynd rhagddo drwy gydol y flwyddyn.

22 O ystyried y lefel uchel o gyffredinedd yn y risgiau sy'n wynebu cynghorau ar hyn o bryd rwyf hefyd yn bwriadu cyflawni nifer o brosiectau thematig sy'n archwilio risgiau sy'n gyffredin i bob cyngor.

23 Rwyf wedi ymgynghori â chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill ynghylch sut y byddaf yn ymdrin â'm dyletswyddau mewn cysylltiad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cafodd yr ymgynghoriad hwn ei ymestyn oherwydd y pandemig.

24 Yn fy ymgynghoriad rwyf wedi nodi a gofyn am sylwadau ar gynigion i:

a) barhau i gynnal archwiliadau penodol i asesu'r broses o bennu amcanion llesiant a sut y mae camau'n cael eu cymryd i'w cyflawni, yn y drefn honno;

b) integreiddio'r gwaith o archwilio camau ochr yn ochr ag astudiaethau gwerth am arian a gwaith archwilio lleol, lle bynnag y bo modd; a

c) chryfhau ac ehangu'r gwaith o gydlynu gwaith gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

25 Byddaf yn ysgrifennu at y 44 corff cyhoeddus a ddynodwyd o dan y Ddeddf yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad a sut y bwriadaf ymdrin â'r gwaith hwn dros gyfnod adrodd 2020-2025.

26 O ystyried y ffactorau uchod, rwy'n bwriadu cadw lefel uchel o hyblygrwydd yn fy rhaglen archwilio perfformiad leol a byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor wrth i'r rhaglen archwilio newid.

27 Ar gyfer 2021-22 nodir y gwaith hwn isod.

Arddangosyn 3: Rhaglen Archwilio Perfformiad 2021-22

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2021-22

Rhaglen archwilio perfformiad	Disgrifiad byr
Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf WFG)	Manylion pellach i ddilyn.

Rhaglen archwilio perfformiad	Disgrifiad byr
Archwiliad Adrodd Gwella	Archwiliad o gyflawni dyletswydd i gyhoeddi asesiad perfformiad.
Sicrwydd ac Asesu Risg	Prosiectau i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu bryd y gallai fod angen gwaith archwilio pellach yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor wrth roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yng Nghyngor Sir Ceredigion mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio'n benodol ar: • sefyllfa ariannol; • trefniadau hunanasesu • cynllunio adferiad; • goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru); • cynlluniau lleihau carbon; a. • threfniadau rheoli perfformiad corfforaethol – gweler 'Gwaith Pwrpasol' isod.
Gwaith thematig – Camu Ymlaen – Archwilio'r blociau adeiladu ar gyfer dyfodol cynaliadwy.	Wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol.
Gwaith Pwrpasol – Adolygiad o Drefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol	Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor yn yr adolygiad o'i drefniadau rheoli perfformiad i ddarparu her ffrind beirniadol ar gerrig milltir allweddol.

Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

28 Gofynnwyd i mi ymgymryd â gwaith ardystio hawliadau a ffurflenni grant y Cyngor fel y nodir yn **Arddangosyn 4**.

Arddangosyn 4: crynodeb o waith ardystio hawliadau grant

Mae'r tabl hwn yn crynhoi fy rhaglen 2020-21 o waith ardystio hawliadau grant

Enw'r cynllun
Cymhorthdal Budd-dal Tai
Cyllidebau Cyfun y GIG
Trosglwyddiadau Arian y GIG
Ffurflen Ardrethi Domestig Cenedlaethol
Pensiynau Athrawon
Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Swyddogaethau archwilio statudol

29 Yn ychwanegol at archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i gael cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Adran 30 Archwilio dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; ac
- Adran 31 Hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.

30 Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi rhoi unrhyw lwfans yn y tabl ffioedd isod. Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

Ffi, tîm archwilio ac amserlen

31 Mae fy ffioedd a'r amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- darperir y datganiadau ariannol yn unol ag amserlen i'w chytuno gan ystyried effaith COVID-19, i'r ansawdd a ddisgwylir a buont yn destun adolygiad sicrhau ansawdd cadarn;
- mae'r wybodaeth a ddarperir i gefnogi'r datganiadau ariannol yn unol â'r ddogfen targedau cyflawnadwy archwilio y cytunwyd arni;
- darperir llety a chyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i ddarparu'r archwiliad mewn modd effeithlon;
- bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- bod gennych yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Cynrychiolaeth a gyfeirir ataf; ac
- mae rhaglen waith arfaethedig yr Archwiliad Mewnol wedi'i chwblhau ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

32 Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

Ffi

33 Nodir eich ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2021 yn **Arddangosyn 5**. Mae hwn yr un fath â'ch ffi wirioneddol o 2020. Noder bod ein Cynllun Ffi yn parhau i fod yn destun cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Cyllid ac felly mae'r ffi arfaethedig hon yn parhau i fod yn destun cymedroli terfynol gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Arddangosyn 5: ffi archwilio

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2021, yn ôl maes gwaith archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

Maes archwilio	Ffi arfaethedig (£)[1]	Ffi wirioneddol y llynedd (£)
Archwilio cyfrifon[2]	£154,000	£154,000
Gwaith archwilio perfformiad[3]	£100,390	£100,390

[1] Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, ac ni chodir hyn arnoch chi.

[2] Yn daladwy Tachwedd 2020 i Hydref 2021.

[3] Yn daladwy Ebrill 2021 i Fawrth 2022.

Maes archwilio	Ffi arfaethedig (£)[1]	Ffi wirioneddol y llynedd (£)
Gwaith ardystio grantiau[4]	£24,000	£24,000
Gwaith archwilio ariannol arall – Awdurdod Porthladd Ceredigion	£1,700	£1,700
Cyfanswm y ffi	£280,090	£280,090

34 Bydd cynllunio'n parhau, ac efallai y bydd angen newidiadau i'm rhaglen waith archwilio, ac felly fy ffi, os daw unrhyw risgiau newydd allweddol i'r amlwg. Ni wnaf unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf gyda'r Cyngor.

35 Mae rhagor o wybodaeth ynghylch fy ngraddfeydd ffioedd a gosod ffioedd ar gael ar ein gwefan.

Tîm archwilio

36 Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn **Arddangosyn 6**.

Arddangosyn 6: fy nhîm archwilio

Mae'r tabl hwn yn rhestru aelodau'r tîm archwilio lleol a'u manylion cyswllt.

Enw	Swydd	Rhif cyswllt	Cyfeiriad e-bost
Huw Rees	Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Arweinydd Ymgysylltu	02920 320500	Huw.Rees@archwilio.cymru
Clare James	Arweinydd Ymgysylltu – Archwiliad Ariannol	02920 320500	Clare.James@archwilio.cymru
Jason Blewitt	Rheolwr Archwilio (Archwiliad Ariannol)	07970 737478	Jason.Blewitt@archwilio.cymru

[4] Yn daladwy wrth i waith gael ei wneud.

Enw	Swydd	Rhif cyswllt	Cyfeiriad e-bost
Eleanor Ansell	Rheolwr Archwilio (Archwiliad Ariannol)	02920 829300	Eleanor.Ansell@archwilio.cymru
Non Jenkins	Rheolwr Archwilio (Archwiliad Perfformiad)	07879 848671	Non.Jenkins@archwilio.cymru
Nigel Griffiths	Arweinydd Archwilio (Archwiliad Perfformiad)	07798 503065	Nigel.Griffiths@archwilio.cymru

Amserlen

37 Dangosir cerrig milltir allweddol y gwaith a nodir yn y cynllun hwn yn **Arddangosyn 7**. Fel yr amlygwyd yn gynharach, efallai y bydd angen diwygio'r amserlen yng ngoleuni datblygiadau o ran COVID-19.

38 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn rhoi hawl i etholwyr ofyn cwestiynau ac i gyflwyno gwrthwynebiadau ynghylch cyfrifon yr Awdurdod i'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r hawl i ofyn cwestiynau a nodi gwrthwynebiadau adeg yr archwiliad yn gysylltiedig â hawl etholwyr i archwilio'r cyfrifon a nodir hefyd yn Neddf 2004. Gallai cyfyngiadau presennol COVID gyfyngu ar allu'r Awdurdod i hwyluso'r broses o archwilio'r cyfrifon. Felly nid ydym wedi pennu dyddiad eto ar gyfer arfer hawl etholwyr a byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa cyn cadarnhau dyddiad gyda chi. Rydym yn disgwyl y byddwn mewn sefyllfa i gytuno ar ddyddiad gyda chi yn hwyr ym mis Mai 2021.

Arddangosyn 7: Amserlen archwilio

Allbwn arfaethedig	Gwaith a wneir	Llunio'r adroddiad terfynol
Cynllun Archwilio 2021	Ionawr – Chwefror 2021	Mawrth 2021

Allbwn arfaethedig	Gwaith a wneir	Llunio'r adroddiad terfynol
Gwaith archwilio datganiadau ariannol: • Adroddiad ar yr archwiliad o'r Datganiadau Ariannol • Barn ar y Datganiadau Ariannol • Memorandwm Cyfrifon Ariannol	Ionawr – Tachwedd 2021	Tachwedd 2021 Tachwedd 2021 Rhagfyr 2021
Gwaith archwilio perfformiad: • Crynodeb o'r Archwiliad Blynyddol • Lles Cenedlaethau'r Dyfodol • Archwiliad Adrodd Gwelliant • Asesiad Risg a Sicrwydd • Gwaith Thematig – Camu Ymlaen – Archwilio'r Blociau Adeiladu ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy • Gwaith Pwrpasol – Adolygiad o Drefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol	Bydd amserlenni ar gyfer prosiectau unigol yn cael eu trafod gyda chi a'u nodi yn y papurau briffio prosiect penodol a gynhyrchir ar gyfer pob astudiaeth.	
Gwaith ardystio grantiau	Medi – Rhagfyr 2021	Ionawr 2022
Gwaith archwilio ariannol arall: • Awdurdod Porthladd Ceredigion	Medi – Tachwedd 2021	Tachwedd 2021
Crynodeb o Archwilio Blynyddol	Amh	Rhagfyr 2021
Cynllun Archwilio 2022	Rhagfyr 2021 – Ionawr 2022	Chwefror 2022

39 Gallaf gadarnhau bod aelodau fy nhîm i gyd yn annibynnol ar y Cyngor a'ch swyddogion. At hynny, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi dynnu eich sylw ato.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio,cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2019-20 – Cyngor Sir Ceredigion

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2264A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Crynodeb o ddeilliannau gwaith ardystio 4

Ffioedd 7

Crynodeb o ddeilliannau gwaith ardystio

1 O dan Baragraff 20 Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 bydd yr Archwilydd Cyffredinol, os gofynnir iddo gan gorff llywodraeth leol neu gorff arall sy'n derbyn grant, yn gwneud trefniadau ar gyfer ardystio hawliadau a ffurflenni (y cyfeirir atynt fel hawliadau am grantiau, o hyn ymlaen).

2 Fe wnaethom ein gwaith gan amcanu at ardystio hawliadau unigol ac i ateb y cwestiwn:

'A oes gan Gyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) drefniadau digonol i sicrhau y cynhyrchir hawliadau am grantiau sy'n gydgysylltiedig, yn gywir, yn amserol ac wedi'u dogfennu'n briodol?'

3 Rydym wedi cwblhau'r archwiliad ac yn dod i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau digonol i gynhyrchu a chyflwyno'r hawliadau am grantiau yr oedd yn ofynnol eu hardystio yn ystod 2019-20.

4 Oherwydd newidiadau gyda Llywodraeth Cymru, nid oedd yn ofynnol archwilio nifer o grantiau mwyach yn ystod y flwyddyn hon. Ar gyfer 2019-20, fe wnaethom ardystio chwe hawliad am grant (o'i gymharu ag 13 yn 2018-19), â gwerth cyfanredol o £45 miliwn (£53 miliwn yn 2018-19).

5 Fe wnaeth y Cyngor gyflwyno pob un o'r chwe hawliad am grant erbyn y terfynau amser y cytunwyd arnynt (85% yn 2018-19) ac mae'r rhain i gyd bellach wedi cael eu hardystio. Cost yr archwiliad ar gyfer 2019-20 yw £24,762 (£40,753 yn 2018-19).

6 Ar y cyfan, fe arweiniodd yr archwiliadau at gynnig diwygiadau i un hawliad am grant, gyda newid yn swm y grant yr oedd gan y Cyngor hawl iddo o (£938).

7 Ceir crynodeb o'r amodiadau a'r diwygiadau isod:

Arddangosyn 1: gwybodaeth allweddol ar gyfer 2019-20

Gwybodaeth allweddol ar gyfer 2019-20
Ar y cyfan, fe wnaethom ardystio chwe grant a ffurflen (13 yn 2018-19): • cafodd pump (83%) dystysgrif ddiamod heb unrhyw ddiwygiad (saith yn 2018-19, sef 54%); • cafodd un (17%) dystysgrif amodol (pedwar yn 2018-19, sef 31%); a • cafodd un (17%) ei ddiwygio (pedwar yn 2018-19, sef 31%).

9 Wedi'i nodi ar y tudalennau canlynol mae crynodeb o ddeilliannau allweddol ein gwaith i ardystio grantiau a ffurflenni'r Cyngor ar gyfer 2019-20, sy'n dangos naill ai ble y cafodd diwygiadau archwilio eu gwneud o ganlyniad i'n gwaith neu ble y gorfu i ni amodi ein tystysgrif archwilio.

10 Mae amodiad yn golygu bod materion wedi'u canfod ynglŷn â chydymffurfiaeth y Cyngor â gofynion cynllun nad oedd modd eu datrys trwy addasiad. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n debygol y bydd y corff sy'n talu'r grant yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyflwyno rhagor o wybodaeth er mwyn iddo'i argyhoeddi ei hun bod symiau llawn y grantiau a hawliwyd yn briodol. Ceir risg bosibl y bydd cyrff sy'n talu grantiau'n adfachu'r grant gan y Cyngor lle nad ymdrinnir â materion. Cafodd un hawliad ei amodi yn 2019-20 (BEN01 Cymhorthdal Budd-dal Tai). Roedd yr Amodiad mewn perthynas â Chymhorthdal Budd-dal Tai'n ymwneud â hawliad unigol sydd wedi cael ei addasu ers hynny. Bydd yr addasiad canlyniadol o £249.24 (cyfanswm hawliad am gymhorthdal o £16,190,221) yn cael ei adlewyrchu yn yr hawliad am gymhorthdal yn 2020-21 ac mae'r mater bellach wedi'i ddirwyn i ben.

Arddangosyn 2: deilliannau hawliau grant

Cyf	Cyf CA	Grantiau a ffurflenni	Hawliad yn ddyledus	Hawliad wedi'i dderbyn	Yn hwyr	Tystysgrif amodol	Addasiad (>£10,000)	Addasiad (<£10,000)	Tystysgrif ddiamod
1	BEN01	Cymhorthdal Budd-dal Tai	30-04-20	30-04-20	Na	✓			
2	HLG01	Adran 33 Deddf y GIG (Cymru) 2006 – Cyllidebau Cyfunol	29-05-20	05-10-20	Na[1]				✓
3	HLG03	Adran 34-194 Deddf y GIG (Cymru) 2006 – Trosglwyddiadau Ariannol	30-09-20	30-09-20	Na				✓
4	LA01	Ffurflen Ardrethi Annomestig Cenedlaethol	29-05-20	28-05-20	Na				✓
5	PEN05	Ffurflen y Cynllun Pensiwn Athrawon	31-05-20	20-05-20	Na			**Newid (£938) yn y swm yr oedd hawl iddo**	✓
6	SOC07	Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol	30-09-20	30-09-20	Na				✓
			Cyfanswm			**1**	**0**	**1**	**5**

[1] Cytunwyd ar estyniad i ddyddiad cyflwyno hawliad HLG01.

Ffioedd

11 Mae ein ffi ar y cyfan am ardystio grantiau a ffurflenni'n is na'r ffi a godwyd yn 2018-19, ac yn unol â'r amcangyfrif a ddarparwyd yn y Cynllun Archwilio. Y rheswm dros y gostyngiad yw bod nifer y grantiau y mae'n ofynnol i ni eu hardystio wedi cael ei ddiwygio gan Lywodraeth Cymru yn 2019-20.

Arddangosyn 3: dadansoddiad o'r ffi fesul grant/ffurflen

Dadansoddiad o'r ffi fesul grant/ffurflen	2019-20	2018-19
BEN01 – Cymhorthdal Budd-dal Tai	£11,079	£9,547
EDU18 – Ysgolion yr 21ain Ganrif	£*	£1,847
HLG01 – Adran 33 Deddf y GIG (Cymru) 2006 – Cyllidebau Cyfun	£2,381	£2,452
HLG03 – Adran 34-194 Deddf y GIG (Cymru) 2006 – Trosglwyddiadau Ariannol	£1,518	£1,384
LA01 – Ffurflen Ardrethi Annomestig Cenedlaethol	£2,396	£2,319
LA12 – Grant Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy	£*	£2,184
LA99 – Datganiad Cryno o Grantiau Ardystiedig Llywodraeth Cymru	£*	£4,265
PEN05 – Ffurflen y Cynllun Pensiwn Athrawon	£3,372	£3,341
SOC07 – Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol	£1,872	£1,718
TRA15 – Grant Trafnidiaeth Leol	£*	£2,392
TRA23 – Teithio Am Ddim	£*	£1,771
TRA27 – Grant Cefnogi Gwasanaethau Bysiau	£*	£2,552
TRA28 – Cynllun Teithio Ieuenctid	£*	£736
Goruchwylio, Cynllunio a Rheoli Grantiau	£2,146	£4,659
Cyfanswm y ffi	**£24,762**	**£40,753**

* Nid oedd yn ofynnol ardystio'r hawliadau hyn yn 2019-20.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Teitl yr Adroddiad: Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru
Dyddiad Cyhoeddi: 06 Mehefin 2019
Pwyllgor Archwilio: 17 Gorffennaf 2019
Cyfeirnod y Ddogfen: https://audit.wales/sites/default/files/planning-services-2019-full-report-english_5.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad
Y system gynllunio sy'n rheoli'r defnydd o dir a'r hyn a gaiff ei adeiladu arno, ac fe'i gorfodir gan awdurdodau cynllunio, sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid caniatáu bwrw ymlaen â datblygiad arfaethedig trwy roi neu wrthod caniatâd cynllunio. Rhaid i geisiadau cynllunio gael eu penderfynu yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol oni bai bod rheswm da iawn dros beidio â gwneud hynny. Felly mae cynllunio'n sicrhau bod y datblygiad cywir yn digwydd yn y lle cywir ar yr adeg gywir.

Argymhellion

Cyf	**Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad**	**Ymateb y Cyngor**
A1	Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn nodi cymhlethdodau'r system gynllunio gan ddangos faint o her ydyw i awdurdodau cynllunio lleol ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid a'u cynnwys mewn dewisiadau a phenderfyniadau. Er mwyn gwella'r modd y mae rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys a pherchnogaeth ar benderfyniadau rydym yn argymell fel a ganlyn: • bod awdurdodau cynllunio lleol: – yn profi arferion ymgysylltu a chynnwys ar hyn o bryd ac yn ystyried yr ystod lawn o opsiynau eraill sydd ar gael i sicrhau bod gweithgareddau cynnwys yn addas ar gyfer y diben; – yn defnyddio 'Cynlluniau Lle' fel cyfrwng i ymgysylltu â chymunedau a dinasyddion a'u cynnwys mewn dewisiadau a phrosesau penderfynu ym maes cynllunio; ac – yn gwella tryloywder ac atebolrwydd trwy gynnal cyfarfodydd cynllunio ar amseroedd priodol, gan gylchdroi cyfarfodydd fel eu bod yn cael eu cynnal mewn ardaloedd y byddai datblygiadau arfaethedig yn digwydd ynddynt, gweddarlledu cyfarfodydd a darparu cyfleoedd i randdeiliaid annerch cyfarfodydd pwyllgorau. • bod Llywodraeth Cymru: – yn adolygu Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu 2012 ac yn diweddaru'r safonau ymgysylltu a chynnwys ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.	Mae'r Cyngor yn ymgysylltu ac yn ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid wrth baratoi'r cynllun a phan fydd ceisiadau cynllunio yn cael eu derbyn. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned i baratoi Cynlluniau Bro. Bydd y Cyngor yn: i) Adolygu dulliau ymgynghori ac yn ystyried a ellir gweithredu gwelliannau. ii) Parhau i gefnogi'r gwaith o baratoi Cynlluniau Bro. iii) Ystyried cyfleoedd i gyflwyno gweddarlledu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu (yn amodol ar gynigion i wella offer i ganiatáu gweddarlledu ehangach ar gyfer cyfarfodydd).
A2	Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn amlygu bod awdurdodau cynllunio lleol wedi profi gostyngiadau sylweddol mewn cyllid a'u bod yn ei chael yn anodd cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. I wella cydnerthedd, rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol: • yn adolygu eu cyfundrefnau ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost wirioneddol darparu'r gwasanaethau hyn ac yn gwneud y gwasanaeth yn hunangyllidol; ac • yn gwella capasiti trwy weithio'n rhanbarthol i: – integreiddio gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn arbenigedd; – datblygu canllawiau cynllunio atodol ar y cyd; a – datblygu cynlluniau datblygu lleol yn y dyfodol ar sail ranbarthol ac mewn partneriaeth gydag awdurdodau cynllunio lleol eraill.	Llwyddodd y Cyngor i gynnal adnoddau i gefnogi'r timau Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio ac Adeiladu. Er mwyn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu defnyddio mor effeithlon â phosibl, bydd y Cyngor yn: i) Adolygu strwythur y gwasanaeth yn ystod 2019/20 ii) Adolygu cyfundrefnau cyllideb ar gyfer 2020/21 iii) Nodi cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill i baratoi polisi cynllunio ac ymgymryd â meysydd cynllunio arbenigol.
A3	Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn amlygu nad yw cost gwasanaethau rheoli datblygu'n cael ei hadlewyrchu yn y taliadau a godir am y gwasanaethau hyn a bod cynnydd i ddatblygu ymatebion rhanbarthol i gryfhau cydnerthedd wedi bod yn araf. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru: • yn adolygu ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost wirioneddol darparu'r gwasanaethau hyn; ac • yn ystyried sut i ddefnyddio'r pwerau yn y Ddeddf Cynllunio (Cymru) i gefnogi a gwella capasiti a chydnerthedd awdurdodau cynllunio lleol.	Er ei fod yn argymhelliad i Lywodraeth Cymru ymateb iddo, byddai'r Cyngor yn croesawu cynnydd mewn ffioedd ac adnoddau ychwanegol i gefnogi gwelliannau yn ei wasanaethau cynllunio.
A4	Mae Rhan 3 o'r adroddiad yn crynhoi effeithiolrwydd ac effaith prosesau penderfynu awdurdodau cynllunio lleol a pha mor dda y maent yn perfformio yn erbyn mesurau cenedlaethol. Rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwella effeithiolrwydd pwyllgorau cynllunio trwy: • adolygu eu cynllun dirprwyo i sicrhau bod pwyllgorau cynllunio'n canolbwyntio ar y materion strategol pwysicaf sy'n berthnasol i'w hawdurdod; • diwygio templedi adroddiadau i sicrhau eu bod yn eglur a diamwys i helpu i roi arweiniad mewn prosesau penderfynu a lleihau lefel yr argymhellion gan swyddogion a gaiff eu gwrthdroi; a • gorfodi safonau ymddygiad awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer cyfarfodydd.	Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro perfformiad y penderfyniadau y mae'n eu gwneud ac yn ystyried: i) Newidiadau pellach i'r cynllun dirprwyo ii) Safoni templedi adroddiadau ar gyfer Pwyllgorau iii) Adolygu'r canllawiau sydd ar gael i'r Aelodau ac i aelodau'r cyhoedd ynghylch y broses gwneud penderfyniadau.
A5	Mae Rhan 4 o'r adroddiad yn nodi rôl ganolog cynllunio i gyflawni uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol: • yn pennu gweledigaeth uchelgeisiol eglur sy'n dangos sut y mae cynllunio'n cyfrannu at wella llesiant; • yn darparu hyfforddiant a chymorth llesant rheolaidd a phriodol ar gyfer aelodau'r pwyllgor cynllunio i helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau ehangach; • yn pennu mesurau priodol ar gyfer y modd y maent yn gweinyddu'r system gynllunio ac effaith eu penderfyniadau cynllunio ar lesiant; ac • yn cyhoeddi'r mesurau perfformiad hyn yn flynyddol i ffurfio barn ynglŷn ag effaith awdurdodau cynllunio ar lesiant.	Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol a bydd y ddogfen hon yn esbonio rôl y cynllun a gwneud penderfyniadau o ran gwireddu uchelgeisiau Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ogystal bydd y Cyngor yn: i) Parhau i gynnal sesiynau briffio gydag aelodau am gynlluniau a'r cyfraniad y mae'n ei wneud tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. ii) Monitro'r CDLl a gwneud penderfyniadau iii) Cyhoeddi adroddiadau monitro a pherfformiad blynyddol

Teitl yr Adroddiad: Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb
Dyddiad Cyhoeddi: Gorffennaf 2020
Pwyllgor Archwilio:
Cyfeirnod y Ddogfen: https://www.audit.wales/sites/default/files/2020-11/Rough-sleeping-Eng_0.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad
Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rydym wedi archwilio sut y mae cyrff cyhoeddus yn ymateb i broblemau drwg ac yn mynd i'r afael â hwy gan ddefnyddio pobl yn cysgu allan fel deunydd olrhain. Ar y cyfan, rydym wedi dod i'r casgliad bod ymateb i COVID-19 yn gyfle i gyrff cyhoeddus ddechrau mynd i'r afael â gwendidau hirsefydlog mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth sydd wedi eu hatal rhag mynd i'r afael â phroblem cysgu allan yn y gorffennol.

Argymhellion

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A1	Dylai cyrff cyhoeddus a phartneriaid yn y trydydd sector sicrhau eu bod yn defnyddio data i gynllunio'r gwasanaethau cywir ar gyfer y dyfodol, ac i sefydlu protocolau rhannu data effeithiol i sicrhau eu bod yn ymateb yn effeithiol ac yn ddiogel i'r broblem o bobl yn cysgu allan. Rydym yn argymell bod cynghorau a'u partneriaid: • yn buddsoddi mewn sgiliau dadansoddi data i ddeall yn well beth yw'r sefyllfa gyfredol a rhagweld y galw yn y dyfodol i atal digartrefedd yn y dyfodol; • adolygu a diweddaru protocolau rhannu data i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data'n effeithiol; a • chyflwyno un broses casglu data ac asesu data i roi cymorth i ategu prosesau penderfynu diogel wrth ymdrin â phobl sy'n cysgu allan.	Mae'r ALl wedi mabwysiadu dull gweithredu Allgymorth Grymusol i ateb y gofyniad hwn a dod â'r cleientiaid hynny a nodwyd i mewn a thrwy Gwasanaethau Dewisiadau Tai. Mae hefyd yn ystyried modelau tai gwahanol i sicrhau nad yw cleientiaid yn dychwelyd i'r strydoedd ac yn symud ymlaen i dai addas. Mae Tai yn Gyntaf yn un fenter a gafodd ei datblygu ac sy'n cael ei gwella. Mae hyn yn cynnwys dull aml-asiantaeth i sicrhau canlyniadau cadarnhaol ac atal unrhyw argyfwng pellach. Mae'r ALl yn cydweithio'n agos â gwasanaethau cymorth sy'n darparu'r swyddogaethau rheoli a chymorth a'n llety dros dro ac felly mae llinellau cyfathrebu yn eu lle yn ogystal â rhannu protocolau.
A2	Gan fod cyrff cyhoeddus yn ymateb i bobl mewn argyfwng, maent yn aml yn ymdrin â materion aciwt ar wahân i'w gilydd ac anaml y maent yn mynd i'r afael ag achos sylfaenol yr argyfwng. Er mwyn gwneud hyn mae gofyn i gyrff cyhoeddus ddylunio a chreu modelau darparu gwasanaethau sy'n ymatebol. Rydym yn argymell bod cyrff cyhoeddus yn defnyddio ein hofferyn hunan-fyfyrio anghenion cymhleth i wella sut y gallant fynd i'r afael ag anghenion cymhleth ar y cyd yn y dyfodol.	Fel rhan o ymateb yr ALl i Covid-19 a defnyddio cyllid Cam 2 Llywodraeth Cymru, bydd Ceredigion yn trawsffurfio ei bortffolio Llety Dros Dro i gwmpasu cyfleuster 'Brysbennu' yn y pwynt mynediad. Bydd hyn yn sicrhau bod asesiadau o anghenion yn cael eu cynnal yn brydlon, gydag Ailgartrefu Cyflym yn flaenoriaeth. Bydd y Grant Cymorth Tai hefyd yn cynnig modd i'r fenter hon ddatblygu ymhellach gan weithredu'r rôl 'Ymyraethau Cyfnod Allweddol' mewn partneriaeth â phartneriaid o'r trydydd sector, gydag ymyrraeth amserol a gwaith atal yn sail i'r dull gweithredu hwn.

Teitl yr Adroddiad: Y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2019
Pwyllgor Archwilio: 05 Chwefror 2020
Cyfeirnod y Ddogfen: https://www.audit.wales/sites/default/files/Front-door-to-adult-social-care-english_11.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad
Bu pwyslais ein gwaith ar farnu effeithiolrwydd y 'drws blaen' newydd hwn i ofal cymdeithasol, gan edrych yn benodol ar wasanaethau i oedolion. Mae ein hadolygiad wedi ystyried pa mor gynhwysfawr yw'r gwasanaethau IAA, i ba raddau y mae cymorth ataliol a chymunedol ar gael, a'r systemau sicrwydd a roddir ar waith i sicrhau bod y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt, neu'r rhai sydd mewn perygl, yn cael eu nodi a'u cynorthwyo. Yn olaf, rydym yn ystyried effaith y drws blaen ar y galw am ofal cymdeithasol (gwariant, asesiadau a gwasanaethau) ond hefyd o ran gwella llesiant. Daw'r awdurdod i'r casgliad fod Cynghorau yn ateb y galw am ofal cymdeithasol, ond nid yw gwybodaeth, cyngor a chymorth yn effeithiol yn gyson.

Argymhellion

Cyf	**Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad**	**Ymateb y Cyngor**
A1	Mae Rhan 1 yr adroddiad yn nodi sut y mae awdurdodau yn hyrwyddo mynediad i'r 'drws blaen' ac yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i helpu pobl i wella eu lles ac atal eu hanghenion rhag dirywio. Er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r drws blaen, rydym yn argymell y canlynol: **awdurdodau lleol:** • adolygu eu dulliau presennol, ystyried eu cynulleidfa, a sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd da ar gael yn brydlon er mwyn atal anghenion rhag dirywio a phobl rhag cyflwyno eu hunain am gymorth mewn 'argyfwng'; • gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i helpu i sicrhau bod pobl sy'n cael gafael ar wasanaethau trwy atgyfeiriadau gan bartneriaid, neu ddulliau eraill, yn cael yr wybodaeth orau i'w helpu; • sicrhau bod gwasanaethau eirioli yn cael eu comisiynu a'u cynnig yn rhagweithiol i'r rhai y mae eu hangen arnynt ar y pwynt cyswllt cyntaf; ac • ysgwyddo cyfrifoldeb yn lleol ac arwain y gwaith o gydlynu a golygu gwybodaeth leol a gyhoeddir ar Dewis Cymru yn lleol. **Llywodraeth Cymru:** • gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gofalwyr o'u hawliau i gael eu hasesu ar gyfer eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain gyda'r nod o greu galw am wasanaethau ataliol yr awdurdodau lleol; a • chynnal gwerthusiad llawn o swyddogaeth Dewis Cymru wrth roi'r Ddeddf ar waith yn ehangach a defnyddio'r data a geir i adeiladu ar ei botensial fel porth ar gyfer rhannu gwybodaeth yn genedlaethol.	Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweithredu rhaglen drawsffurfio ar draws amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys gofal cymdeithasol. Bydd gwasanaeth drws blaen y Cyngor, Clic, yn gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob ymholiad i'r awdurdod, gan gasglu set data ofynnol yn dibynnu ar y math o ymholiad. Bydd yn darparu gwybodaeth ar gyfer ymholwyr lle bo'n bosibl, gan gyfeirio pobl at wasanaethau data digidol megis DEWIS lle y bo'n briodol, ac os oes angen cymorth a chyngor pellach cyfeirio ymholiadau'n gywir at y Porth Cymorth Cynnar (gwasanaethau cymorth cynnar ac atal) a'r Porth Gofal (gwasanaethau integredig byrdymor wedi'u hasesu ac wedi'u targedu ar gyfer gofal cymdeithasol). Caiff pryderon diogelu eu huwchgyfeirio mewn modd amserol i'r adran gywir a chaiff atgyfeiriadau eu gwneud yn uniongyrchol i'r gwasanaethau Porth Cynnal (gwasanaethau arbenigol), e.e. Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Deddf Galluedd Meddyliol. Bydd gwasanaethau Porth Gofal yn gweithredu fel porthgeidwad ar gyfer pob ymholiad a ddaw trwy Clic a bydd yn brysbennu pob achos, gan gynnwys casglu gwybodaeth ychwanegol os oes angen. Bydd yn darparu gwybodaeth neu gyngor lle y bo angen, ac os yw'n briodol yn cau'r ymholiad. Ar gyfer y gweddill, darparu cymorth a allai arwain at asesiad cymesur, yna naill ai ei neilltuo i wasanaeth perthnasol neu ei gau os nad oes unrhyw weithredu pellach/os nad oes modd darparu unrhyw gyngor/cymorth pellach. Ceredigion yw'r safle peilot rhanbarthol ar gyfer cyflwyno prosiect eiriolaeth proffesiynol annibynnol sydd wedi cael ei werthuso ac sy'n cael ei gyflwyno ar draws y rhanbarth.
A2	Mae Rhan 2 yr adroddiad yn tynnu sylw at wendidau o ran sicrwydd yr awdurdodau ynghylch ansawdd y gwasanaethau trydydd sector, ataliol a chymunedol y maent yn atgyfeirio pobl iddynt, ac i ba raddau y maent ar gael. Rydym yn argymell y canlynol: **awdurdodau lleol:** • mapio'r gwasanaethau ataliol sydd ar gael yn eu hardal er mwyn cael gwell dealltwriaeth o lefelau presennol y ddarpariaeth a nodi bylchau a dyblygiadau; • cynnwys partneriaid y trydydd sector wrth gyd-lunio atebion ataliol i ddiwallu anghenion pobl a sicrhau y gall pobl gael gafael ar y gwasanaethau hyn mewn modd teg; • gweithio gyda phartneriaid y trydydd sector er mwyn teilwra a chomisiynu gwasanaethau newydd lle nodir bylchau; a • gweithio gyda phartneriaid i wella data er mwyn gwerthuso effaith gwasanaethau ataliol ar unigolion, ac ar y boblogaeth yn fwy cyffredinol. **Llywodraeth Cymru:** • gwella'r gwerthusiad o gost mewn cysylltiad ag effaith y Ddeddf mewn cyd-destun cenedlaethol, a chefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod yr effaith a ddymunir o ran atal gwariant cyffredinol ar ofal cymdeithasol yn dod yn wirionedd dangosol.	Gweithgor Dewis Cymru wedi ei sefydlu i ddarparu'r cymorth ac annog gwasanaethau i lanlwytho a chynnal eu hadnoddau ar y platfform cenedlaethol. Cydweithredu rhwng ein tîm o Gysylltwyr Cymunedol a'n Cyngor Gwirfoddol Sirol i ddiweddaru'n gyson a chynnal cyfeirlyfr o wasanaethau lleol, yn enwedig grwpiau ymateb a sefydliadau newydd COVID-19. Mae Map Adnoddau Lleol (rhithwir) wedi cael ei greu mewn partneriaeth â CAVO sy'n cysylltu â Dewis ac Info-engine. Mapio mewnol o ddarparwyr gwasanaethau trydydd sector ar gael trwy grŵp ffocws wedi'i dargedu, gan gyfrannu at Raglen Drawsffurfio Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol. Roedd hyn wedi cynnwys ymarfer mapio mewnol o'r holl grwpiau, rhwydweithiau a fforymau y gwyddys amdanynt gan nodi pa wasanaethau/darpariaethau/cyfleoedd sydd ar waith a ble, a hefyd i nodi pa wasanaethau y mae angen eu datblygu o fewn y sir (i gefnogi datblygu ein rhaglen TAW). Mae nifer o gynlluniau grant yn cael eu rheoli / dosbarthu ar y cyd gan yr Awdurdod Lleol a'r Cyngor Gwirfoddol Sirol (CAVO). Mae Is-grŵp o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus; Deall ein Cymunedau yn cael ei gadeirio gan Brif Swyddog Gweithredol y Cyngor Gwirfoddol Sirol. Mae nifer o ymatebion ymgynghori wedi cael eu cwblhau ar y cyd â grwpiau trydydd sector i sicrhau bod safbwyntiau wedi'u cynrychioli, er enghraifft yr ymgynghoriad diweddar ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr a Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio. Mae cynlluniau gwaith yn cynnwys cyfraniad partneriaid trydydd sector trwy gontractau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth gan gynnwys y Grant Plant a Chymunedau, sef Teuluoedd yn Gyntaf, sy'n cynnwys nifer o ddarparwyr trydydd sector uniongyrchol. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydweithio'n agos iawn â phartneriaid o'r trydydd sector ac mae'r bartneriaeth hon wedi tyfu a datblygu dros y 12 mis diwethaf. Ar ddechrau'r pandemig y llynedd, roedd y Cyngor Gwirfoddol Sirol a CAVO wedi creu rhestr o'r holl adnoddau lleol (dosbarthu prydau bwyd, casglu siopa a meddyginiaethau, grwpiau cymorth COVID-19 newydd a sefydledig a sefydliadau cenedlaethol) yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol mewn ymateb i'r pandemig. Mae CSC a CAVO wedi gweithio ar y cyd i sicrhau ein bod yn ymateb yn effeithiol i'r anghenion sy'n dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod heriol hwn, trwy drefnu gwasanaeth dosbarthu bwyd, dosbarthu nwyddau fferyllol ac ati i drigolion Ceredigion. Enghraifft ddiweddar o waith gyda phartneriaid trydydd sector yw teilwra a chomisiynu gwasanaethau newydd, lle mae bylchau wedi'u nodi, gan gynnwys prosiect cysylltedd digidol diweddar sy'n cael ei redeg mewn partneriaeth rhwng Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, CAVO a Chymunedau Digidol Cymru. Prosiect wedi'i gomisiynu yw hwn yn seiliedig ar angen a nodwyd yn ystod y pandemig, lle mae angen helpu teuluoedd sy'n agored i niwed sydd â phlant o dan 4 oed trwy roi cymorth a'r cysylltedd iddynt gael mynediad at gefnogaeth, sef rhaglenni grwpiau rhianta rhithwir. Enghraifft arall yw cydweithredu rhwng yr Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd Hywel Dda ac (arweinydd) y Cyngor Gwirfoddol Sirol i roi Grant Adfer ar gyfer Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru ar waith. Cyflwynwyd cynllun gwaith ar y cyd ac mae wedi'i roi ar waith bellach. Mae nifer o feysydd ffocws yn seiliedig ar angen clir a nodwyd, sef prosiect wedi'i gomisiynu i ymchwilio i effaith gwirfoddolwyr ar hybiau llesiant, a fydd yn cyfrannu at helpu i ddatblygu hybiau llesiant lleol. Mae rhaglenni trawsffurfio Gofal Cymdeithasol yn ein galluogi i weithio gyda rhieni i wella data er mwyn gwerthuso effaith gwasanaethau ataliol ar unigolion a'r boblogaeth yn gyffredinol. Er enghraifft, mae ein tîm o gysylltwyr cymunedol a'n partneriaid rhanbarthol wedi elwa ar hyfforddiant rhagnodi cymdeithasol i gryfhau ein cyfleoedd casglu data ac adeiladu gwasanaethau cryf ac atebol. Mae prosiect iechyd meddwl amenedigol newydd wedi'i ariannu gan y Gronfa Gofal Integredig wedi cynnig modd i ni weithio gyda'n cydweithwyr Iechyd i ddatblygu dulliau gwerthuso cymorth ymyrraeth gynnar ar gyfer rhieni newydd neu ddarpar rieni mewn lleoliadau allweddol yng Ngheredigion, a sut y mae'r ymyrraeth wedi eu cefnogi ac a yw wedi lleihau'r angen am gymorth iechyd meddwl arbenigol ac ati.

Teitl yr Adroddiad: Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o ddylunio a gweithredu Model Gwasanaethau Integredig y Cyngor – Cyngor Sir Ceredigion
Dyddiad Cyhoeddi: 20 Rhagfyr 2019
Pwyllgor Archwilio: 05 Chwefror 2020
Cyfeirnod y Ddogfen: https://www.audit.wales/sites/default/files/2020-12/ceredigion_council_wfg_integrated_services_model_english.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad

Fe archwilion ni i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio a gweithredu'r Model Gwasanaethau Integredig. Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol: Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Cynnwys.
Canfu ein harchwiliad fod y Cyngor yn mynd ati'n effeithiol i ystyried a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio a gweithredu'r Model Gwasanaethau Integredig ac mae'n mynd ar drywydd cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach.

Ymateb y Cyngor

Cyfleoedd	**Gweithredu gan y Cyngor**
Yr hirdymor: • Bydd dadansoddiad pellach o'r cyllid, costau amcangyfrifedig ac arbedion o gymorth i roi mwy o eglurder ynghylch cynaliadwyedd ariannol a gweithredol y Model Gwasanaethau Integredig. • Mae'r Cyngor wedi cynnal dadansoddiad data manwl i'w helpu i ddylunio'r Model Gwasanaethau Integredig ond mae angen iddo ddatblygu mesurau perfformiad i asesu'r cynnydd tuag at amcanion gofal cymdeithasol byrdymor a hirdymor y Cyngor.	Cafwyd oedi wrth weithredu gwasanaethau integredig am rai misoedd o ganlyniad i bandemig Covid-19. Cafodd y rhaglen ei hailsefydlu yn Awst 2020 a'i hail-lansio fel y Rhaglen Gydol Oed a Llesiant. Mae amrywiaeth o ffrydiau gwaith â blaenoriaeth wedi cael eu sefydlu gan gynnwys ffrydiau gwaith a fydd yn canolbwyntio ar reolaeth ariannol i sicrhau bod gwasanaethau yn y dyfodol yn cael eu datblygu a'u darparu mewn ffordd ariannol gadarn. Mae'r Strategol Gydol Oed a Llesiant wrthi'n cael ei datblygu a fydd yn amlinellu dull cyflenwi gweledigaeth y Strategaeth Gydol Oed a Llesiant ar gyfer y 3-5 mlynedd nesaf. Bydd y strategaeth yn cynnwys nifer o amcanion a mesurau strategol a fydd yn sicrhau cyfeiriad clir ar gyfer gwasanaethau. Bydd y rhain yn llywio cynllunio busnes a chynnydd ar y newidiadau sydd eu hangen ar draws y rhaglen, ac yn sicrhau asesiad lleol o berfformiad bob chwarter trwy drefniadau perfformiad chwarterol y Cyngor.
Integreiddio: • Cwblhau Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb i archwilio sut y rhoddwyd 'sylw dyladwy' o 'weithredu arfer newydd' a sut y mae gweithrediad y Model Gwasanaethau Integredig: – yn effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol; – yn cefnogi, ac yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae Erthygl 8 yn amddiffyn yr hawl i fywyd teuluol preifat sy'n cynnwys materion o ymreolaeth a hunanbenderfyniad yn ogystal â phreifatrwydd a chyfrinachedd gohebiaeth a dogfennau personol; ac – yn bodloni Safon y Gymraeg. • Cwblhau Asesiad llawn o'r Effaith ar Breifatrwydd sy'n ofynnol dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) lle mae prosesu yn yr arfaeth a allai gael effaith sylweddol ar 'hawliau a rhyddid unigolion – gan gynnwys yr hyn sy'n deillio o system, prosesu neu weithgareddau newydd neu well sy'n cynnwys data personol'.	Mae Rheolwyr Corfforaethol wedi cael eu penodi bellach ac mae cwblhau Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi dechrau a chaiff ei ddatblygu ymhellach pan fydd y Strategaeth Gydol Oed a Llesiant wedi ei gwblhau. Bydd yr Asesiad llawn o'r Effaith ar Breifatrwydd hefyd yn cael ei ddatblygu pan fydd y Strategaeth Gydol Oed a Llesiant wedi cael ei chwblhau ac mae'n glir beth yw'r prosesau busnes gofynnol
Cynnwys: • Mae gan y Cyngor y cyfle i gynnwys y cyhoedd yng nghamau diweddarach dylunio'r model i'w helpu i drefnu pyrth cyflenwi. • Gallai'r Cyngor ddefnyddio canlyniad ei Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau ei fod wedi cynnwys yr holl garfannau amrywiol perthnasol o ddefnyddwyr gwasanaethau yn y broses o ddylunio gwasanaethau gan gynnwys y rhai mewn grwpiau anodd i'w cyrraedd.	Ymarfer ymgysylltu cyhoeddus cynhwysfawr yn cael ei gynnal chwe mis ar ôl rhoi'r strwythur newydd ar waith. Caiff hwn ei ddal fel rhan o'r ymarfer ymgysylltu.

Teitl yr Adroddiad: Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
Dyddiad Cyhoeddi: Hydref 2019
Pwyllgor Archwilio: 5 Chwefror 2020
Cyfeirnod y Ddogfen: https://www.audit.wales/sites/default/files/review-of-public-service-boards-english_11.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad
Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rydym wedi archwilio sut y mae BGCau yn gweithredu; gan edrych ar eu haelodaeth, eu hamodau gorchwyl, amlder a ffocws cyfarfodydd, y modd y maent wedi'u halinio â phartneriaethau eraill, adnoddau a threfniadau craffu. Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn annhebygol o wireddu eu potensial oni bai y rhoddir rhyddid iddynt i weithredu'n fwy hyblyg ac i feddwl a gweithredu'n wahanol.

Argymhellion

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A1	Yn Rhan 1 o'r adroddiad rydym yn nodi bod deall effaith dewisiadau a phenderfyniadau yn golygu ei bod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid yn llawn a chwblhau Asesiadau Effaith. Fodd bynnag, canfuom fod ymarfer presennol yn annigonol i roi sicrwydd bod anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried yn llawn wrth adolygu dewisiadau ac nad yw llais dinasyddion yn dylanwadu'n ddigonol ar benderfyniadau. Rydym yn argymell bod BGCau: • yn cynnal asesiadau ffurfiol i ganfod yr effaith bosibl ar bobl â nodweddion gwarchodedig a'r Gymraeg ac yn adolygu camau gweithredu y cytunwyd arnynt i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw effeithiau andwyol; • yn gwella tryloywder ac atebolrwydd trwy wneud cyfarfodydd, agendâu, papurau a chofnodion BGCau yn hygyrch ac ar gael i'r cyhoedd; • yn cryfhau trefniadau cynnwys trwy weithio'n unol â'r canllawiau yn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru; ac • yn adrodd yn ôl ar ganlyniad gweithgarwch cynnwys gan nodi ble y gwneir newidiadau o ganlyniad i fewnbwn dinasyddion a rhanddeiliaid.	Teimlir bod arferion presennol yn ddigonol i roi sicrwydd bod anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried yn llawn wrth adolygu dewisiadau a bod llais dinasyddion yn dylanwadu ar benderfyniadau. Mae holl agendâu, papurau a chofnodion y BGC yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac mae cyfarfodydd yn gyhoeddus (yn ystod pandemig Covid gall aelodau'r cyhoedd ofyn i wrando ar gyfarfodydd rhithwir).
A2	Yn Rhan 2 o'r adroddiad rydym yn adolygu trefniadau craffu BGCau ac yn dod i'r casgliad bod diffygion a gwendidau mewn perfformiad ac arfer presennol. I wella trefniadau craffu, rydym yn argymell: • bod BGCau a chyrff cyhoeddus yn defnyddio canfyddiadau'r Papur Trafod: Chwe thema i helpu i wneud craffu'n 'Addas ar gyfer y Dyfodol' gan Archwilydd Cyhoeddus Cymru i adolygu eu perfformiad presennol a nodi ble y mae angen iddynt gryfhau trefniadau a gweithgarwch trosolwg; a • bod BGCau yn sicrhau bod pwyllgorau craffu'n ymgysylltu'n ddigonol ag ystod ehangach o randdeiliaid perthnasol sy'n gallu helpu i ddwyn BGCau i gyfrif.	Er y teimlir bod trefniadau craffu yn gweithio'n dda, mae camau wedi cael eu cymryd i gryfhau'r broses. Ceir Pwyllgor Craffu dynodedig yng Nghyngor Sir Ceredigion sy'n derbyn adroddiadau yn dilyn pob cyfarfod o'r BGC. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Craffu hefyd yn cael ei wahodd i gyfarfodydd y BGC er mwyn rhoi adborth a thrafod y prif bwyntiau. Wrth symud ymlaen, caiff Cadeirydd pob un o Grwpiau Prosiect y BGC ei wahodd i gyflwyno adroddiad manwl ar ei waith mewn Pwyllgor Craffu yn y dyfodol.
A3	Yn Rhan 3 o'r adroddiad rydym yn crynhoi'r anhawster o ran datblygu BGCau, eu rhoi ar waith a darparu adnoddau ar eu cyfer a heriau rheoli partneriaethau lluosog sy'n aml yn gallu gorgyffwrdd â'i gilydd a dyblygu ei gilydd. I helpu i adeiladu capasiti, cysondeb a darparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch rydym yn argymell: • bod BGCau yn cymryd y cyfle i gyflawni rhwymedigaethau mewn cynlluniau a strategaethau eraill trwy'r Cynllun Llesiant Lleol; • bod Llywodraeth Cymru yn galluogi BGCau i ddatblygu modelau gweithio hyblyg gan gynnwys: - cyfuno, lleihau ac integreiddio eu gwaith gyda fforymau eraill megis Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol; a - rhoi hyblygrwydd i BGCau gael, rheoli a gwario arian grant ar yr amod bod BGCau yn sicrhau bod ganddynt drefniadau diogelu a systemau priodol ar waith i reoli cyllid; rheolaethau effeithiol ar gyllidebau a rhaglenni grantiau; a systemau adrodd wrth y cyhoedd, trosolwg a chraffu i reoli gwariant.	Mae cymryd y cyfle i gyflawni cynlluniau a phrosiectau eraill trwy'r Cynllun Llesiant Lleol yn cael ei ystyried yn ddiwyd ac yn barhaus. Enghraifft o hyn yw'r cysylltiadau a gafodd eu gwneud gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddefnyddio ychydig o arian trawsffurfio i wireddu blaenoriaethau'r BGC.
A4	Er mwyn helpu i feithrin capasiti, cysondeb a'r broses o ddarparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn eu hadolygiad o bartneriaethau strategol yn ystyried, ac yn archwilio, canfyddiadau'r adolygiad hwn.	Amh

Teitl yr Adroddiad: 'Gwella ein Perfformiad' Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru
Dyddiad Cyhoeddi: Gorffennaf 2020
Pwyllgor Archwilio:
Cyfeirnod y Ddogfen: https://www.audit.wales/sites/default/files/2020-11/raising_our_game_tackling_fraud_in_wales_english.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad
Mae'r adroddiad hwn yn archwilio saith 'thema allweddol' y mae angen i bob corff cyhoeddus ganolbwyntio arnynt wrth wella eu perfformiad o safbwynt mynd i'r afael â thwyll yn fwy effeithiol: • arweinyddiaeth a diwylliant; • fframweithiau rheoli risg a sicrhau rheolaeth; • polisïau a hyfforddiant; • capasiti ac arbenigedd; • offer a data; • cydweithio; ac • adrodd a chraffu.

Argymhellion

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A1	Dylai Llywodraeth Cymru wella ei harweinyddiaeth strategol ym maes atal twyll ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, a chyflawni rôl gydlynu os yw hynny'n bosibl iddi, gan gydnabod bod cyrff unigol yn parhau'n gyfrifol am eu gweithgareddau eu hunain ym maes atal twyll.	Byddai'r Cyngor yn croesawu rhoi rôl gydlynu i Lywodraeth Cymru yn y maes hwn, a fyddai'n cynorthwyo ac yn cefnogi cydweithio a chysondeb mewn arferion gweithio o fewn Llywodraeth Leol.
A2	Dylai pob corff cyhoeddus hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant da o ran atal twyll, a hyrwyddo ei bwysigrwydd yn weithredol er mwyn rhoi hyder i staff ac aelodau'r cyhoedd na chaiff twyll ei oddef.	• Mae 'Strategaeth ar Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' yn strategaeth gynhwysfawr y Cyngor a fydd yn destun adolygiad 3 blynyddol yn Ebrill 2021. • Gall y cyhoedd adrodd am unrhyw achosion posibl o dwyll Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a/neu dwyll Budd-dal Tai / budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau ar-lein trwy ddilyn y cyfarwyddiadau ar wefan y Cyngor • Fel rhan o drefniadau diogelu'r Cyngor, mae tudalen ar y wefan hefyd gyda manylion ynghylch sut y dylid adrodd am amheuon o gam-drin ariannol yn erbyn oedolyn agored i niwed (gan gynnwys twyll/lladrad). • Mae'r Cyngor yn cynnal ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn rheolaidd er mwyn atal a chanfod twyll trwy baru data. Rhoddir hysbysiadau yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymarfer hwn i staff a'r cyhoedd ar y wefan y Cyngor ac ar Ceri. • Mae Archwilio Mewnol yn defnyddio meddalwedd 'Activedata' i weithredu technegau gwyddor dadansoddi data o fewn systemau lle y bo'n briodol, e.e. wrth brosesu grantiau Covid. • Bydd Zurich, yswiriwr y Cyngor, yn darparu modiwl hyfforddi ar Foeseg a Thwyll i Weithdy Corfforaethol y Cyngor ar 28 Mai 2021.
A3	Dylai pob corff cyhoeddus gynnal asesiadau cynhwysfawr o'r risgiau o dwyll, gan ddefnyddio staff sydd â'r sgiliau priodol ac ystyried gwybodaeth genedlaethol yn ogystal â gwybodaeth sy'n benodol i sefydliad.	• Mae pob Rheolwr yn cynhyrchu cynlluniau busnes sy'n cynnwys ei risgiau busnes – gall twyll gael ei fewnbynnu fel risg os ystyrir bod hynny'n briodol, gan nodi'r camau lliniaru. • Mae twyll yn bennawd â blaenoriaeth yng nghynllun gwaith archwilio blynyddol Archwilio Mewnol. Cefnogir hyn gan hysbysiadau oddi wrth gyrff allanol megis NAFN a CIPFA, yn ogystal ag Awdurdodau Lleol eraill trwy Grwpiau Prif Archwilydd Cymru a thrwy gynnal asesiadau risg mewnol.
A4	Dylai asesiadau o'r risgiau o dwyll gael eu defnyddio fel adnodd byw a'u hintegreiddio yn y fframwaith cyffredinol ar gyfer rheoli risg, er mwyn sicrhau bod y risgiau dan sylw'n cael eu rheoli'n briodol a'u huwchgyfeirio fel y bo raid.	Asesir pob risg o fewn cynlluniau busnes / gwasanaeth ar sail effaith a thebygolrwydd yn unol â Fframwaith Rheoli Risg y Cyngor. Caiff unrhyw risgiau sy'n cael sgôr ddilynol yn y categori risg uchel neu gritigol eu huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol sy'n cael ei monitro gan y Grŵp Arweiniol, a'u hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
A5	Mae angen i bob corff cyhoeddus gael cyfres gynhwysfawr wedi'i diweddaru o bolisïau a gweithdrefnau, sydd gyda'i gilydd yn strategaeth gydlynus ar gyfer adnabod a rheoli risgiau o dwyll ac ymateb iddynt.	• Mae'r 'Strategaeth ar Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' yn cwmpasu atal, canfod ac ymchwilio i dwyll. • Mae'r Fframwaith Rheoli Risg yn darparu proses gynhwysfawr ar gyfer adnabod a lliniaru'r holl risgiau. • Mae'r 'Polisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed' yn cynnwys proses atgyfeirio gyda ffurflenni ategol os yw cam-drin ariannol yn cael ei amau. • Mae Polisi Chwythu'r Chwiban gan y Cyngor os hoffai staff adrodd am bryder a gellir gwneud hynny yn ddienw. • Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau uchod yn cael eu hategu gan becynnau hyfforddi amrywiol i'r staff.
A6	Dylai staff sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru gael hyfforddiant ynghylch ymwybyddiaeth o dwyll fel y bo'n briodol i'w rôl, er mwyn gwella effeithiolrwydd sefydliadau o safbwynt atal twyll, ei ganfod ac ymateb iddo.	• Mae Swyddogion Gorfodi megis staff Safonau Masnach yn gymwysedig i gynnal cyfweliadau PACE. • Mae gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn trefnu hyfforddiant mewnol i staff sy'n 'swyddogion ymchwilio' dynodedig ar gyfer materion disgyblu. • Mae swyddog diogelu dynodedig hyfforddedig ar gyfer pob gwasanaeth ac mae honiadau o gam-drin yn erbyn pobl agored i niwed yn cael eu hadrodd i'r swyddogion hyn. • Mae gan ddau aelod o staff archwilio mewnol Dystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwilio (CCIP) ac mae un arall yn Dechnegydd Atal Twyll Achrededig (ACFTech). • Bydd Zurich yn darparu modiwl hyfforddi ar Foeseg a Thwyll i Weithdy Corfforaethol y Cyngor (pob rheolwr) ar 28 Mai 2021.
A7	Dylid rhoi cyhoeddusrwydd i achosion lle caiff twyll ei ganfod a lle eir i'r afael ag ef yn llwyddiannus, er mwyn atgyfnerthu neges gadarn o'r brig na chaiff twyll ei oddef.	• Mae unrhyw waith gorfodi sy'n arwain at achosion llys llwyddiannus yn cael sylw yn y wasg leol. • Mae'r gwaith atal twyll Archwilio Mewnol a wneir yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn flynyddol. • Gall unrhyw aelod o staff sy'n gyfrifol am risg ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, neu am gam gweithredu mewn adroddiad archwilio gael ei alw gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i roi sicrwydd bod y systemau / camau gweithredu priodol yn eu lle.
A8	Mae angen i bob corff cyhoeddus greu digon o gapasiti i sicrhau bod gwaith atal twyll yn cael adnoddau effeithiol, fel bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal yn broffesiynol ac mewn modd sy'n arwain at gosbi'r tramgwyddwyr yn llwyddiannus ac at adennill colledion.	Nid oes gan y Cyngor dîm twyll dynodedig, ond mae ymchwiliadau'n cael eu cynnal gan swyddogion yr ystyrir eu bod yn briodol i bob achos yn ôl eu profiad / cymwysterau (gweler pwynt A6 uchod).
A9	Dylai pob corff cyhoeddus fod yn medru cael gafael ar staff sydd wedi cael hyfforddiant ynghylch atal twyll ac sy'n bodloni safonau proffesiynol cydnabyddedig.	Gweler pwynt A8 uchod.
A10	Dylai pob corff cyhoeddus ystyried modelau a fabwysiadwyd mewn rhannau eraill o'r DU, sy'n ymwneud â chyfuno / rhannu adnoddau er mwyn sicrhau bod cynifer ag sy'n bosibl o staff ar gael sydd â'r sgiliau priodol.	Mae Grŵp Prif Archwilydd Gogledd a Chanolbarth Cymru wrthi'n atgyfodi'r Gweithgor Twyll Arbenigol a fydd yn cynorthwyo trwy roi cymorth a chysondeb ar gyfer arferion twyll Archwilio Mewnol yn yr aelod-awdurdodau.
A11	Mae angen i bob corff cyhoeddus ddatblygu a chynnal ymatebion deinamig a hyblyg ym maes atal twyll, sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd camau gorfodi llwyddiannus yn cael eu cymryd ac sy'n ategu'r agwedd o'r brig nad yw'r sefydliad yn goddef twyll.	Gweler pwynt A8 uchod.

A12	Dylai pob corff cyhoeddus archwilio a chroesawu cyfleoedd i arloesi gyda gwyddor dadansoddi data, er mwyn cryfhau trefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll.	Mae Archwilio Mewnol yn defnyddio meddalwedd 'Activedata' i weithredu technegau gwyddor dadansoddi data o fewn systemau lle y bo'n briodol, e.e. wrth brosesu grantiau Covid.
A13	Dylai cyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd, dan Ddeddf yr Economi Ddigidol a chan ddefnyddio datblygiadau ym maes gwyddor dadansoddi data, i rannu data a gwybodaeth er mwyn helpu i ganfod twyll a brwydro yn ei erbyn.	Mae'r Cyngor yn cynnal ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn rheolaidd er mwyn atal a chanfod twyll trwy baru data rhwng ei wasanaethau ei hun a gyda chyrff sector cyhoeddus cenedlaethol eraill.
A14	Mae angen i gyrff cyhoeddus grynhoi gwybodaeth am golledion ac adenillion a rhannu gwybodaeth â'i gilydd am dwyll er mwyn creu darlun cenedlaethol mwy cywir, cryfhau rheolaeth, gwella gwaith monitro a hybu camau gweithredu a gaiff eu targedu.	Ym marn y Cyngor mae hon yn dasg sy'n briodol i Lywodraeth Cymru os yw'n derbyn y rôl gydlynu o ddarparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer atal twyll ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (gweler pwynt A1 uchod).
A15	Rhaid i Bwyllgorau Archwilio a Llywodraethu ddechrau ymwneud yn llawn ag atal twyll, gan ddarparu cymorth a chyfeiriad, monitro a dwyn swyddogion i gyfrif.	• Mae'r gwaith atal twyll Archwilio Mewnol a wneir yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn flynyddol. • Gall unrhyw aelod o staff sy'n gyfrifol am risg ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, neu am gam gweithredu mewn adroddiad archwilio gael ei alw gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i roi sicrwydd bod y systemau / camau gweithredu priodol yn eu lle.

Teitl yr Adroddiad: Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-20
Dyddiad Cyhoeddi: Hydref 2020
Pwyllgor Archwilio: 12 Tachwedd 2020
Cyfeirnod y Ddogfen: https://www.audit.wales/sites/default/files/NFI_interactive_PDF_2018_20_eng_0_10.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad
Er bod y mwyafrif o gyfranogwyr yn y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru'n dangos ymrwymiad cryf i atal twyll ac i'r Fenter Twyll Genedlaethol, fel a nodais yn fy adroddiad diweddar ar drefniadau atal twyll ledled Cymru, nid yw rhai cyrff yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â thwyll ac nid ydynt yn sicrhau bod digon o adnoddau o ran staff medrus yn eu lle i ymchwilio i bariadau, atal twyll a chywiro gwallau. Mae pandemig COVID-19 wedi achosi heriau sylweddol ar draws y sector cyhoeddus wrth i gyrff geisio darparu gwasanaethau ar gyfer unigolion, cymunedau a busnesau ar adeg eithriadol o anodd. Ers dechrau'r pandemig, mae'r risg o dwyll wedi cynyddu wrth i sefydliadau ddod o dan bwysau ac wrth i reolaethau a threfniadau llywodraethu newid.

Argymhellion	**Ymateb y Cyngor**
Dylai'r holl gyfranogwyr yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol sicrhau eu bod yn cynyddu manteision eu cyfranogiad i'r eithaf. Dylent ystyried a yw'n bosibl gweithio'n fwy effeithlon ar bariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol trwy adolygu'r adran gyfarwyddyd yng nghymhwysiad gwe diogel y Fenter Twyll Genedlaethol.	Mae ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn cael ei gydlynu gan y Rheolwr Archwilio. Mae pob adroddiad yn cael ei redeg ar y cyd â TG a chaiff canlyniadau eu hanfon i'r gwasanaethau priodol i'w prosesu. Mae pariadau adrodd yn cael eu cynhyrchu yn nhrefn risg a chaiff profi sampl ei gynnal yn seiliedig ar y flaenoriaeth risg. Anogir pob cyfranogwr i ddarllen y cyfarwyddyd a dilyn yr hyfforddiant o fewn cymhwysiad gwe diogel y Fenter Twyll Genedlaethol cyn pob ymarfer.
Dylai Pwyllgorau Llywodraeth ac Archwilio, neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny, a swyddogion sy'n arwain y Fenter Twyll Genedlaethol adolygu rhestr wirio hunanarfarnu'r Fenter Twyll Genedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn meddu ar wybodaeth lawn am waith cynllunio a chynnydd eu sefydliad yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-22.	Roedd cynlluniau ar droed i gwblhau hunanasesiad i adrodd i'r Grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ond cafodd ei atal oherwydd y pandemig. Mae hyn wedi'i drefnu ar gyfer Hydref 2021 bellach pan ddaw'r ymarfer cyfredol i ben.
Lle mae archwilwyr lleol wedi nodi meysydd penodol lle gellid gwneud gwelliannau, dylai'r cyrff cyhoeddus weithredu ar y rhain cyn gynted â phosibl.	Gweler A1 uchod – mae ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn cael ei gydlynu gan y Rheolwr Archwilio. Mae'r holl adroddiadau yn cael eu rhedeg ar y cyd â TG a chaiff y canlyniadau eu hanfon i'r gwasanaethau priodol i'w prosesu. Mae'n ofynnol i'r holl bariadau a argymhellir gael eu cwblhau erbyn diwedd Mai; bydd pob pâr yn cael ei gwblhau'n derfynol erbyn diwedd Medi. Mae cau adroddiad yn cael ei wirio gan y Rheolwr Archwilio.
Dylai'r holl gyfranogwyr fod yn ymwybodol o risgiau o dwyll sy'n dod i'r amlwg, e.e. oherwydd COVID-19, a chymryd camau priodol i'w hatal a'u canfod.	• Mae pob Rheolwr yn cynhyrchu cynlluniau busnes sy'n cynnwys ei risgiau busnes – gall twyll gael ei gynnwys fel risg os yw'n briodol, gyda chamau lliniaru yn cael eu nodi. • Caiff yr holl risgiau o fewn cynlluniau busnes / gwasanaeth eu hasesu ar gyfer effaith a thebygolrwydd yn unol â Fframwaith Rheoli Risg y Cyngor. Caiff unrhyw risgiau sydd â sgôr ddilynol yn y categorïau risg uchel neu gritigol eu huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'i adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. • Mae twyll yn bennawd â blaenoriaeth yng nghynllun gwaith archwilio blynyddol Archwilio Mewnol. Ategir hyn gan hysbysiadau oddi wrth gyrff allanol megis NAFN a CIPFA, yn ogystal ag Awdurdodau Lleol eraill trwy Grwpiau Prif Archwilydd Cymru a thrwy ymgymryd ag asesiadau risg mewnol.

Teitl yr Adroddiad: Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol
Dyddiad Cyhoeddi: Hydref 2020
Pwyllgor Archwilio: 12 Tachwedd 2020
Cyfeirnod y Ddogfen: https://audit.wales/sites/default/files/2020-11/Commercialisation-english.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad
Gan gofio'r heriau o gyflawni cynlluniau masnacheiddio a'r angen i sicrhau'r budd gorau a lleihau risg, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru rydym wedi archwilio dulliau cynghorau o safbwynt mentrau masnachol. Yn gyffredinol, rydym wedi dod i'r casgliad bod angen y diwylliant, sgiliau a systemau cywir ar gynghorau er mwyn datgloi buddion masnacheiddio a lliniaru'r risgiau cysylltiedig.

Argymhellion

Cyf	**Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad**	**Ymateb y Cyngor**
A1	Mae ymgymryd â gweithgareddau masnacheiddio yn gofyn i gynghorau feddu ar allu digonol a'r sgiliau cywir, ac i fod â systemau cadarn ond ystwyth ar waith. Argymhellwn fod cynghorau'n defnyddio'n hofferynnau hunanwerthuso i ddatblygu strategaeth sy'n gweddu i'r graddau y maent am ddilyn y syniad o fasnacheiddio.	Bydd y Cyngor yn aros i weld goblygiadau'r GPOC. Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried defnyddio'r offeryn hunanwerthuso wrth ddatblygu strategaeth ar gyfer graddfa mynd ar drywydd masnacheiddio.

Teitl yr Adroddiad: System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru
Dyddiad Cyhoeddi: Hydref 2020
Pwyllgor Archwilio: 12 Tachwedd 2020
Cyfeirnod y Ddogfen: https://audit.wales/sites/default/files/WCCIS-Eng_10.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad	
Bwriad System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yw galluogi staff iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol gan ddefnyddio un system a chofnod electronig a rennir. Mae'r trefniadau ar gyfer adrodd ar fanteision cyflwyno WCCIS wedi bod yn destun trafod ac adolygu o'r cychwyn cyntaf. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu fframwaith adrodd addas.	

Argymhellion

Cyf	**Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad**	**Ymateb y Cyngor**
A1	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, cyn ymrwymo unrhyw gyllid canolog pellach, yn gweithio gyda Thîm Rhaglen Genedlaethol WCCIS, byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r cyflenwr i: • lunio achos busnes wedi'i ddiweddaru sy'n ystyried costau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac sy'n nodi disgwyliadau ar gyfer cyflwyno'r system ymhellach, ei defnyddio dros weddill tymor y contract, datblygu safonau data cenedlaethol a chynllunio ar gyfer unrhyw drefniadau olynol; • sicrhau bod gan y sefydliadau dan sylw'r gallu angenrheidiol i gefnogi gweithredu a'u bod yn rhoi digon o flaenoriaeth i'r rhaglen o fewn cynllun y cytunwyd arno'n glir; a • dwyn ynghyd ddarlun cenedlaethol clir ar adborth gan ddefnyddwyr rheng flaen am berfformiad ac ymarferoldeb cyffredinol y system.	Cynllun datblygu clir rhwng yr Awdurdod Lleol ac Iechyd ar ddatblygiad y system yn y dyfodol. Yn rhanbarthol rydym yn rhannu data â'n Bwrdd Iechyd trwy'r system ac wedi gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r system. Nid yw Awdurdodau Lleol eraill yn y rhanbarth wedi llofnodi'r gorchymyn eto, felly dim ond ymgysylltiad cyfyngedig sydd gennym ar hyn o bryd. Yn rhanbarthol, rydym yn datblygu cynlluniau lleol ar ddatblygu'r safonau data cenedlaethol a rhyng-weithrededd yr holl systemau o fewn y rhanbarth.
A2	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Thîm y Rhaglen Genedlaethol i ystyried: • sut y gellid bod wedi cryfhau contract WCCIS i gefnogi a chymell y broses o gyflawni a rheoli risg; a • sut y gellir cymhwyso gwersi perthnasol i unrhyw drefniadau contractio olynol a chaffael cyhoeddus ehangach.	Adnodd canolog o ddylunio a datblygu busnes - cynllunio unwaith ar gyfer pob defnyddiwr, setiau data cyffredin, llifau gwaith cyffredin. Rhaid i bob randdeiliad fod wedi ymrwymo i'r cynnyrch a rhoi llinell amser glir ar gyfer gweithredu. Gellir cyflawni hyn dim ond os yw pob un yn rhan o'r fanyleb a'r broses gaffael.

Teitl yr Adroddiad: Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith
Dyddiad Cyhoeddi: 21 Tachwedd 2019
Pwyllgor Archwilio: 05 Chwefror 2020
Cyfeirnod y Ddogfen: https://www.audit.wales/sites/default/files/VAWDASV_eng_11.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad
Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rydym wedi archwilio sut y mae dyletswyddau a chyfrifoldebau newydd y Ddeddf yn cael eu cyflwyno a'i cyflawni. Yn gyffredinol rydym wedi dod i'r casgliad bod dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol yn aml yn cael eu gadael i lawr gan system anghyson, gymhleth a thameidiog.

Argymhellion

Cyf	**Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad**	**Ymateb y Cyngor**
A1	Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn amlygu, er bod gan gyrff cyhoeddus ddealltwriaeth gynyddol am wasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r galw amdanynt, bod bylchau sylweddol yn dal i fodoli a bod ymgysylltiad â goroeswyr a dioddefwyr i adolygu a datblygu gwasanaethau yn anghyson. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell bod gwaith i asesu anghenion a mapio'r ddarpariaeth gwasanaethau gan gyrff cyhoeddus yn cael sylw o'r newydd a bod y modd y caiff pobl eu cynnwys yn cael ei ehangu a'i wella i gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol er mwyn creu darlun mwy cywir o'r ddarpariaeth gyfredol o ran gwasanaethau ac adnabod bylchau.	Cyhoeddodd Bwrdd Partneriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru ei strategaeth, Strategaeth Bywydau Diogelach, Perthnasoedd Iachach Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn unol â deddfwriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn Nhachwedd 2018. Mae'r Strategaeth yn amlinellu gwybodaeth allweddol ar amlder a graddfa trais domestig yn y rhanbarth a sut y bydd sefydliadau'r Bartneriaeth yn helpu unrhyw un sy'n profi neu sydd wedi profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, dwyn y rhai sy'n ei gyflawni i gyfrif, sicrhau bod yr offer a'r wybodaeth gan weithwyr proffesiynol i weithredu, cynyddu ymwybyddiaeth o'r pwnc a sut i gael cymorth, a helpu plant a phobl ifanc i ddeall anghydraddoldeb mewn perthnasoedd a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn annerbyniol. Datblygwyd y Strategaeth yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori ar raddfa fawr â goroeswyr, darparwyr gwasanaeth arbenigol, darparwyr gwasanaeth generig, comisiynwyr, rhanddeiliaid ac aelodau o Grŵp Strategol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Cynhaliwyd naw grŵp ffocws ar draws y rhanbarth gyda 56 o oroeswyr sydd wedi derbyn gwasanaethau. Cafodd y strategaeth ei chyflwyno i'r goroeswyr i geisio eu barn a'u sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad, gan roi cyfle iddynt ystyried sut roedd eu cyfraniad nhw wedi llunio a llywio'r ddogfen ddrafft. Cynhaliwyd cyfanswm o 8 grŵp ffocws ar draws y rhanbarth yn ogystal â chyfweliadau un i un, gyda chyfanswm o 56 o oroeswyr yn ymgysylltu yn y gweithgarwch ymgynghori. Roedd yr amrywiaeth o weithgarwch ymgysylltu yn gyfle i randdeiliaid, comisiynwyr, darparwyr a goroeswyr gyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu'r strategaeth, nodi beth sy'n gweithio, tynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth gyfredol a'r cyfleoedd ar gyfer gwella. Cafodd cyfranogwyr gyfle hefyd i fynegi eu gweledigaeth ar gyfer y strategaeth a nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Aeth cyfranogwyr ati'n frwdfrydig i ddarparu sylwadau am y tirlun presennol a thirlun y dyfodol ac roedd yr wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses hon wedi darparu sbectrwm eang o farnau a gafodd ei adlewyrchu o fewn y blaenoriaethau strategol a nodwyd ac a gymeradwywyd. Gweler y Strategaeth gyhoeddedig: https://www.cysur.wales/regional-policies-procedures/ Mae Cynllun Cyflenwi Blynyddol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael ei adolygu a'i ddatblygu i adlewyrchu'r newid yn yr anghenion a'r blaenoriaethau ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'n amlinellu'r camau gweithredu ac amcanion rhanbarthol a lleol i gyflawni'r blaenoriaethau strategol cytunedig. Mae'r Cynllun Cyflenwi Blynyddol ar gyfer 2200/21 yn amlinellu'r gwaith sydd i'w gyflawni i ddatblygu Fframwaith Cyfathrebu ac Ymgysylltu Rhanbarthol. Trwy Weithgor Rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol mae cyfres o ymgynghoriadau wedi cynnwys gwaith gydag ymgynghorwyr annibynnol i fapio arferion gorau rhanbarthol a chenedlaethol sy'n bodoli mewn perthynas â'r maes hwn, a'r adnoddau rhanbarthol sydd ar gael i gefnogi'r swyddogaeth hon. Y bwriad yw datblygu fframwaith cyson a chynhwysol ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â chymunedau ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru a defnyddio hyn i lunio a llywio ein gwaith i wella ymatebion ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Yng Ngheredigion galwyd ar oroeswyr ac mae'r ymgynghorwyr yn cyfweld ac yn ceisio eu barn ar y ffordd orau o sicrhau bod hyn yn bwydo i mewn i asesu anghenion a mapio'r gwasanaeth a ddarperir gan gyrff cyhoeddus. Disgwylir i'r gwaith hwn adrodd yn ôl i dîm rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar ôl Pasg 2021. Bydd y gwaith hwn yn helpu i nodi bylchau pellach yn y gwasanaeth a ddarperir a llywio datblygiad ein Fframwaith Rhanbarthol sydd wedi'i gynnwys o fewn y Cynllun Cyflenwi Blynyddol ar gyfer 2021/22. Mae'r gwaith a gwblhawyd o fewn yr Is-grŵp Comisiynu hefyd wedi cefnogi hyn trwy gwblhau asesiad mwy diweddar o angen a darpariaeth gwasanaeth ar draws y rhanbarth. Mae hyn wedi arwain at ein Dogfen Fframwaith Comisiynu Rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru a gyhoeddwyd ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Rhanbarthol. Mae'r gwaith hwn wedi tynnu sylw at fylchau yn y gwasanaeth a ddarperir a'r dewisiadau ar gyfer datblygu gwasanaeth arloesol ac ataliol. Mae hyn wedi'i gynnwys yn natblygiad ein Manyleb Gwasanaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd yn ei drafft cyntaf ar hyn o bryd, a bydd gwaith yn dechrau ar ei weithredu yn 2021-22.
A2	Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn disgrifio sut y mae dioddefwyr a goroeswyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn aml yn ei chael yn anodd ymgodymu â system dameidiog o ran y gwasanaethau a ddarperir. I gynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr i gael mynediad at wasanaethau a'u defnyddio rydym yn argymell bod **cyrff cyhoeddus**: • yn cynhyrchu gwybodaeth gynhwysfawr a pherthnasol mewn amrywiaeth o gyfryngau am yr ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr; ac • yn creu llwybr ar y cyd i gael mynediad at wasanaethau a chymorth ar gyfer dioddefwyr a gweithwyr proffesiynol ac yn hysbysebu trefniadau mynediad yn eang.	Mae Is-grŵp Cyfathrebu Grŵp Cyflenwi Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn casglu gwybodaeth am strategaethau cyfathrebu asiantaethau partner, ac mae gwaith yn parhau i gynhyrchu strategaeth gyfathrebu ranbarthol a fydd yn sicrhau negeseuon rhanbarthol cyson ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Chydraddoldeb. Bydd y Strategaeth Gyfathrebu Ranbarthol yn cael ei llywio a'i hategu gan dystiolaeth ac adnoddau. Mae'r camau gweithredu perthnasol yn y Cynllun Cyflenwi fel a ganlyn: Sefydlu Is-grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (i gefnogi'r gwaith o dan Ymgysylltu â Goroeswyr). Adolygu cynlluniau cyfathrebu presennol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn y rhanbarth Mapio'r adnoddau / tystiolaeth sydd ar gael i lywio dull gweithredu'r Strategaeth Gyfathrebu Ranbarthol. Datblygu calendr o ddyddiadau allweddol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gan gynnwys cefnogi a hyrwyddo Ymgyrch Cyfathrebu Llywodraeth Cymru a'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn. Llunio a rhedeg ymgyrch codi ymwybyddiaeth rhanbarthol ar gyfer Ymddygiad Rheolaeth drwy Orfodaeth ac Ymddygiad dan Reolaeth. Ystyried sut y bydd yr hyn a ddysgir o Adolygu Lladdiadau Trais Domestig yn cael ei gynnwys o fewn y Strategaeth Gyfathrebu Ranbarthol. Mae'r dulliau cyfathrebu cyfredol a ddefnyddir gan yr asiantaethau partner yn amrywiol ac yn eang ac mae'r adnoddau a gynhyrchir ac a hyrwyddir i'w gweld ar wefan CYSUR. https://www.cysur.wales/vawdasv/ Cyhoeddwyd Llwybr Rhanbarthol at Gymorth yn Ebrill 2020 a chafodd ei lunio mewn partneriaeth â Darparwyr Arbenigol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar draws y rhanbarth i helpu i sicrhau cysondeb a pharhad y gwasanaeth sydd ar gael a hygyrchedd i ddinasyddion rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru. Gellir ei weld trwy'r cyswllt canlynol: https://www.cysur.wales/media/42mh3kxm/mid-and-west-wales-vawdasv-regional-pathway-to-support.pdf ** mae hyn wedi'i ategu hefyd gan y gwaith gydag ymgynghorwyr annibynnol ar ddatblygu ein Fframwaith Cyfathrebu ac Ymgysylltu Rhanbarthol – fel yr amlinellir uchod.

A3	Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi, er ei bod yn bwysig eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ar ddiogelu data, bod angen i sefydliadau rannu data gyda phartneriaid hefyd i ddiwallu anghenion dioddefwyr a goroeswyr yn well. Rydym yn argymell bod **awdurdodau**: • yn sicrhau bod staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad â dioddefwyr a goroeswyr yn cael hyfforddiant priodol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; • yn darparu hyfforddiant diweddaru ar gyfer rheolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant ac na allant rannu data, a pha ddata y gallan ac na allan ei rannu; ac • yn adolygu ac yn diweddaru protocolau rhannu data i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data.	Mae awdurdod lleol Ceredigion wedi sicrhau bod staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad â dioddefwyr a goroeswyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael hyfforddiant priodol yn unol â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, ac mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau at bwysigrwydd rhannu data. Cydnabyddwn y rôl hanfodol y mae'r awdurdod lleol yn ei chwarae o ran adnabod yn gynnar y rhai sy'n dioddef Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ac mae ein rhaglenni treigl o hyfforddiant Gofyn a Gweithredu (a ddechreuodd ym Medi 2019) yn unol â chynllun cyflenwi Canolbarth a Gorllewin Cymru) yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n delio â'r cyhoedd yn cael cyfleoedd rheolaidd i fynychu. Yn dilyn saib byr yn yr hyfforddiant oherwydd materion cysylltiedig â Covid-19 ar ddechrau 2020, Ceredigion oedd yr awdurdod lleol cyntaf o fewn Canolbarth a Gorllewin Cymru i ailgychwyn darparu hyfforddiant Gofyn a Gweithredu ar-lein. Mae'r tîm Dysgu a Datblygu yn parhau i gydweithio'n agos â chydweithwyr yn y Tîm Diogelu, Cynghorydd Rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru a gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol lleol i sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperir yn addas i'r diben ac yn cryfhau ein dull cydgysylltiedig at ymholiadau wedi'u targedu, atgyfeiriadau ac ystyried y teulu cyfan ac anghenion cymhleth. Mae hyfforddiant Gofyn a Gweithredu yn cael ei ddarparu ar y cyd gan swyddog hyfforddi o'r awdurdod lleol a hyfforddwr allanol o elusen cam-drin domestig leol. Mae cyrsiau cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar gael ac mae pob cyfranogwr yn derbyn gwybodaeth ategol i fynd adref gyda nhw, e.e. sut i ymateb yn sensitif i ddatgeliadau a gwybodaeth gyswllt ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig yn lleol ac yn genedlaethol. Ar ôl cwblhau cyrsiau Gofyn a Gweithredu, mae cyfranogwyr yn cael mynediad at adnodd ar-lein trwy dudalen fewnol Microsoft Teams lle y gallent weld neu lawrlwytho gwybodaeth ategol unrhyw bryd. Yn ogystal â Gofyn a Gweithredu, mae nifer o gyfleoedd hyfforddi arbenigol wedi bod ar gael i staff megis hyfforddiant ymwybyddiaeth stelcio, cam-drin ar sail anrhydedd a'r rhaglen hyfforddi 'Parch' wedi'i drefnu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar y rheng-flaen sy'n gweithio gyda theuluoedd sy'n profi Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gydnabod ac ymateb i'r rhai sy'n cam-drin. Gofyn a Gweithredu – hyfforddiant diweddaru Dechreuodd hyfforddiant Gofyn a Gweithredu ym Medi 2019 ac rydym yn cyrraedd y cyfnod diweddaru 2 flynedd a argymhellir. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd adnoddau awdurdodau perthnasol yn herio argaeledd staff i dderbyn hyfforddiant diweddaru ffurfiol "Gofyn a Gweithredu" yn yr un ffordd â'r hyfforddiant cychwynnol. Gellir bodloni'r gofyniad i ddarparu hyfforddiant diweddaru trwy gynnig dysgu cyfunol ac ar-lein, a bydd deunyddiau ar gael maes o law i fodloni'r gofyniad hwn' (national-training-framework-on-violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence-statutory-guidance.pdf (gov.wales) td 36). Rydym yn aros am ddiweddariad ynghylch ffurf yr hyfforddiant diweddaru. Mae'r asiantaethau partner allweddol a gynrychiolir ar Fwrdd Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi llofnodi protocol rhannu gwybodaeth o dan nawdd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru a gyhoeddwyd ym Medi 2019 ac mae'n cael ei adolygu'n flynyddol. https://www.cysur.wales/media/g0ebu2il/safeguarding-isp-march-2019.pdfa
A4	Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi, er bod peth cynnydd da wedi cael ei wneud gyda gweithio'n rhanbarthol, nad oes ysgogwyr priodol yn eu lle bob amser i gefnogi'r broses o drawsnewid gwasanaethau yn unol â'r ddeddfwriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. I sicrhau bod manteisio'n rhanbarthol'n cael eu gwireddu, rydym yn argymell bod asiantaethau darparu (awdurdodau lleol, cyrff iechyd, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub a'r trydydd sector) yn adolygu eu dull o weithio'n rhanbarthol i integreiddio gwasanaethau'n well a chynyddu i'r eithaf yr effaith gadarnhaol y gallant eu cael er ddioddefwyr a goroeswyr.	O fewn Canolbarth a Gorllewin Cymru cafodd y strwythur llywodraethu ar gyfer strategaeth ranbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ei adolygu yn 2019 i helpu i weithredu ac adeiladu momentwm o fewn y Bartneriaeth Ranbarthol. Erbyn hyn mae dau grŵp wedi'u neilltuo ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, sef Grŵp Strategol a Grŵp Cyflenwi. Mae'r Grŵp Strategol yn cytuno ar drefniadau lefel uchel sy'n cael eu rhoi ar waith ar lefel Grŵp Cyflenwi. Mae'r ddau grŵp yn cynnwys aelodaeth o Gyngor Sir Ceredigion a dri Awdurdod Lleol arall, y ddau Fwrdd Iechyd a Heddlu Dyfed Powys, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd ynghyd â nifer o asiantaethau allweddol eraill, gan gynnwys sefydliadau arbenigol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Ceir sawl is-grŵp amlasiantaeth hefyd yn unol â'r amcanion o fewn y cynllun cyflenwi rhanbarthol. Mae grwpiau Strategol a Chyflenwi Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael eu goruchwylio gan Swyddogion Gweithredol y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Mae Cynghorydd Rhanbarthol wedi bod yn ei swydd ers 2019. Mae'r penodiad hwn ynghyd â'r trefniadau strwythurol uchod yn darparu digon o allu i gefnogi trawsnewid y gwasanaeth a dulliau rhanbarthol amlasiantaeth integredig yn unol â deddfwriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r Cynghorydd Rhanbarthol yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd rhanbarthol yn erbyn strategaeth a chynlluniau cyflenwi Canolbarth a Gorllewin Cymru i Lywodraeth Cymru, gan gyflawni'n effeithiol gyfrifoldebau awdurdodau perthnasol o dan y Ddeddf. Mae'r Cynghorydd yn rhoi adroddiadau rheolaidd i'r holl grwpiau gweithredol rhanbarthol a lleol ynghyd â'r grwpiau cyflenwi a strategol. Gellir gweld copiau o'r adroddiadau i Lywodraeth Cymru yn erbyn y Cynllun Cyflenwi Blynyddol ar gyfer 2019/20 ar y wefan Cysur.org.
A5	Mae Rhan 3 o'r adroddiad yn amlygu nad yw'r mecanweithiau cyllido cymhleth a byrdymor, diffyg data ac ymgynghori annigonol â rhanddeiliaid, o gymorth i gomisiynu gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol mewn modd cynaliadwy. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn adolygu eu trefniadau comisiynu i: • gael gwared ar ddyblygu a gorgyffwrdd rhwng gwahanol ddulliau yn yr awdurdod a chyda phartneriaid; • rhesymoli trefniadau gweinyddu i wella effeithlonrwydd a gwerth am arian; • symleiddio a safoni trefniadau comisiynu i leihau baich gweinyddu ar yr holl bartion; a • phennu mesurau perfformiad, targedau a meincnodau priodol i farnu effaith a deilliannau gwasanaethau a gomisiynir.	Mae Is-grŵp Partneriaeth a Chomisiynu Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gomisiynu symlach a chyson yn rhanbarthol mewn ymateb i Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gyda monitro cyson, llawn gwybodaeth. Mae Is-grŵp Comisiynu sefydledig gennym wedi'i gadeirio gan Chris Harrison, gyda chylch gorchwyl a chynllun gweithredu cytunedig. Mae'r ddogfen gomisiynu ranbarthol wedi cael ei chyhoeddi ar wefan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, yn dilyn asesiad cynhwysfawr o'r angen a'r ddarpariaeth gwasanaeth cyfredol, gan dynnu sylw at fylchau yn y gwasanaeth a chyfleoedd ar gyfer arloesi a datblygu. Yn 2020-21, ffocws yr Is-grŵp Comisiynu oedd datblygu Manyleb Gwasanaeth Ranbarthol ar gyfer cyflenwi gwasanaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r Fanyleb Gwasanaeth yn cynnwys fframwaith Canlyniadau Rhanbarthol a gafodd ei seilio ar ganlyniadau rhanbarthol ac ymarfer mapio data. Ceir drafft cyntaf ohono erbyn hyn a'r ffocws ar gyfer 2021-22 fydd nodi cyfleoedd comisiynu ar y cyd a'u rhoi ar waith ar draws y rhanbarth. Y ffocws ar gyfer 2021-22 fydd rhoi'r Fanyleb Gwasanaeth ar waith ar draws y Rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys cyfeiriad at y dadansoddiad bwlch o fewn y ddogfen gomisiynu ranbarthol a neilltuo adnoddau.

Crynodeb o Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru a'r Cynigion ar gyfer Gwella

Awdurdod Rheoleiddio: Archwilio Cymru

Teitl yr Adroddiad: 'Gwella ein Perfformiad' Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru

Dyddiad Cyhoeddi: 30 Gorffennaf 2020

Pwyllgor Archwilio:

Cyfeirnod y Ddogfen: https://www.audit.wales/sites/default/files/2020-11/raising_our_game_tackling_fraud_in_wales_english.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad
Mae'r adroddiad hwn yn archwilio saith 'thema allweddol' y mae angen i bob corff cyhoeddus ganolbwyntio arnynt wrth wella eu perfformiad o safbwynt mynd i'r afael â thwyll yn fwy effeithiol: • arweinyddiaeth a diwylliant; • fframweithiau rheoli risg a sicrhau rheolaeth; • polisïau a hyfforddiant; • capasiti ac arbenigedd; • offer a data; • cydweithio; ac • adrodd a chraffu.

Argymhellion

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A1	Dylai Llywodraeth Cymru wella ei harweinyddiaeth strategol ym maes atal twyll ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, a chyflawni rôl gydlynu os yw hynny'n bosibl iddi, gan gydnabod bod cyrff unigol yn parhau'n gyfrifol am eu gweithgareddau eu hunain ym maes atal twyll.	Byddai'r Cyngor yn croesawu rhoi rôl gydlynu i Lywodraeth Cymru yn y maes hwn, a fyddai'n cynorthwyo ac yn cefnogi cydweithio a chysondeb mewn arferion gweithio o fewn Llywodraeth Leol.
A2	Dylai pob corff cyhoeddus hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant da o ran atal twyll, a hyrwyddo ei bwysigrwydd yn weithredol er mwyn rhoi hyder i staff ac aelodau'r cyhoedd na chaiff twyll ei oddef.	• Mae 'Strategaeth ar Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' yn strategaeth gynhwysfawr y Cyngor a fydd yn destun adolygiad 3 blynyddol yn Ebrill 2021. • Gall y cyhoedd adrodd am unrhyw achosion posibl o dwyll Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a/neu dwyll Budd-dal Tai / budd-daliadau'r Adran Gwaith a

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		Phensiynau ar-lein trwy ddilyn y cyfarwyddiadau ar wefan y Cyngor. • Fel rhan o drefniadau diogelu'r Cyngor, mae tudalen ar y wefan hefyd gyda manylion ynghylch sut y dylid adrodd am amheuon o gam-drin ariannol yn erbyn oedolyn agored i niwed (gan gynnwys twyll/lladrad). • Mae'r Cyngor yn cynnal ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn rheolaidd er mwyn atal a chanfod twyll trwy baru data. Rhoddir hysbysiadau yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymarfer hwn i staff a'r cyhoedd ar y wefan y Cyngor ac ar Ceri. • Mae Archwilio Mewnol yn defnyddio meddalwedd 'Activedata' i weithredu technegau gwyddor dadansoddi data o fewn systemau lle y bo'n briodol, e.e. wrth brosesu grantiau Covid. • Bydd Zurich, yswiriwr y Cyngor, yn darparu modiwl hyfforddi ar Foeseg a Thwyll i Weithdy Corfforaethol y Cyngor ar 28 Mai 2021.
A3	Dylai pob corff cyhoeddus gynnal asesiadau cynhwysfawr o'r risgiau o dwyll, gan ddefnyddio staff sydd â'r sgiliau priodol ac ystyried gwybodaeth genedlaethol yn ogystal â gwybodaeth sy'n benodol i sefydliad.	• Mae pob Rheolwr yn cynhyrchu cynlluniau busnes sy'n cynnwys ei risgiau busnes – gall twyll gael ei fewnbynnu fel risg os ystyrir bod hynny'n briodol, gan nodi'r camau lliniaru. • Mae twyll yn bennawd â blaenoriaeth yng nghynllun gwaith archwilio blynyddol Archwilio Mewnol. Cefnogir hyn gan hysbysiadau oddi wrth gyrff allanol megis NAFN a CIPFA, yn ogystal ag Awdurdodau Lleol eraill trwy Grwpiau Prif Archwilydd Cymru a thrwy gynnal asesiadau risg mewnol.
A4	Dylai asesiadau o'r risgiau o dwyll gael eu defnyddio fel adnodd byw a'u hintegreiddio yn y fframwaith cyffredinol ar gyfer rheoli risg, er mwyn sicrhau bod y risgiau dan sylw'n cael eu rheoli'n briodol a'u huwchgyfeirio fel y bo raid.	Asesir pob risg o fewn cynlluniau busnes / gwasanaeth ar sail effaith a thebygolrwydd yn unol â Fframwaith Rheoli

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		Risg y Cyngor. Caiff unrhyw risgiau sy'n cael sgôr ddilynol yn y categori risg uchel neu gritigol eu huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol sy'n cael ei monitro gan y Grŵp Arweiniol, a'u hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
A5	Mae angen i bob corff cyhoeddus gael cyfres gynhwysfawr wedi'i diweddaru o bolisïau a gweithdrefnau, sydd gyda'i gilydd yn strategaeth gydlynus ar gyfer adnabod a rheoli risgiau o dwyll ac ymateb iddynt.	• Mae'r 'Strategaeth ar Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' yn cwmpasu atal, canfod ac ymchwilio i dwyll. • Mae'r Fframwaith Rheoli Risg yn darparu proses gynhwysfawr ar gyfer adnabod a lliniaru'r holl risgiau. • Mae'r 'Polisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed' yn cynnwys proses atgyfeirio gyda ffurflenni ategol os yw cam-drin ariannol yn cael ei amau. • Mae Polisi Chwythu'r Chwiban gan y Cyngor os hoffai staff adrodd am bryder a gellir gwneud hynny yn ddienw. • Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau uchod yn cael eu hategu gan becynnau hyfforddi amrywiol i'r staff.
A6	Dylai staff sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru gael hyfforddiant ynghylch ymwybyddiaeth o dwyll fel y bo'n briodol i'w rôl, er mwyn gwella effeithiolrwydd sefydliadau o safbwynt atal twyll, ei ganfod ac ymateb iddo.	• Mae Swyddogion Gorfodi megis staff Safonau Masnach yn gymwysedig i gynnal cyfweliadau PACE. • Mae gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn trefnu hyfforddiant mewnol i staff sy'n 'swyddogion ymchwilio' dynodedig ar gyfer materion disgyblu. • Mae swyddog diogelu dynodedig hyfforddedig ar gyfer pob gwasanaeth ac mae honiadau o gam-drin yn erbyn pobl agored i niwed yn cael eu hadrodd i'r swyddogion hyn. • Mae gan ddau aelod o staff archwilio mewnol Dystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwilio (CCIP) ac

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		mae un arall yn Dechnegydd Atal Twyll Achrededig (ACFTech). • Bydd Zurich yn darparu modiwl hyfforddi ar Foeseg a Thwyll i Weithdy Corfforaethol y Cyngor (pob rheolwr) ar 28 Mai 2021.
A7	Dylid rhoi cyhoeddusrwydd i achosion lle caiff twyll ei ganfod a lle eir i'r afael ag ef yn llwyddiannus, er mwyn atgyfnerthu neges gadarn o'r brig na chaiff twyll ei oddef.	• Mae unrhyw waith gorfodi sy'n arwain at achosion llys llwyddiannus yn cael sylw yn y wasg leol. • Mae'r gwaith atal twyll Archwilio Mewnol a wneir yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn flynyddol. • Gall unrhyw aelod o staff sy'n gyfrifol am risg ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, neu am gam gweithredu mewn adroddiad archwilio gael ei alw gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i roi sicrwydd bod y systemau / camau gweithredu priodol yn eu lle.
A8	Mae angen i bob corff cyhoeddus greu digon o gapasiti i sicrhau bod gwaith atal twyll yn cael adnoddau effeithiol, fel bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal yn broffesiynol ac mewn modd sy'n arwain at gosbi'r tramgwyddwyr yn llwyddiannus ac at adennill colledion.	Nid oes gan y Cyngor dîm twyll dynodedig, ond mae ymchwiliadau'n cael eu cynnal gan swyddogion yr ystyrir eu bod yn briodol i bob achos yn ôl eu profiad / cymwysterau (gweler pwynt A6 uchod).
A9	Dylai pob corff cyhoeddus fod yn medru cael gafael ar staff sydd wedi cael hyfforddiant ynghylch atal twyll ac sy'n bodloni safonau proffesiynol cydnabyddedig.	Gweler pwynt A8 uchod.
A10	Dylai pob corff cyhoeddus ystyried modelau a fabwysiadwyd mewn rhannau eraill o'r DU, sy'n ymwneud â chyfuno / rhannu adnoddau er mwyn sicrhau bod cynifer ag sy'n bosibl o staff ar gael sydd â'r sgiliau priodol.	Mae Grŵp Prif Archwilydd Gogledd a Chanolbarth Cymru wrthi'n atgyfodi'r Gweithgor Twyll Arbenigol a fydd yn cynorthwyo trwy roi cymorth a chysondeb ar gyfer arferion twyll Archwilio Mewnol yn yr aelod-awdurdodau.
A11	Mae angen i bob corff cyhoeddus ddatblygu a chynnal ymatebion deinamig a hyblyg ym maes atal twyll, sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd camau gorfodi llwyddiannus yn cael eu cymryd ac sy'n ategu'r agwedd o'r brig nad yw'r sefydliad yn goddef twyll.	Gweler pwynt A8 uchod.

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A12	Dylai pob corff cyhoeddus archwilio a chroesawu cyfleoedd i arloesi gyda gwyddor dadansoddi data, er mwyn cryfhau trefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll.	Mae Archwilio Mewnol yn defnyddio meddalwedd 'Activedata' i weithredu technegau gwyddor dadansoddi data o fewn systemau lle y bo'n briodol, e.e. wrth brosesu grantiau Covid.
A13	Dylai cyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd, dan Ddeddf yr Economi Ddigidol a chan ddefnyddio datblygiadau ym maes gwyddor dadansoddi data, i rannu data a gwybodaeth er mwyn helpu i ganfod twyll a brwydro yn ei erbyn.	Mae'r Cyngor yn cynnal ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn rheolaidd er mwyn atal a chanfod twyll trwy baru data rhwng ei wasanaethau ei hun a gyda chyrff sector cyhoeddus cenedlaethol eraill.
A14	Mae angen i gyrff cyhoeddus grynhoi gwybodaeth am golledion ac adenillion a rhannu gwybodaeth â'i gilydd am dwyll er mwyn creu darlun cenedlaethol mwy cywir, cryfhau rheolaeth, gwella gwaith monitro a hybu camau gweithredu a gaiff eu targedu.	Ym marn y Cyngor mae hon yn dasg sy'n briodol i Lywodraeth Cymru os yw'n derbyn y rôl gydlynu o ddarparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer atal twyll ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (gweler pwynt A1 uchod).
A15	Rhaid i Bwyllgorau Archwilio a Llywodraethu ddechrau ymwneud yn llawn ag atal twyll, gan ddarparu cymorth a chyfeiriad, monitro a dwyn swyddogion i gyfrif.	• Mae'r gwaith atal twyll Archwilio Mewnol a wneir yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn flynyddol. • Gall unrhyw aelod o staff sy'n gyfrifol am risg ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, neu am gam gweithredu mewn adroddiad archwilio gael ei alw gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i roi sicrwydd bod y systemau / camau gweithredu priodol yn eu lle

Crynodeb o Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru a'r Cynigion ar gyfer Gwella

Awdurdod Rheoleiddio: Archwilio Cymru

Teitl yr Adroddiad: Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Dyddiad Cyhoeddi: 07 Hydref 2019

Pwyllgor Archwilio: 05 Chwefror 2020

Cyfeirnod y Ddogfen: https://www.audit.wales/sites/default/files/review-of-public-service-boards-english_11.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad
Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rydym wedi archwilio sut y mae BGCau yn gweithredu; gan edrych ar eu haelodaeth, eu hamodau gorchwyl, amlder a ffocws cyfarfodydd, y modd y maent wedi'u halinio â phartneriaethau eraill, adnoddau a threfniadau craffu. Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn annhebygol o wireddu eu potensial oni bai y rhoddir rhyddid iddynt i weithredu'n fwy hyblyg ac i feddwl a gweithredu'n wahanol.

Argymhellion

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A1	Yn Rhan 1 o'r adroddiad rydym yn nodi bod deall effaith dewisiadau a phenderfyniadau yn golygu ei bod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid yn llawn a chwblhau Asesiadau Effaith. Fodd bynnag, canfuom fod ymarfer presennol yn annigonol i roi sicrwydd bod anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried yn llawn wrth adolygu dewisiadau ac nad yw llais dinasyddion yn dylanwadu'n ddigonol ar benderfyniadau. Rydym yn argymell bod BGCau: • yn cynnal asesiadau ffurfiol i ganfod yr effaith bosibl ar bobl â nodweddion gwarchodedig a'r Gymraeg ac yn adolygu camau gweithredu y cytunwyd arnynt i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw effeithiau andwyol; • yn gwella tryloywder ac atebolrwydd trwy wneud cyfarfodydd, agendâu, papurau a chofnodion BGCau yn hygyrch ac ar gael i'r cyhoedd; • yn cryfhau trefniadau cynnwys trwy weithio'n unol â'r canllawiau yn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru; ac • yn adrodd yn ôl ar ganlyniad gweithgarwch cynnwys gan nodi ble y gwneir newidiadau o ganlyniad i fewnbwn dinasyddion a rhanddeiliaid.	Teimlir bod arferion presennol yn ddigonol i roi sicrwydd bod anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried yn llawn wrth adolygu dewisiadau a bod llais dinasyddion yn dylanwadu ar benderfyniadau. Mae holl agendâu, papurau a chofnodion y BGC yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac mae cyfarfodydd yn gyhoeddus (yn ystod pandemig Covid gall aelodau'r cyhoedd ofyn i wrando ar gyfarfodydd rhithwir).
A2	Yn Rhan 2 o'r adroddiad rydym yn adolygu trefniadau craffu BGCau ac yn dod i'r casgliad bod diffygion a gwendidau mewn perfformiad ac arfer presennol. I	Er y teimlir bod trefniadau craffu yn gweithio'n dda, mae camau wedi cael eu cymryd i gryfhau'r broses.

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
	wella trefniadau craffu, rydym yn argymell: • bod BGCau a chyrff cyhoeddus yn defnyddio canfyddiadau'r Papur Trafod: Chwe thema i helpu i wneud craffu'n 'Addas ar gyfer y Dyfodol' gan Archwilydd Cyhoeddus Cymru i adolygu eu perfformiad presennol a nodi ble y mae angen iddynt gryfhau trefniadau a gweithgarwch trosolwg; a • bod BGCau yn sicrhau bod pwyllgorau craffu'n ymgysylltu'n ddigonol ag ystod ehangach o randdeiliaid perthnasol sy'n gallu helpu i ddwyn BGCau i gyfrif.	Ceir Pwyllgor Craffu dynodedig yng Nghyngor Sir Ceredigion sy'n derbyn adroddiadau yn dilyn pob cyfarfod o'r BGC. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Craffu hefyd yn cael ei wahodd i gyfarfodydd y BGC er mwyn rhoi adborth a thrafod y prif bwyntiau. Wrth symud ymlaen, caiff Cadeirydd pob un o Grwpiau Prosiect y BGC ei wahodd i gyflwyno adroddiad manwl ar ei waith mewn Pwyllgor Craffu yn y dyfodol.
A3	Yn Rhan 3 o'r adroddiad rydym yn crynhoi'r anhawster o ran datblygu BGCau, eu rhoi ar waith a darparu adnoddau ar eu cyfer a heriau rheoli partneriaethau lluosog sy'n aml yn gallu gorgyffwrdd â'i gilydd a dyblygu ei gilydd. I helpu i adeiladu capasiti, cysondeb a darparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch rydym yn argymell: • bod BGCau yn cymryd y cyfle i gyflawni rhwymedigaethau mewn cynlluniau a strategaethau eraill trwy'r Cynllun Llesiant Lleol; • bod Llywodraeth Cymru yn galluogi BGCau i ddatblygu modelau gweithio hyblyg gan gynnwys: – cyfuno, lleihau ac integreiddio eu gwaith gyda fforymau eraill megis Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol; a – rhoi hyblygrwydd i BGCau gael, rheoli a gwario arian grant ar yr amod bod BGCau yn sicrhau bod ganddynt drefniadau diogelu a systemau priodol ar waith i reoli cyllid; rheolaethau effeithiol ar gyllidebau a rhaglenni grantiau; a systemau adrodd wrth y cyhoedd, trosolwg a chraffu i reoli gwariant.	Mae cymryd y cyfle i gyflawni cynlluniau a phrosiectau eraill trwy'r Cynllun Llesiant Lleol yn cael ei ystyried yn ddiwyd ac yn barhaus. Enghraifft o hyn yw'r cysylltiadau a gafodd eu gwneud gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddefnyddio ychydig o arian trawsffurfio i wireddu blaenoriaethau'r BGC.
A4	Er mwyn helpu i feithrin capasiti, cysondeb a'r broses o ddarparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn eu hadolygiad o bartneriaethau strategol yn ystyried, ac yn archwilio, canfyddiadau'r adolygiad hwn.	Amh

Crynodeb o Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru a'r Cynigion ar gyfer Gwella

Awdurdod Rheoleiddio: Archwilio Cymru

Teitl yr Adroddiad: Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb

Dyddiad Cyhoeddi: 23 Gorffennaf 2020

Pwyllgor Archwilio:

Cyfeirnod y Ddogfen: https://www.audit.wales/sites/default/files/2020-11/Rough-sleeping-Eng_0.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad
Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rydym wedi archwilio sut y mae cyrff cyhoeddus yn ymateb i broblemau drwg ac yn mynd i'r afael â hwy gan ddefnyddio pobl yn cysgu allan fel deunydd olrhain. Ar y cyfan, rydym wedi dod i'r casgliad bod ymateb i COVID-19 yn gyfle i gyrff cyhoeddus ddechrau mynd i'r afael â gwendidau hirsefydlog mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth sydd wedi eu hatal rhag mynd i'r afael â phroblem cysgu allan yn y gorffennol.

Argymhellion

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A1	Dylai cyrff cyhoeddus a phartneriaid yn y trydydd sector sicrhau eu bod yn defnyddio data i gynllunio'r gwasanaethau cywir ar gyfer y dyfodol, ac i sefydlu protocolau rhannu data effeithiol i sicrhau eu bod yn ymateb yn effeithiol ac yn ddiogel i'r broblem o bobl yn cysgu allan. Rydym yn argymell bod cynghorau a'u partneriaid: • yn buddsoddi mewn sgiliau dadansoddi data i ddeall yn well beth yw'r sefyllfa gyfredol a rhagweld y galw yn y dyfodol i atal digartrefedd yn y dyfodol; • adolygu a diweddaru protocolau rhannu data i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data'n effeithiol; a • chyflwyno un broses casglu data ac asesu data i roi cymorth i ategu prosesau penderfynu diogel wrth ymdrin â phobl sy'n cysgu allan.	Mae'r ALl wedi mabwysiadu dull gweithredu Allgymorth Grymusol i ateb y gofyniad hwn a dod â'r cleientiaid hynny a nodwyd i mewn a thrwy Gwasanaethau Dewisiadau Tai. Mae hefyd yn ystyried modelau tai gwahanol i sicrhau nad yw cleientiaid yn dychwelyd i'r strydoedd ac yn symud ymlaen i dai addas. Mae Tai yn Gyntaf yn un fenter a gafodd ei datblygu ac sy'n cael ei gwella. Mae hyn yn cynnwys dull aml-asiantaeth i sicrhau canlyniadau cadarnhaol ac atal unrhyw argyfwng pellach. Mae'r ALl yn cydweithio'n agos â gwasanaethau cymorth sy'n darparu'r swyddogaethau rheoli a chymorth a'n llety dros dro ac felly mae llinellau cyfathrebu yn eu lle yn ogystal â rhannu protocolau.
A2	Gan fod cyrff cyhoeddus yn ymateb i bobl mewn argyfwng, maent yn aml yn ymdrin â materion acíwt ar wahân i'w gilydd ac anaml y maent yn mynd i'r afael ag achos sylfaenol yr argyfwng.	Fel rhan o ymateb yr ALl i Covid-19 a defnyddio cyllid Cam 2 Llywodraeth Cymru, bydd Ceredigion yn trawsffurfio ei bortffolio Llety Dros Dro i gwmpasu cyfleuster 'Brysbennu'

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
	Er mwyn gwneud hyn mae gofyn i gyrff cyhoeddus ddylunio a chreu modelau darparu gwasanaethau sy'n ymatebol. Rydym yn argymell bod cyrff cyhoeddus yn defnyddio ein hofferyn hunan-fyfyrio anghenion cymhleth i wella sut y gallant fynd i'r afael ag anghenion cymhleth ar y cyd yn y dyfodol.	yn y pwynt mynediad. Bydd hyn yn sicrhau bod asesiadau o anghenion yn cael eu cynnal yn brydlon, gydag Ailgartrefu Cyflym yn flaenoriaeth. Bydd y Grant Cymorth Tai hefyd yn cynnig modd i'r fenter hon ddatblygu ymhellach gan weithredu'r rôl 'Ymyraethau Cyfnod Allweddol' mewn partneriaeth â phartneriaid o'r trydydd sector, gydag ymyrraeth amserol a gwaith atal yn sail i'r dull gweithredu hwn.

Crynodeb o Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru a'r Cynigion ar gyfer Gwella

Awdurdod Rheoleiddio: Archwilio Cymru

Teitl yr Adroddiad: Y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion

Dyddiad Cyhoeddi: 11 Medi 2019

Pwyllgor Archwilio: 05 Chwefror 2020

Cyfeirnod y Ddogfen: https://www.audit.wales/sites/default/files/Front-door-to-adult-social-care-english_11.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad
Bu pwyslais ein gwaith ar farnu effeithiolrwydd y 'drws blaen' newydd hwn i ofal cymdeithasol, gan edrych yn benodol ar wasanaethau i oedolion. Mae ein hadolygiad wedi ystyried pa mor gynhwysfawr yw'r gwasanaethau IAA, i ba raddau y mae cymorth ataliol a chymunedol ar gael, a'r systemau sicrwydd a roddir ar waith i sicrhau bod y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt, neu'r rhai sydd mewn perygl, yn cael eu nodi a'u cynorthwyo. Yn olaf, rydym yn ystyried effaith y drws blaen ar y galw am ofal cymdeithasol (gwariant, asesiadau a gwasanaethau) ond hefyd o ran gwella llesiant. Daw'r awdurdod i'r casgliad fod Cynghorau yn ateb y galw am ofal cymdeithasol, ond nid yw gwybodaeth, cyngor a chymorth yn effeithiol yn gyson.

Argymhellion

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A1	Mae Rhan 1 yr adroddiad yn nodi sut y mae awdurdodau yn hyrwyddo mynediad i'r 'drws blaen' ac yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i helpu pobl i wella eu lles ac atal eu hanghenion rhag dirywio. Er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r drws blaen, rydym yn argymell y canlynol: • awdurdodau lleol: ○ adolygu eu dulliau presennol, ystyried eu cynulleidfa, a sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd da ar gael yn brydlon er mwyn atal anghenion rhag dirywio a phobl rhag cyflwyno eu hunain am gymorth mewn 'argyfwng'; ○ gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i helpu i sicrhau bod pobl sy'n cael gafael ar wasanaethau trwy atgyfeiriadau gan bartneriaid, neu ddulliau eraill, yn cael yr wybodaeth orau i'w helpu; ○ sicrhau bod gwasanaethau eirioli yn cael eu comisiynu a'u cynnig yn rhagweithiol i'r rhai y mae eu hangen arnynt ar y	Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweithredu rhaglen drawsffurfio ar draws amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys gofal cymdeithasol. Bydd gwasanaeth drws blaen y Cyngor, Clic, yn gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob ymholiad i'r awdurdod, gan gasglu set data ofynnol yn dibynnu ar y math o ymholiad. Bydd yn darparu gwybodaeth ar gyfer ymholwyr lle bo'n bosibl, gan gyfeirio pobl at wasanaethau data digidol megis DEWIS lle y bo'n briodol, ac os oes angen cymorth a chyngor pellach cyfeirio ymholiadau'n gywir at y Porth Cymorth Cynnar (gwasanaethau cymorth cynnar ac atal) a'r Porth Gofal (gwasanaethau integredig byrdymor wedi'u hasesu ac wedi'u targedu ar gyfer gofal cymdeithasol). Caiff pryderon diogelu eu huwchgyfeirio mewn modd

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
	pwynt cyswllt cyntaf; ac ○ ysgwyddo cyfrifoldeb yn lleol ac arwain y gwaith o gydlynu a golygu gwybodaeth leol a gyhoeddir ar Dewis Cymru yn lleol. • Llywodraeth Cymru ○ gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gofalwyr o'u hawliau i gael eu hasesu ar gyfer eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain gyda'r nod o greu galw am wasanaethau ataliol yr awdurdodau lleol; a ○ chynnal gwerthusiad llawn o swyddogaeth Dewis Cymru wrth roi'r Ddeddf ar waith yn ehangach a defnyddio'r data a geir i adeiladu ar ei botensial fel porth ar gyfer rhannu gwybodaeth yn genedlaethol.	amserol i'r adran gywir a chaiff atgyfeiriadau eu gwneud yn uniongyrchol i'r gwasanaethau Porth Cynnal (gwasanaethau arbenigol), e.e. Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Deddf Galluedd Meddyliol. Bydd gwasanaethau Porth Gofal yn gweithredu fel porthgeidwad ar gyfer pob ymholiad a ddaw trwy Clic a bydd yn brysbennu pob achos, gan gynnwys casglu gwybodaeth ychwanegol os oes angen. Bydd yn darparu gwybodaeth neu gyngor lle y bo angen, ac os yw'n briodol yn cau'r ymholiad. Ar gyfer y gweddill, darparu cymorth a allai arwain at asesiad cymesur, yna naill ai ei neilltuo i wasanaeth perthnasol neu ei gau os nad oes unrhyw weithredu pellach/os nad oes modd darparu unrhyw gyngor/cymorth pellach. Ceredigion yw'r safle peilot rhanbarthol ar gyfer cyflwyno prosiect eiriolaeth proffesiynol annibynnol sydd wedi cael ei werthuso ac sy'n cael ei gyflwyno ar draws y rhanbarth.
A2	Mae Rhan 2 yr adroddiad yn tynnu sylw at wendidau o ran sicrwydd yr awdurdodau ynghylch ansawdd y gwasanaethau trydydd sector, ataliol a chymunedol y maent yn atgyfeirio pobl iddynt, ac i ba raddau y maent ar gael. Rydym yn argymell y canlynol: • awdurdodau lleol: ○ mapio'r gwasanaethau ataliol sydd ar gael yn eu hardal er mwyn cael gwell dealltwriaeth o lefelau presennol y ddarpariaeth a nodi bylchau a dyblygiadau; ○ cynnwys partneriaid y trydydd sector wrth gyd-lunio atebion ataliol i ddiwallu anghenion pobl a sicrhau y gall pobl gael gafael ar y gwasanaethau hyn mewn modd teg; ○ gweithio gyda phartneriaid y trydydd sector er mwyn teilwra a chomisiynu gwasanaethau newydd lle nodir	Gweithgor Dewis Cymru wedi ei sefydlu i ddarparu'r cymorth ac annog gwasanaethau i lanlwytho a chynnal eu hadnoddau ar y platfform cenedlaethol. Cydweithredu rhwng ein tîm o Gysylltwyr Cymunedol a'n Cyngor Gwirfoddol Sirol i ddiweddaru'n gyson a chynnal cyfeirlyfr o wasanaethau lleol, yn enwedig grwpiau ymateb a sefydliadau newydd COVID-19. Mae Map Adnoddau Lleol (rhithwir) wedi cael ei greu mewn partneriaeth â CAVO sy'n cysylltu â Dewis ac Info-engine. Mapio mewnol o ddarparwyr gwasanaethau trydydd sector ar gael trwy grŵp ffocws wedi'i dargedu, gan gyfrannu at Raglen Drawsffurfio Gwasanaethau Gofal

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
	bylchau; a ○ gweithio gyda phartneriaid i wella data er mwyn gwerthuso effaith gwasanaethau ataliol ar unigolion, ac ar y boblogaeth yn fwy cyffredinol. • Llywodraeth Cymru: ○ gwella'r gwerthusiad o gost mewn cysylltiad ag effaith y Ddeddf mewn cyd-destun cenedlaethol, a chefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod yr effaith a ddymunir o ran atal gwariant cyffredinol ar ofal cymdeithasol yn dod yn wirionedd dangosol.	Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol. Roedd hyn wedi cynnwys ymarfer mapio mewnol o'r holl grwpiau, rhwydweithiau a fforymau y gwyddys amdanynt gan nodi pa wasanaethau/darpariaethau/cyfleoedd sydd ar waith a ble, a hefyd i nodi pa wasanaethau y mae angen eu datblygu o fewn y sir (i gefnogi datblygu ein rhaglen TAW) Mae nifer o gynlluniau grant yn cael eu rheoli / dosbarthu ar y cyd gan yr Awdurdod Lleol a'r Cyngor Gwirfoddol Sirol (CAVO). Mae Is-grŵp o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus; Deall ein Cymunedau yn cael ei gadeirio gan Brif Swyddog Gweithredol y Cyngor Gwirfoddol Sirol. Mae nifer o ymatebion ymgynghori wedi cael eu cwblhau ar y cyd â grwpiau trydydd sector i sicrhau bod safbwyntiau wedi'u cynrychioli, er enghraifft yr ymgynghoriad diweddar ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr a Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio. Mae cynlluniau gwaith yn cynnwys cyfraniad partneriaid trydydd sector trwy gontractau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth gan gynnwys y Grant Plant a Chymunedau, sef Teuluoedd yn Gyntaf, sy'n cynnwys nifer o ddarparwyr trydydd sector uniongyrchol. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydweithio'n agos iawn â phartneriaid o'r trydydd sector ac mae'r bartneriaeth hon wedi tyfu a datblygu dros y 12 mis diwethaf. Ar ddechrau'r pandemig y llynedd, roedd y Cyngor Gwirfoddol Sirol a CAVO wedi creu rhestr o'r holl adnoddau lleol (dosbarthu prydau bwyd, casglu siopa a meddyginiaethau, grwpiau cymorth COVID-19 newydd a sefydledig a sefydliadau cenedlaethol) yn

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		seiliedig ar ardaloedd daearyddol mewn ymateb i'r pandemig. Mae CSC a CAVO wedi gweithio ar y cyd i sicrhau ein bod yn ymateb yn effeithiol i'r anghenion sy'n dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod heriol hwn, trwy drefnu gwasanaeth dosbarthu bwyd, dosbarthu nwyddau fferyllol ac ati i drigolion Ceredigion. Enghraifft ddiweddar o waith gyda phartneriaid trydydd sector yw teilwra a chomisiynu gwasanaethau newydd, lle mae bylchau wedi'u nodi, gan gynnwys prosiect cysylltedd digidol diweddar sy'n cael ei redeg mewn partneriaeth rhwng Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, CAVO a Chymunedau Digidol Cymru. Prosiect wedi'i gomisiynu yw hwn yn seiliedig ar angen a nodwyd yn ystod y pandemig, lle mae angen helpu teuluoedd sy'n agored i niwed sydd â phlant o dan 4 oed trwy roi cymorth a'r cysylltedd iddynt gael mynediad at gefnogaeth, sef rhaglenni grwpiau rhianta rhithwir. Enghraifft arall yw cydweithredu rhwng yr Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd Hywel Dda ac (arweinydd) y Cyngor Gwirfoddol Sirol i roi Grant Adfer ar gyfer Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru ar waith. Cyflwynwyd cynllun gwaith ar y cyd ac mae wedi'i roi ar waith bellach. Mae nifer o feysydd ffocws yn seiliedig ar angen clir a nodwyd, sef prosiect wedi'i gomisiynu i ymchwilio i effaith gwirfoddolwyr ar hybiau llesiant, a fydd yn cyfrannu at helpu i ddatblygu hybiau llesiant lleol. Mae rhaglenni trawsffurfio Gofal Cymdeithasol yn ein galluogi i weithio gyda rhieni i wella data er mwyn gwerthuso effaith gwasanaethau ataliol ar unigolion a'r boblogaeth yn gyffredinol. Er enghraifft, mae ein tîm o gysylltwyr cymunedol a'n partneriaid rhanbarthol

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		wedi elwa ar hyfforddiant rhagnodi cymdeithasol i gryfhau ein cyfleoedd casglu data ac adeiladu gwasanaethau cryf ac atebol. Mae prosiect iechyd meddwl amenedigol newydd wedi'i ariannu gan y Gronfa Gofal Integredig wedi cynnig modd i ni weithio gyda'n cydweithwyr Iechyd i ddatblygu dulliau gwerthuso cymorth ymyrraeth gynnar ar gyfer rhieni newydd neu ddarpar rieni mewn lleoliadau allweddol yng Ngheredigion, a sut y mae'r ymyrraeth wedi eu cefnogi ac a yw wedi lleihau'r angen am gymorth iechyd meddwl arbenigol ac ati.

Crynodeb o Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru a'r Cynigion ar gyfer Gwella

Awdurdod Rheoleiddio: Archwilio Cymru

Teitl yr Adroddiad: Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith

Dyddiad Cyhoeddi: 21 Tachwedd 2019

Pwyllgor Archwilio: 05 Chwefror 2020

Cyfeirnod y Ddogfen: https://www.audit.wales/sites/default/files/VAWDASV_eng_11.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad
Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rydym wedi archwilio sut y mae dyletswyddau a chyfrifoldebau newydd y Ddeddf yn cael eu cyflwyno a'i cyflawni. Yn gyffredinol rydym wedi dod i'r casgliad bod dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol yn aml yn cael eu gadael i lawr gan system anghyson, gymhleth a thameidiog.

Argymhellion

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A1	Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn amlygu, er bod gan gyrff cyhoeddus ddealltwriaeth gynyddol am wasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r galw amdanynt, bod bylchau sylweddol yn dal i fodoli a bod ymgysylltiad â goroeswyr a dioddefwyr i adolygu a datblygu gwasanaethau yn anghyson. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell bod gwaith i asesu anghenion a mapio'r ddarpariaeth gwasanaethau gan gyrff cyhoeddus yn cael sylw o'r newydd a bod y modd y caiff pobl eu cynnwys yn cael ei ehangu a'i wella i gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol er mwyn creu darlun mwy cywir o'r ddarpariaeth gyfredol o ran gwasanaethau ac adnabod bylchau.	Cyhoeddodd Bwrdd Partneriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru ei strategaeth, **Strategaeth Bywydau Diogelach, Perthnasoedd Iachach Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** yn unol â deddfwriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn Nhachwedd 2018. Mae'r Strategaeth yn amlinellu gwybodaeth allweddol ar amlder a graddfa trais domestig yn y rhanbarth a sut y bydd sefydliadau'r Bartneriaeth yn helpu unrhyw un sy'n profi neu sydd wedi profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, dwyn y rhai sy'n ei gyflawni i gyfrif, sicrhau bod yr offer a'r wybodaeth gan weithwyr proffesiynol i weithredu, cynyddu ymwybyddiaeth o'r pwnc a sut i gael cymorth, a helpu plant a phobl ifanc i ddeall

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		anghydraddoldeb mewn perthnasoedd a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn annerbyniol. Datblygwyd y Strategaeth yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori ar raddfa fawr â goroeswyr, darparwyr gwasanaeth arbenigol, darparwyr gwasanaeth generig, comisiynwyr, rhanddeiliaid ac aelodau o Grŵp Strategol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Cynhaliwyd naw grŵp ffocws ar draws y rhanbarth gyda 56 o oroeswyr sydd wedi derbyn gwasanaethau. Cafodd y strategaeth ei chyflwyno i'r goroeswyr i geisio eu barn a'u sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad, gan roi cyfle iddynt ystyried sut roedd eu cyfraniad nhw wedi llunio a llywio'r ddogfen ddrafft. Cynhaliwyd cyfanswm o 8 grŵp ffocws ar draws y rhanbarth yn ogystal â chyfweliadau un i un, gyda chyfanswm o 56 o oroeswyr yn ymgysylltu yn y gweithgarwch ymgynghori. Roedd yr amrywiaeth o weithgarwch ymgysylltu yn gyfle i randdeiliaid, comisiynwyr, darparwyr a goroeswyr gyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu'r strategaeth, nodi beth sy'n gweithio, tynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth gyfredol a'r cyfleoedd ar gyfer gwella. Cafodd cyfranogwyr gyfle hefyd i fynegi eu gweledigaeth ar gyfer y strategaeth a nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Aeth cyfranogwyr ati'n frwdfrydig i ddarparu sylwadau am y tirlun presennol a thirlun y dyfodol ac roedd yr wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses hon wedi

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		darparu sbectrwm eang o farnau a gafodd ei adlewyrchu o fewn y blaenoriaethau strategol a nodwyd ac a gymeradwywyd. Gweler y Strategaeth gyhoeddedig: https://www.cysur.wales/regional-policies-procedures/ Mae Cynllun Cyflenwi Blynyddol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael ei adolygu a'i ddatblygu i adlewyrchu'r newid yn yr anghenion a'r blaenoriaethau ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'n amlinellu'r camau gweithredu ac amcanion rhanbarthol a lleol i gyflawni'r blaenoriaethau strategol cytunedig. Mae'r Cynllun Cyflenwi Blynyddol ar gyfer 2200/21 yn amlinellu'r gwaith sydd i'w gyflawni i ddatblygu Fframwaith Cyfathrebu ac Ymgysylltu Rhanbarthol. Trwy Weithgor Rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol mae cyfres o ymgynghoriadau wedi cynnwys gwaith gydag ymgynghorwyr annibynnol i fapio arferion gorau rhanbarthol a chenedlaethol sy'n bodoli mewn perthynas â'r maes hwn, a'r adnoddau rhanbarthol sydd ar gael i gefnogi'r swyddogaeth hon. Y bwriad yw datblygu fframwaith cyson a chynhwysol ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â chymunedau ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru a defnyddio hyn i lunio a llywio ein gwaith i wella ymatebion ar gyfer

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Yng Ngheredigion galwyd ar oroeswyr ac mae'r ymgynghorwyr yn cyfweld ac yn ceisio eu barn ar y ffordd orau o sicrhau bod hyn yn bwydo i mewn i asesu anghenion a mapio'r gwasanaeth a ddarperir gan gyrff cyhoeddus. Disgwylir i'r gwaith hwn adrodd yn ôl i dîm rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar ôl Pasg 2021. Bydd y gwaith hwn yn helpu i nodi bylchau pellach yn y gwasanaeth a ddarperir a llywio datblygiad ein Fframwaith Rhanbarthol sydd wedi'i gynnwys o fewn y Cynllun Cyflenwi Blynyddol ar gyfer 2021/22. Mae'r gwaith a gwblhawyd o fewn yr Is-grŵp Comisiynu hefyd wedi cefnogi hyn trwy gwblhau asesiad mwy diweddar o angen a darpariaeth gwasanaeth ar draws y rhanbarth. Mae hyn wedi arwain at ein Dogfen Fframwaith Comisiynu Rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru a gyhoeddwyd ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Rhanbarthol. Mae'r gwaith hwn wedi tynnu sylw at fylchau yn y gwasanaeth a ddarperir a'r dewisiadau ar gyfer datblygu gwasanaeth arloesol ac ataliol. Mae hyn wedi'i gynnwys yn natblygiad ein Manyleb Gwasanaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd yn ei drafft cyntaf ar hyn o bryd, a bydd gwaith yn dechrau ar ei weithredu yn 2021-22.
A2	Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn disgrifio sut y mae dioddefwyr a goroeswyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn aml yn ei chael yn anodd ymgodymu â system dameidiog o ran y gwasanaethau a ddarperir. I gynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr i gael mynediad at wasanaethau a'u defnyddio rydym yn argymell bod cyrff cyhoeddus: • yn cynhyrchu gwybodaeth gynhwysfawr a pherthnasol mewn amrywiaeth o gyfryngau am yr ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr; ac • yn creu llwybr ar y cyd i gael mynediad at wasanaethau a chymorth ar gyfer dioddefwyr a gweithwyr proffesiynol ac yn hysbysebu trefniadau mynediad yn eang.	Mae Is-grŵp Cyfathrebu Grŵp Cyflenwi Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn casglu gwybodaeth am strategaethau cyfathrebu asiantaethau partner, ac mae gwaith yn parhau i gynhyrchu strategaeth gyfathrebu ranbarthol a fydd yn sicrhau negeseuon rhanbarthol cyson ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Chydraddoldeb. Bydd y Strategaeth Gyfathrebu Ranbarthol yn cael ei llywio a'i hategu gan dystiolaeth ac adnoddau. Mae'r camau gweithredu perthnasol yn y Cynllun Cyflenwi fel a ganlyn: Sefydlu Is-grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (i gefnogi'r gwaith o dan Ymgysylltu â Goroeswyr). Adolygu cynlluniau cyfathrebu presennol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn y rhanbarth Mapio'r adnoddau / tystiolaeth sydd ar gael i lywio dull gweithredu'r Strategaeth Gyfathrebu Ranbarthol. Datblygu calendr o ddyddiadau allweddol Trais yn

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gan gynnwys cefnogi a hyrwyddo Ymgyrch Cyfathrebu Llywodraeth Cymru a'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn. Llunio a rhedeg ymgyrch codi ymwybyddiaeth rhanbarthol ar gyfer Ymddygiad Rheolaeth drwy Orfodaeth ac Ymddygiad dan Reolaeth. Ystyried sut y bydd yr hyn a ddysgir o Adolygu Lladdiadau Trais Domestig yn cael ei gynnwys o fewn y Strategaeth Gyfathrebu Ranbarthol. Mae'r dulliau cyfathrebu cyfredol a ddefnyddir gan yr asiantaethau partner yn amrywiol ac yn eang ac mae'r adnoddau a gynhyrchir ac a hyrwyddir i'w gweld ar wefan CYSUR. https://www.cysur.wales/vawdasv/ Cyhoeddwyd Llwybr Rhanbarthol at Gymorth yn Ebrill 2020 a chafodd ei lunio mewn partneriaeth â Darparwyr Arbenigol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar draws y rhanbarth i helpu i sicrhau cysondeb a pharhad y gwasanaeth sydd ar gael a hygyrchedd i ddinasyddion rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru. Gellir ei weld trwy'r cyswllt canlynol: https://www.cysur.wales/media/42mh3kxm/mid-and-west-wales-vawdasv-regional-pathway-to-support.pdf

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		** mae hyn wedi'i ategu hefyd gan y gwaith gydag ymgynghorwyr annibynnol ar ddatblygu ein Fframwaith Cyfathrebu ac Ymgysylltu Rhanbarthol – fel yr amlinellir uchod.
A3	Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi, er ei bod yn bwysig eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ar ddiogelu data, bod angen i sefydliadau rannu data gyda phartneriaid hefyd i ddiwallu anghenion dioddefwyr a goroeswyr yn well. Rydym yn argymell bod awdurdodau: • yn sicrhau bod staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad â dioddefwyr a goroeswyr yn cael hyfforddiant priodol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; • yn darparu hyfforddiant diweddaru ar gyfer rheolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant ac na allant rannu data, a pha ddata y gallan ac na allan ei rannu; ac • yn adolygu ac yn diweddaru protocolau rhannu data i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data.	Mae awdurdod lleol Ceredigion wedi sicrhau bod staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad â dioddefwyr a goroeswyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael hyfforddiant priodol yn unol â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, ac mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau at bwysigrwydd rhannu data. Cydnabyddwn y rôl hanfodol y mae'r awdurdod lleol yn ei chwarae o ran adnabod yn gynnar y rhai sy'n dioddef Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ac mae ein rhaglenni treigl o hyfforddiant Gofyn a Gweithredu (a ddechreuodd ym Medi 2019) yn unol â chynllun cyflenwi Canolbarth a Gorllewin Cymru) yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n delio â'r cyhoedd yn cael cyfleoedd rheolaidd i fynychu. Yn dilyn saib byr yn yr hyfforddiant oherwydd materion cysylltiedig â Covid-19 ar ddechrau 2020, Ceredigion oedd yr awdurdod lleol cyntaf o fewn Canolbarth a Gorllewin Cymru i ailgychwyn darparu hyfforddiant Gofyn a Gweithredu ar-lein.

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		Mae'r tîm Dysgu a Datblygu yn parhau i gydweithio'n agos â chydweithwyr yn y Tîm Diogelu, Cynghorydd Rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru a gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol lleol i sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperir yn addas i'r diben ac yn cryfhau ein dull cydgysylltiedig at ymholiadau wedi'u targedu, atgyfeiriadau ac ystyried y teulu cyfan ac anghenion cymhleth. Mae hyfforddiant Gofyn a Gweithredu yn cael ei ddarparu ar y cyd gan swyddog hyfforddi o'r awdurdod lleol a hyfforddwr allanol o elusen cam-drin domestig leol. Mae cyrsiau cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar gael ac mae pob cyfranogwr yn derbyn gwybodaeth ategol i fynd adref gyda nhw, e.e. sut i ymateb yn sensitif i ddatgeliadau a gwybodaeth gyswllt ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig yn lleol ac yn genedlaethol. Ar ôl cwblhau cyrsiau Gofyn a Gweithredu, mae cyfranogwyr yn cael mynediad at adnodd ar-lein trwy dudalen fewnol Microsoft Teams lle y gallent weld neu lawrlwytho gwybodaeth ategol unrhyw bryd. Yn ogystal â Gofyn a Gweithredu, mae nifer o gyfleoedd hyfforddi arbenigol wedi bod ar gael i staff megis hyfforddiant ymwybyddiaeth stelcio, cam-drin ar sail anrhydedd a'r rhaglen hyfforddi 'Parch' wedi'i drefnu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar y rheng-flaen sy'n gweithio gyda

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		theuluoedd sy'n profi Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gydnabod ac ymateb i'r rhai sy'n cam-drin. **Gofyn a Gweithredu – hyfforddiant diweddaru** Dechreuodd hyfforddiant Gofyn a Gweithredu ym Medi 2019 ac rydym yn cyrraedd y cyfnod diweddaru 2 flynedd a argymhellir. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd adnoddau awdurdodau perthnasol yn herio argaeledd staff i dderbyn hyfforddiant diweddaru ffurfiol "Gofyn a Gweithredu" yn yr un ffordd â'r hyfforddiant cychwynnol. Gellir bodloni'r gofyniad i ddarparu hyfforddiant diweddaru trwy gynnig dysgu cyfunol ac ar-lein, a bydd deunyddiau ar gael maes o law i fodloni'r gofyniad hwn' (national-training-framework-on-violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence-statutory-guidance.pdf (gov.wales) td 36). Rydym yn aros am ddiweddariad ynghylch ffurf yr hyfforddiant diweddaru. Mae'r asiantaethau partner allweddol a gynrychiolir ar Fwrdd Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi llofnodi protocol rhannu gwybodaeth o dan nawdd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru a gyhoeddwyd ym Medi 2019 ac mae'n cael ei adolygu'n flynyddol. https://www.cysur.wales/media/g0ebu2il/safeguarding-

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		isp-march-2019.pdfa
A4	Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi, er bod peth cynnydd da wedi cael ei wneud gyda gweithio'n rhanbarthol, nad oes ysgogwyr priodol yn eu lle bob amser i gefnogi'r broses o drawsnewid gwasanaethau yn unol â'r ddeddfwriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. I sicrhau bod manteisio'n rhanbartholi'n cael eu gwireddu, rydym yn argymell bod asiantaethau darparu (awdurdodau lleol, cyrff iechyd, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub a'r trydydd sector) yn adolygu eu dull o weithio'n rhanbarthol i integreiddio gwasanaethau'n well a chynyddu i'r eithaf yr effaith gadarnhaol y gallant eu cael er ddioddefwyr a goroeswyr.	O fewn Canolbarth a Gorllewin Cymru cafodd y strwythur llywodraethu ar gyfer strategaeth ranbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ei adolygu yn 2019 i helpu i weithredu ac adeiladu momentwm o fewn y Bartneriaeth Ranbarthol. Erbyn hyn mae dau grŵp wedi'u neilltuo ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, sef Grŵp Strategol a Grŵp Cyflenwi. Mae'r Grŵp Strategol yn cytuno ar drefniadau lefel uchel sy'n cael eu rhoi ar waith ar lefel Grŵp Cyflenwi. Mae'r ddau grŵp yn cynnwys aelodaeth o Gyngor Sir Ceredigion a dri Awdurdod Lleol arall, y ddau Fwrdd Iechyd a Heddlu Dyfed Powys, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd ynghyd â nifer o asiantaethau allweddol eraill, gan gynnwys sefydliadau arbenigol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Ceir sawl is-grŵp amlasiantaeth hefyd yn unol â'r amcanion o fewn y cynllun cyflenwi rhanbarthol. Mae grwpiau Strategol a Chyflenwi Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael eu goruchwylio gan Swyddogion Gweithredol y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		Mae Cynghorydd Rhanbarthol wedi bod yn ei swydd ers 2019. Mae'r penodiad hwn ynghyd â'r trefniadau strwythurol uchod yn darparu digon o allu i gefnogi trawsnewid y gwasanaeth a dulliau rhanbarthol amlasiantaeth integredig yn unol â deddfwriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r Cynghorydd Rhanbarthol yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd rhanbarthol yn erbyn strategaeth a chynlluniau cyflenwi Canolbarth a Gorllewin Cymru i Lywodraeth Cymru, gan gyflawni'n effeithiol gyfrifoldebau awdurdodau perthnasol o dan y Ddeddf. Mae'r Cynghorydd yn rhoi adroddiadau rheolaidd i'r holl grwpiau gweithredol rhanbarthol a lleol ynghyd â'r grwpiau cyflenwi a strategol. Gellir gweld copïau o'r adroddiadau i Lywodraeth Cymru yn erbyn y Cynllun Cyflenwi Blynyddol ar gyfer 2019/20 ar y wefan Cysur.org.
A5	Mae Rhan 3 o'r adroddiad yn amlygu nad yw'r mecanweithiau cyllido cymhleth a byrdymor, diffyg data ac ymgynghori annigonol â rhanddeiliaid, o gymorth i gomisiynu gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol mewn modd cynaliadwy. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn adolygu eu trefniadau comisiynu i: • gael gwared ar ddyblygu a gorgyffwrdd rhwng gwahanol ddulliau yn yr awdurdod a chyda phartneriaid; • rhesymoli trefniadau gweinyddu i wella effeithlonrwydd a gwerth am	Mae Is-grŵp Partneriaeth a Chomisiynu Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gomisiynu symlach a chyson yn rhanbarthol mewn ymateb i Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gyda monitro cyson, llawn gwybodaeth. Mae Is-grŵp Comisiynu sefydledig gennym wedi'i gadeirio gan Chris Harrison, gyda chylch gorchwyl a

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
	arian; • symleiddio a safoni trefniadau comisiynu i leihau baich gweinyddu ar yr holl bartïon; a • phennu mesurau perfformiad, targedau a meincnodau priodol i farnu effaith a deilliannau gwasanaethau a gomisiynir.	chynllun gweithredu cytunedig. Mae'r ddogfen gomisiynu ranbarthol wedi cael ei chyhoeddi ar wefan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, yn dilyn asesiad cynhwysfawr o'r angen a'r ddarpariaeth gwasanaeth cyfredol, gan dynnu sylw at fylchau yn y gwasanaeth a chyfleoedd ar gyfer arloesi a datblygu. Yn 2020-21, ffocws yr Is-grŵp Comisiynu oedd datblygu Manyleb Gwasanaeth Ranbarthol ar gyfer cyflenwi gwasanaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r Fanyleb Gwasanaeth yn cynnwys fframwaith Canlyniadau Rhanbarthol a gafodd ei seilio ar ganlyniadau rhanbarthol ac ymarfer mapio data. Ceir drafft cyntaf ohono erbyn hyn a'r ffocws ar gyfer 2021-22 fydd nodi cyfleoedd comisiynu ar y cyd a'u rhoi ar waith ar draws y rhanbarth. Y ffocws ar gyfer 2021-22 fydd rhoi'r Fanyleb Gwasanaeth ar waith ar draws y Rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys cyfeiriad at y dadansoddiad bwlch o fewn y ddogfen gomisiynu ranbarthol a neilltuo adnoddau.

Crynodeb o Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru a'r Cynigion ar gyfer Gwella

Awdurdod Rheoleiddio: Archwilio Cymru

Teitl yr Adroddiad: Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o ddylunio a gweithredu Model Gwasanaethau Integredig y Cyngor – Cyngor Sir Ceredigion

Dyddiad Cyhoeddi: 20 Rhagfyr 2019

Pwyllgor Archwilio: 05 Chwefror 2020

Cyfeirnod y Ddogfen:

Crynodeb o'r Adroddiad
Fe archwilion ni i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio a gweithredu'r Model Gwasanaethau Integredig. Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol: Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Cynnwys Canfu ein harchwiliad fod y Cyngor yn mynd ati'n effeithiol i ystyried a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio a gweithredu'r Model Gwasanaethau Integredig ac mae'n mynd ar drywydd cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach.

Argymhellion

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A1	Yr hirdymor: • Bydd dadansoddiad pellach o'r cyllid, costau amcangyfrifedig ac arbedion o gymorth i roi mwy o eglurder ynghylch cynaliadwyedd ariannol a gweithredol y Model Gwasanaethau Integredig. • Mae'r Cyngor wedi cynnal dadansoddiad data manwl i'w helpu i ddylunio'r Model Gwasanaethau Integredig ond mae angen iddo ddatblygu mesurau perfformiad i asesu'r cynnydd tuag at amcanion gofal cymdeithasol byrdymor a hirdymor y Cyngor.	Cafwyd oedi wrth weithredu gwasanaethau integredig am rai misoedd o ganlyniad i bandemig Covid-19. Cafodd y rhaglen ei hailsefydlu yn Awst 2020 a'i hail-lansio fel y Rhaglen Gydol Oed a Llesiant. Mae amrywiaeth o ffrydiau gwaith â blaenoriaeth wedi cael eu sefydlu gan gynnwys ffrydiau gwaith a fydd yn canolbwyntio ar reolaeth ariannol i sicrhau bod gwasanaethau yn y dyfodol yn cael eu datblygu a'u darparu mewn ffordd ariannol gadarn. Mae'r Strategol Gydol Oed a Llesiant wrthi'n cael ei datblygu a fydd yn amlinellu dull cyflenwi gweledigaeth y Strategaeth Gydol Oed a Llesiant ar gyfer y 3-5 mlynedd nesaf. Bydd y strategaeth yn cynnwys nifer o amcanion a mesurau strategol a fydd yn sicrhau cyfeiriad clir ar gyfer gwasanaethau. Bydd y rhain yn llywio cynllunio busnes a chynnydd ar y newidiadau

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		sydd eu hangen ar draws y rhaglen, ac yn sicrhau asesiad lleol o berfformiad bob chwarter trwy drefniadau perfformiad chwarterol y Cyngor.
A2	Integreiddio: • Cwblhau Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb i archwilio sut y rhoddwyd 'sylw dyladwy' o 'weithredu arfer newydd' a sut y mae gweithrediad y Model Gwasanaethau Integredig: – yn effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol; – yn cefnogi, ac yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae Erthygl 8 yn amddiffyn yr hawl i fywyd teuluol preifat sy'n cynnwys materion o ymreolaeth a hunanbenderfyniad yn ogystal â phreifatrwydd a chyfrinachedd gohebiaeth a dogfennau personol; ac – yn bodloni Safon y Gymraeg. • Cwblhau Asesiad llawn o'r Effaith ar Breifatrwydd sy'n ofynnol dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) lle mae prosesu yn yr arfaeth a allai gael effaith sylweddol ar 'hawliau a rhyddid unigolion – gan gynnwys yr hyn sy'n deillio o system, prosesu neu weithgareddau newydd neu well sy'n cynnwys data personol'.	Mae Rheolwyr Corfforaethol wedi cael eu penodi bellach ac mae cwblhau Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi dechrau a chaiff ei ddatblygu ymhellach pan fydd y Strategaeth Gydol Oed a Llesiant wedi ei gwblhau. Bydd yr Asesiad llawn o'r Effaith ar Breifatrwydd hefyd yn cael ei ddatblygu pan fydd y Strategaeth Gydol Oed a Llesiant wedi cael ei chwblhau ac mae'n glir beth yw'r prosesau busnes gofynnol.
A3	Cynnwys: • Mae gan y Cyngor y cyfle i gynnwys y cyhoedd yng nghamau diweddarach dylunio'r model i'w helpu i drefnu pyrth cyflenwi. • Gallai'r Cyngor ddefnyddio canlyniad ei Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau ei fod wedi cynnwys yr holl garfannau amrywiol perthnasol o ddefnyddwyr gwasanaethau yn y broses o ddylunio gwasanaethau gan gynnwys y rhai mewn grwpiau anodd i'w cyrraedd.	Ymarfer ymgysylltu cyhoeddus cynhwysfawr yn cael ei gynnal chwe mis ar ôl rhoi'r strwythur newydd ar waith. Caiff hwn ei ddal fel rhan o'r ymarfer ymgysylltu.

Crynodeb o Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru a'r Cynigion ar gyfer Gwella

Awdurdod Rheoleiddio: Archwilio Cymru

Teitl yr Adroddiad: Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-20

Dyddiad Cyhoeddi: 12 Hydref 2020

Pwyllgor Archwilio: 12 Tachwedd 2020

Cyfeirnod y Ddogfen: https://www.audit.wales/sites/default/files/NFI_interactive_PDF_2018_20_eng_0_10.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad
Er bod y mwyafrif o gyfranogwyr yn y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru'n dangos ymrwymiad cryf i atal twyll ac i'r Fenter Twyll Genedlaethol, fel a nodais yn fy adroddiad diweddar ar drefniadau atal twyll ledled Cymru, nid yw rhai cyrff yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â thwyll ac nid ydynt yn sicrhau bod digon o adnoddau o ran staff medrus yn eu lle i ymchwilio i bariadau, atal twyll a chywiro gwallau. Mae pandemig COVID-19 wedi achosi heriau sylweddol ar draws y sector cyhoeddus wrth i gyrff geisio darparu gwasanaethau ar gyfer unigolion, cymunedau a busnesau ar adeg eithriadol o anodd. Ers dechrau'r pandemig, mae'r risg o dwyll wedi cynyddu wrth i sefydliadau ddod o dan bwysau ac wrth i reolaethau a threfniadau llywodraethu newid.

Argymhellion

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A1	Dylai'r holl gyfranogwyr yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol sicrhau eu bod yn cynyddu manteision eu cyfranogiad i'r eithaf. Dylent ystyried a yw'n bosibl gweithio'n fwy effeithlon ar bariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol trwy adolygu'r adran gyfarwyddyd yng nghymhwysiad gwe diogel y Fenter Twyll Genedlaethol.	Mae ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn cael ei gydlynu gan y Rheolwr Archwilio. Mae pob adroddiad yn cael ei redeg ar y cyd â TG a chaiff canlyniadau eu hanfon i'r gwasanaethau priodol i'w prosesu. Mae pariadau adrodd yn cael eu cynhyrchu yn nhrefn risg a chaiff profi sampl ei gynnal yn seiliedig ar y flaenoriaeth risg. Anogir pob cyfranogwr i ddarllen y cyfarwyddyd a dilyn yr hyfforddiant o fewn cymhwysiad gwe diogel y Fenter Twyll Genedlaethol cyn pob ymarfer.
A2	Dylai Pwyllgorau Llywodraeth ac Archwilio, neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny, a swyddogion sy'n arwain y Fenter Twyll Genedlaethol adolygu rhestr wirio hunanarfarnu'r Fenter Twyll Genedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn meddu ar wybodaeth lawn am waith cynllunio a chynnydd eu sefydliad yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-22.	Roedd cynlluniau ar droed i gwblhau hunanasesiad i adrodd i'r Grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ond cafodd ei atal oherwydd y pandemig. Mae hyn wedi'i drefnu ar gyfer Hydref 2021 bellach pan ddaw'r ymarfer cyfredol i ben.

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A3	Lle mae archwilwyr lleol wedi nodi meysydd penodol lle gellid gwneud gwelliannau, dylai'r cyrff cyhoeddus weithredu ar y rhain cyn gynted â phosibl.	Gweler A1 uchod – mae ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn cael ei gydlynu gan y Rheolwr Archwilio. Mae'r holl adroddiadau yn cael eu rhedeg ar y cyd â TG a chaiff y canlyniadau eu hanfon i'r gwasanaethau priodol i'w prosesu. Mae'n ofynnol i'r holl bariadau a argymhellir gael eu cwblhau erbyn diwedd Mai; bydd pob pâr yn cael ei gwblhau'n derfynol erbyn diwedd Medi. Mae cau adroddiad yn cael ei wirio gan y Rheolwr Archwilio.
A4	Dylai'r holl gyfranogwyr fod yn ymwybodol o risgiau o dwyll sy'n dod i'r amlwg, e.e. oherwydd COVID-19, a chymryd camau priodol i'w hatal a'u canfod.	• Mae pob Rheolwr yn cynhyrchu cynlluniau busnes sy'n cynnwys ei risgiau busnes – gall twyll gael ei gynnwys fel risg os yw'n briodol, gyda chamau lliniaru yn cael eu nodi. • Caiff yr holl risgiau o fewn cynlluniau busnes / gwasanaeth eu hasesu ar gyfer effaith a thebygolrwydd yn unol â Fframwaith Rheoli Risg y Cyngor. Caiff unrhyw risgiau sydd â sgôr ddilynol yn y categorïau risg uchel neu gritigol eu huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'i adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. • Mae twyll yn bennawd â blaenoriaeth yng nghynllun gwaith archwilio blynyddol Archwilio Mewnol. Ategir hyn gan hysbysiadau oddi wrth gyrff allanol megis NAFN a CIPFA, yn ogystal ag Awdurdodau Lleol eraill trwy Grwpiau Prif Archwilydd Cymru a thrwy ymgymryd ag asesiadau risg mewnol.

Crynodeb o Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru a'r Cynigion ar gyfer Gwella

Awdurdod Rheoleiddio: Archwilio Cymru

Teitl yr Adroddiad: System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

Dyddiad Cyhoeddi: 14 Hydref 2020

Pwyllgor Archwilio: 12 Tachwedd 2020

Cyfeirnod y Ddogfen: https://audit.wales/sites/default/files/WCCIS-Eng_10.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad
Bwriad System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yw galluogi staff iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol gan ddefnyddio un system a chofnod electronig a rennir. Mae'r trefniadau ar gyfer adrodd ar fanteision cyflwyno WCCIS wedi bod yn destun trafod ac adolygu o'r cychwyn cyntaf. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu fframwaith adrodd addas.

Argymhellion

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A1	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, cyn ymrwymo unrhyw gyllid canolog pellach, yn gweithio gyda Thîm Rhaglen Genedlaethol WCCIS, byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r cyflenwr i: • lunio achos busnes wedi'i ddiweddaru sy'n ystyried costau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac sy'n nodi disgwyliadau ar gyfer cyflwyno'r system ymhellach, ei defnyddio dros weddill tymor y contract, datblygu safonau data cenedlaethol a chynllunio ar gyfer unrhyw drefniadau olynol; • sicrhau bod gan y sefydliadau dan sylw'r gallu angenrheidiol i gefnogi gweithredu a'u bod yn rhoi digon o flaenoriaeth i'r rhaglen o fewn cynllun y cytunwyd arno'n glir; a • dwyn ynghyd ddarlun cenedlaethol clir ar adborth gan ddefnyddwyr rheng flaen am berfformiad ac ymarferoldeb cyffredinol y system.	Cynllun datblygu clir rhwng yr Awdurdod Lleol ac Iechyd ar ddatblygiad y system yn y dyfodol. Yn rhanbarthol rydym yn rhannu data â'n Bwrdd Iechyd trwy'r system ac wedi gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r system. Nid yw Awdurdodau Lleol eraill yn y rhanbarth wedi llofnodi'r gorchymyn eto, felly dim ond ymgysylltiad cyfyngedig sydd gennym ar hyn o bryd. Yn rhanbarthol, rydym yn datblygu cynlluniau lleol ar ddatblygu'r safonau data cenedlaethol a rhyng-weithrededd yr holl systemau o fewn y rhanbarth.
A2	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Thîm y Rhaglen Genedlaethol i ystyried: • sut y gellid bod wedi cryfhau contract WCCIS i gefnogi a chymell y broses o gyflawni a rheoli risg; a • sut y gellir cymhwyso gwersi perthnasol i unrhyw drefniadau contractio	Adnodd canolog o ddylunio a datblygu busnes - cynllunio unwaith ar gyfer pob defnyddiwr, setiau data cyffredin, llifau gwaith cyffredin. Rhaid i bob randdeiliad fod wedi ymrwymo i'r cynnyrch a

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
	olynol a chaffael cyhoeddus ehangach.	rhoi llinell amser glir ar gyfer gweithredu. Gellir cyflawni hyn dim ond os yw pob un yn rhan o'r fanyleb a'r broses gaffael.

Crynodeb o Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru a'r Cynigion ar gyfer Gwella

Awdurdod Rheoleiddio: Archwilio Cymru

Teitl yr Adroddiad: Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru

Dyddiad Cyhoeddi: 06 Mehefin 2019

Pwyllgor Archwilio: 17 Gorffennaf 2019

Cyfeirnod y Ddogfen: http://www.audit.wales/publication/effectiveness-local-planning-authorities-wales

Crynodeb o'r Adroddiad
Y system gynllunio sy'n rheoli'r defnydd o dir a'r hyn a gaiff ei adeiladu arno, ac fe'i gorfodir gan awdurdodau cynllunio, sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid caniatáu bwrw ymlaen â datblygiad arfaethedig trwy roi neu wrthod caniatâd cynllunio. Rhaid i geisiadau cynllunio gael eu penderfynu yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol oni bai bod rheswm da iawn dros beidio â gwneud hynny. Felly mae cynllunio'n sicrhau bod y datblygiad cywir yn digwydd yn y lle cywir ar yr adeg gywir.

Argymhellion

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A1	Mae **Rhan 1** o'r adroddiad yn nodi cymhlethdodau'r system gynllunio gan ddangos faint o her ydyw i awdurdodau cynllunio lleol ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid a'u cynnwys mewn dewisiadau a phenderfyniadau. Er mwyn gwella'r modd y mae rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys a pherchnogaeth ar benderfyniadau rydym yn argymell fel a ganlyn: • bod awdurdodau cynllunio lleol: – yn profi arferion ymgysylltu a chynnwys ar hyn o bryd ac yn ystyried yr ystod lawn o opsiynau eraill sydd ar gael i sicrhau bod gweithgareddau cynnwys yn addas ar gyfer y diben; – yn defnyddio 'Cynlluniau Lle' fel cyfrwng i ymgysylltu â chymunedau a dinasyddion a'u cynnwys mewn dewisiadau a phrosesau penderfynu ym maes cynllunio; ac – yn gwella tryloywder ac atebolrwydd trwy gynnal cyfarfodydd cynllunio ar amseroedd priodol, gan gylchdroi cyfarfodydd fel eu bod yn cael eu cynnal mewn ardaloedd y byddai datblygiadau arfaethedig yn digwydd ynddynt, gweddarlledu cyfarfodydd a	**Mae'r Cyngor yn ymgysylltu ac yn ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid wrth baratoi'r cynllun a phan fydd ceisiadau cynllunio yn cael eu derbyn. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned i baratoi Cynlluniau Bro.** **Bydd y Cyngor yn:** **i) Adolygu dulliau ymgynghori ac yn ystyried a ellir gweithredu gwelliannau.** **ii) Parhau i gefnogi'r gwaith o baratoi Cynlluniau Bro.** **iii) Ystyried cyfleoedd i gyflwyno gweddarlledu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu (yn amodol ar gynigion i wella offer i ganiatáu gweddarlledu ehangach ar gyfer cyfarfodydd).**

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
	darparu cyfleoedd i randdeiliaid annerch cyfarfodydd pwyllgorau. • bod Llywodraeth Cymru: – yn adolygu Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu 2012 ac yn diweddaru'r safonau ymgysylltu a chynnwys ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.	
A2	Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn amlygu bod awdurdodau cynllunio lleol wedi profi gostyngiadau sylweddol mewn cyllid a'u bod yn ei chael yn anodd cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. I wella cydnerthedd, rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol: • yn adolygu eu cyfundrefnau ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost wirioneddol darparu'r gwasanaethau hyn ac yn gwneud y gwasanaeth yn hunangyllidol; ac • yn gwella capasiti trwy weithio'n rhanbarthol i: – integreiddio gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn arbenigedd; – datblygu canllawiau cynllunio atodol ar y cyd; a – datblygu cynlluniau datblygu lleol yn y dyfodol ar sail ranbarthol ac mewn partneriaeth gydag awdurdodau cynllunio lleol eraill.	**Llwyddodd y Cyngor i gynnal adnoddau i gefnogi'r timau Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio ac Adeiladu. Er mwyn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu defnyddio mor effeithlon â phosibl, bydd y Cyngor yn:** **i) Adolygu strwythur y gwasanaeth yn ystod 2019/20** **ii) Adolygu cyfundrefnau cyllideb ar gyfer 2020/21** **iii) Nodi cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill i baratoi polisi cynllunio ac ymgymryd â meysydd cynllunio arbenigol.**
A3	Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn amlygu nad yw cost gwasanaethau rheoli datblygu'n cael ei hadlewyrchu yn y taliadau a godir am y gwasanaethau hyn a bod cynnydd i ddatblygu ymatebion rhanbarthol i gryfhau cydnerthedd wedi bod yn araf. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru: • yn adolygu ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost wirioneddol darparu'r gwasanaethau hyn; ac • yn ystyried sut i ddefnyddio'r pwerau yn y Ddeddf Cynllunio (Cymru) i gefnogi a gwella capasiti a chydnerthedd awdurdodau	**Er ei fod yn argymhelliad i Lywodraeth Cymru ymateb iddo, byddai'r Cyngor yn croesawu cynnydd mewn ffioedd ac adnoddau ychwanegol i gefnogi gwelliannau yn ei wasanaethau cynllunio.**

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
	cynllunio lleol.	
A4	Mae Rhan 3 o'r adroddiad yn crynhoi effeithiolrwydd ac effaith prosesau penderfynu awdurdodau cynllunio lleol a pha mor dda y maent yn perfformio yn erbyn mesurau cenedlaethol. Rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwella effeithiolrwydd pwyllgorau cynllunio trwy: • adolygu eu cynllun dirprwyo i sicrhau bod pwyllgorau cynllunio'n canolbwyntio ar y materion strategol pwysicaf sy'n berthnasol i'w hawdurdod; • diwygio templedi adroddiadau i sicrhau eu bod yn eglur a diamwys i helpu i roi arweiniad mewn prosesau penderfynu a lleihau lefel yr argymhellion gan swyddogion a gaiff eu gwrthdroi; a • gorfodi safonau ymddygiad awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer cyfarfodydd.	**Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro perfformiad y penderfyniadau y mae'n eu gwneud ac yn ystyried:** **i) Newidiadau pellach i'r cynllun dirprwyo** **ii) Safoni templedi adroddiadau ar gyfer Pwyllgorau** **iii) Adolygu'r canllawiau sydd ar gael i'r Aelodau ac i aelodau'r cyhoedd ynghylch y broses gwneud penderfyniadau.**
A5	Mae Rhan 4 o'r adroddiad yn nodi rôl ganolog cynllunio i gyflawni uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol: • yn pennu gweledigaeth uchelgeisiol eglur sy'n dangos sut y mae cynllunio'n cyfrannu at wella llesiant; • yn darparu hyfforddiant a chymorth llesant rheolaidd a phriodol ar gyfer aelodau'r pwyllgor cynllunio i helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau ehangach; • yn pennu mesurau priodol ar gyfer y modd y maent yn gweinyddu'r system gynllunio ac effaith eu penderfyniadau cynllunio ar lesiant; ac • yn cyhoeddi'r mesurau perfformiad hyn yn flynyddol i ffurfio barn ynglŷn ag effaith awdurdodau cynllunio ar lesiant.	**Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol a bydd y ddogfen hon yn esbonio rôl y cynllun a gwneud penderfyniadau o ran gwireddu uchelgeisiau Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ogystal bydd y Cyngor yn:** **i) Parhau i gynnal sesiynau briffio gydag aelodau am gynlluniau a'r cyfraniad y mae'n ei wneud tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.** **ii) Monitro'r CDLl a gwneud penderfyniadau** **iii) Cyhoeddi adroddiadau monitro a pherfformiad blynyddol**

Audit Wales Protocol

Introduction

This protocol outlines how communications from Audit Wales will be managed within Ceredigion County Council. Recent restructuring separated the governance and performance/improvement functions, which had previously been undertaken by one post. This, combined with the challenges of the coronavirus pandemic, mean there is need to monitor communications from Audit Wales closely. This is to ensure that all requests are assigned to the appropriate officer and resolved in a timely manner.

NOTE:

1 This protocol does not apply to financial audits (including grant certification correspondence), which will continue to be dealt with by the Finance and Procurement Service; and
2 The Management Response Forms noted as 'outstanding' by Audit Wales in respect of eight reports issued in 2019/20 and 2020/21 are subject to a separate protocol.

Single Point of Contact

The Single Point of Contact for Audit Wales' communications is the Corporate Performance and Improvement Officer, which sits within the Performance and Research Team. However, this post is currently vacant and not expected to be filled for approximately three months. In the interim period, the new Governance Officer within Legal and Governance Services will undertake this role.

Roles and Responsibilities

Both the Governance Officer and the Corporate Performance and Improvement Officer have responsibilities in relation to supporting Audit Wales. As the job titles suggest, the Governance Officer focuses primarily on governance related issues and the Corporate Performance and Improvement Officer focuses on matters relating specifically to performance and improvement. These are outlined in the relevant Job Descriptions:

The Governance Officer – *"To act as a point of contact to support working and coordination with Audit Wales, other inspectorates and regulators to ensure suitable and effective arrangements are achieved (excluding performance and improvement)."*

The Corporate Performance and Improvement Officer – *"To coordinate and support work with Audit Wales and other inspectorates to ensure robust and effective audit arrangements are in place in relation to performance and improvement matters"*

Assigning Ownership of Communications/Requests

Upon receipt of a communication or request from Audit Wales, the Governance Officer will respond and take ownership if it is a governance matter and the Corporate Performance and Improvement Officer will do the same if it is a performance or improvement matter.

National Reports received from Audit Wales that need to go to Leadership Group as a matter of course, will be taken by the appropriate Corporate Lead Officer (CLO) – if it's a governance issue the CLO for Governance and Legal will lead on the item at Leadership Group, if it's a performance or improvement issue the CLO for Policy, Performance and Public Protection will lead.

An example of the split between governance and performance/improvement issues is shown in the table overleaf, although this list is not exhaustive.

Who Does What?	
Governance Officer	**Corporate Performance and Improvement Officer**
• Annual Governance Statement	• Performance Accountability Measures (PAMs)
• National Fraud Initiative (NFI)	• Performance Measures
• Counter-fraud work	• Review of service performance
• Effectiveness of service delivery	• Corporate review of performance
• Corporate governance of systems / services	• Corporate strategy / corporate priorities
• Value for Money	• Audit Wales recommendations monitoring
• Financial sustainability	• Well-being of Future Generations Act / Well-being Objectives
• Commercialisation	• Continuous Performance Improvement
• Recovery planning	• Sustainable Development Principle
• Assurance	• Risk Assessment

'Grey Areas'

It is recognised that there will be some 'grey areas' that do not immediately fall into either category of governance or performance/improvement, such as the Annual Audit Summary and matters relating the Public Services Board. Therefore, at the point of contact the Corporate Performance and Improvement Officer will, in conjunction with the Governance Officer, make a judgement on the request and agree who will lead on it through to completion (see process diagram attached as Appendix A). During the first few months of this process, the Corporate Manager Internal Audit and Performance and Research Manager will meet regularly to provide support and guidance in using the new process.

Shared Audit Wales Email

A new shared email address has been set-up to allow multiple staff across the Legal and Governance, and the Policy, Performance and Public Protection services to monitor incoming communications from Audit Wales. The address is auditwalescontact@ceredigion.gov.uk. The Corporate Manager Policy & Performance, Corporate Manager Internal Audit, Governance Officer, Corporate Performance and Improvement Officer and the Performance and Research Manager have access to this email address.

Audit Wales Contacts

The main contacts at Audit Wales from which most communications will come are the Performance Audit Manager and Programme Audit Lead. A meeting was held on 18 January 2021 with the Programme Audit Lead to discuss the new arrangements. Once the protocol has been agreed by Leadership Group, the Performance Audit Manager and Programme Audit Lead will be informed in writing of the new arrangements and provided with a copy of the protocol for reference.

Review of the Protocol

The Protocol itself will be reviewed during the first three months to ensure it is fit for purpose and update where necessary. It is anticipated that the vacant Corporate Performance and Improvement Officer will not be filled until March/April 2021, therefore the review period will continue until June 2021.

Teams Site

A Microsoft Teams site has been created to provide a dedicated store for all Audit Wales correspondence documents and initial contacts, and also to ensure we know the latest position with each enquiry. The working documents for each Audit Wales enquiry are not stored on this Teams site, instead a link or reference to where the working documents are stored will be provided. The shared site is called "Archwilio Cymru / Audit Wales" and the following officers have access:

- CLO Policy and Performance
- CLO Legal and Governance
- Corporate Manager Partnerships & Performance
- Corporate Manager Internal Audit
- Governance Officer
- Corporate Performance and Improvement Officer
- Performance and Research Manager

Appendix A – Process Map



AW Reports' Management Response Forms outstanding from 2019/20 & 2020/21 – Monitoring Flowchart



Archwilio Cymru
Audit Wales

Briff y Prosiect – Gwerth am Arian Taliadau Uniongyrchol

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2020

Cyfeirnod: 2061A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru drwy e-bostio swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Briff y prosiect

Cefndir yr adolygiad 4

Diben yr adolygiad 5

Pwyslais yr adolygiad 5

Y sail ddeddfwriaethol ar gyfer yr adolygiad 6

Dull 6

Allbynnau 7

Amserlen 7

Dull gwaith maes ac archwilio 8

Dogfennau ac adolygu data 9

Cysylltiadau Archwilio Cymru 10

Briff y prosiect

Cefndir yr adolygiad

1 Mae Taliadau Uniongyrchol yn cynorthwyo Awdurdodau Lleol i ddiwallu angen cymwys unigolyn am ofal cymdeithasol a chymorth, neu angen gofalwr am gymorth. Fe'u darperir i alluogi unigolion cymwys i brynu'r cymorth neu'r gwasanaethau gofal y byddai'r Awdurdod Lleol yn eu trefnu fel arall ar eu rhan. Bwriad hyn yw rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i unigolion dros eu bywydau eu hunain drwy ddarparu dewis amgen i ofal cymdeithasol a drefnir yn uniongyrchol gan eu Hawdurdod Lleol. Mae gan unigolion sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol fwy o ryddid i benderfynu pwy sy'n darparu eu gofal cymdeithasol a'u cymorth ac i reoli sut, ble a phryd y caiff ei ddarparu.

2 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) yn sail i'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol yng Nghymru, er y bu'n orfodol i Awdurdodau Lleol gynnig Taliadau Uniongyrchol i bob aelod cymwys ers 2003. Rhaid i Awdurdodau Lleol ystyried Taliadau Uniongyrchol yn rhan annatod o ddiwallu anghenion pobl drwy gynllunio gofal a chymorth ac ni ddylent eu cyfrif yn ystyriaeth eilaidd ar wahân.

3 Os bydd unigolyn yn dewis derbyn Taliadau Uniongyrchol, dylai gytuno â'i Awdurdod Lleol sut y caiff yr arian ei ddefnyddio i ddiwallu'r anghenion sydd ganddo a gawsant eu hasesu. Pan ddefnyddir Taliad Uniongyrchol i gyflogi rhywun, rhaid i dderbynwyr neu eu cynrychiolwyr fod yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol fel cyflogwr a dylent gael y cymorth a'r adnoddau sydd eu hangen i reoli eu cyfrifoldebau cyflogaeth. Mae pob Awdurdod Lleol yn cynnal gwasanaeth gweinyddol i helpu pobl i gael gafael ar Daliadau Uniongyrchol a'u rheoli.

4 Rhaid i werth Taliad Uniongyrchol fod yn gyfwerth â'r gost resymol o sicrhau'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen, yn amodol ar unrhyw gyfraniad neu ad-daliad y mae'n ofynnol i'r derbynnydd ei wneud. Er nad oes terfyn ar uchafswm neu isafswm Taliad Uniongyrchol, rhaid iddo fod yn ddigon i alluogi cyflawni deilliannau’r unigolyn. Wrth gyfrifo gwerth Taliad Uniongyrchol, rhaid i Awdurdod Lleol gynnwys costau cynhenid sy'n gysylltiedig â bod yn gyflogwr cyfreithiol.

5 Yn ogystal â gwella annibyniaeth a lles pobl, gall Awdurdodau Lleol wneud arbedion ariannol drwy ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol. Unwaith y bydd y broses gychwynnol wedi'i sefydlu, gall pobl yn gyffredinol wneud trefniadau angenrheidiol yn annibynnol i raddau helaeth ar eu Hawdurdod Lleol. Er ei fod yn faes o wariant cymharol isel, mae darpariaeth Taliadau Uniongyrchol yn arwydd da o sut mae Awdurdodau Lleol yn sicrhau gwerth am arian yn eu gwariant ar ofal cymdeithasol a sut maent yn hyrwyddo llais, dewis a rheolaeth pobl yn unol â dyheadau'r Ddeddf.

Diben yr adolygiad

6 Ychydig iawn o ddata sy'n cael ei gasglu a'i gyhoeddi'n genedlaethol ar berfformiad Awdurdodau Lleol o ran darparu Taliadau Uniongyrchol. O ganlyniad, ni all y cyhoedd gymharu perfformiad yn y maes hwn yn hawdd na chael sicrwydd ynghylch y gwerth am arian a ddarperir. Bydd yr astudiaeth hon yn rhoi sicrwydd ynghylch i ba raddau y caiff Taliadau Uniongyrchol eu rheoli'n dda a sut maent yn diwallu anghenion pobl.

7 Datgelodd ffigurau a gyhoeddwyd cyn gweithredu'r Ddeddf fod llai o bobl yn manteisio ar Daliadau Uniongyrchol yng Nghymru o gymharu â Lloegr. Byddwn yn meincnodi perfformiad presennol ac yn nodi a yw cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gwneud popeth o fewn eu gallu i hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol a chynyddu faint o bobl sy'n elwa arnynt. Byddwn hefyd yn cloriannu pa mor dda y mae Awdurdodau Lleol wedi cefnogi derbynwyr Taliadau Uniongyrchol i ddatrys unrhyw faterion y gallent fod wedi dod ar eu traws yn ystod y pandemig a sut y sicrhawyd eu diogelwch a'u lles drwy'r cyfnod.

Pwyslais yr adolygiad

8 Gan ganolbwyntio ar werth am arian, byddwn yn adolygu sut y mae Awdurdodau Lleol yn goresgyn rhwystrau y mae angen mynd i'r afael â hwy wrth gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar Daliadau Uniongyrchol, gan gynnwys unrhyw heriau posibl ynghylch y gweithlu lleol. Byddwn yn ystyried yr hyn y mae Awdurdodau Lleol yn ei wneud i sicrhau tegwch o ran gallu elwa ar Daliadau Uniongyrchol, yn ogystal â'r trefniadau sydd ganddynt ar waith i gael sicrwydd ynghylch a yw Taliadau Uniongyrchol yn cyflawni'r hyn a fwriedir.

9 Bydd yr adolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol: **Yw Taliadau Uniongyrchol yn ffordd effeithiol, effeithlon ac economaidd o ddarparu gofal i oedolion mewn angen?**

10 Mae cwestiynau ategol yn cynnwys:

- A yw Awdurdodau Lleol yn defnyddio Taliadau Uniongyrchol i wella ystod dewis, rheolaeth ac annibyniaeth pobl? (Darparu taliadau uniongyrchol yn effeithlon)
- A yw Awdurdodau Lleol yn symud adnoddau i gefnogi pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol i gynnal eu lles? (Sicrhau fod taliadau uniongyrchol yn economaidd)
- A yw'r modd y mae Awdurdodau Lleol yn darparu Taliadau Uniongyrchol yn gwella ansawdd bywyd pobl? (Sicrhau fod Taliadau Uniongyrchol yn effeithiol)

- A yw Awdurdodau Lleol yn sicrhau y gall pawb a fydd yn elwa o Daliadau Uniongyrchol gael gafael ar y gwasanaethau hyn? (Sicrhau fod mynediad teg i Daliadau Uniongyrchol)

Y sail ddeddfwriaethol ar gyfer yr adolygiad

11 Mae'r prosiect hwn yn cael ei gynnal yn unol ag Adran 41 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004. Mae'r Ddeddf hon yn gosod dyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal astudiaethau a gynlluniwyd i'w alluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth gyflawni swyddogaethau neu wasanaethau cyrff llywodraeth leol yng Nghymru.

12 Mae hefyd yn cynorthwyo'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni rhai o'i ymrwymiadau a'i gyfrifoldebau mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf) sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd.

Dull

13 Wrth ymgymryd â'r prosiect hwn, byddwn yn defnyddio canfyddiadau rhanddeiliaid eraill o waith diweddar ac sydd ar y gweill. **Mae ein dull wedi'i gynllunio i leihau'r baich ar gyrff cyhoeddus ac mae'n ystyried cyfyngiadau ymarferol a achoswyd o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19.**

14 Bydd ein dulliau yn cynnwys:

- dadansoddiad o ddata perfformiad a gasglwyd yn genedlaethol cyn dechrau'r Ddeddf a data perfformiad a gasglwyd yn lleol ar ôl mis Ebrill 2016.
- dadansoddiad o ddata ariannol i sefydlu patrymau gwario mewn perthynas â darpariaeth Taliadau Uniongyrchol fel rhan o'n harchwiliad o gyfrifon.
- adolygiad o bolisïau mewnol a dogfennau canllaw Awdurdodau Lleol, yn ogystal â gwybodaeth a threfniadau cyhoeddedig i gefnogi'r rhai sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol er mwyn gweld pa mor rhwydd a chyfleus yw eu defnyddio. Ceir rhagor o wybodaeth am ein dogfennau a'n hadolygiad data ym **mharagraffau 25 i 27**.
- cyfres o grwpiau ffocws ar-lein gydag aelodau o'r Fforwm Taliadau Uniongyrchol cenedlaethol – buom yn trafod â'r Fforwm wrth ddatblygu'r prosiect.
- cyfweliadau ag Aelodau Etholedig, swyddog(ion) arweiniol Taliadau Uniongyrchol, gweithwyr cymdeithasol, penaethiaid gwasanaethau

oedolion a gweithwyr proffesiynol ym maes cyllid a chaffael mewn sampl o awdurdodau lleol. Lle bynnag y bo modd, byddwn yn ymgysylltu drwy fforymau sefydledig a chyfarfodydd ar-lein er mwyn osgoi ychwanegu unrhyw faich pellach at waith aelodau a swyddogion y cyngor.

- cyfweliadau â sefydliadau a gomisiynwyd gan gynghorau i ddarparu cymorth gweinyddol i'r rhai sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol.
- grŵp ffocws ar-lein gyda gofalwyr – y rhai sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol ar hyn o bryd a'r rhai nad ydynt.
- arolwg dros y ffôn gyda derbynwyr Taliadau Uniongyrchol ledled Cymru i ddeall safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth.
- grŵp ffocws ar-lein o gyrff trydydd sector a chyfweliadau gyda chyrff cenedlaethol, llunwyr polisi, rheoleiddwyr a llunwyr barn.
- ymchwil gyda sefydliadau ledled y DU i gymharu gwahanol ddulliau o fynd ati.
- cais am dystiolaeth gan asiantaethau gofal preifat yng Nghymru.

15 Mae partneriaid ac arbenigwyr allweddol yn cymryd rhan mewn Grŵp Cyfeirio astudiaeth a sefydlwyd yn benodol i sicrhau bod yr astudiaeth yn canolbwyntio ar y meysydd cywir drwyddi draw ac i sicrhau'r effaith fwyaf posibl.

16 **Ni fyddwn yn**:

- cynnal cyfweliadau wyneb-i-wyneb oni bai bod polisïau cadw pellter cymdeithasol cenedlaethol yn caniatáu; a
- rhoi baich diangen ar staff neu bartneriaid awdurdodau lleol, lle gallwn gael tystiolaeth drwy ddulliau eraill.

Allbynnau

17 Caiff canfyddiadau'r adolygiad hwn eu nodi mewn adroddiad a fydd yn cynnwys cynigion ar gyfer gwella a chymharu a sylwebaeth ar wahanol ddulliau o ddarparu Taliadau Uniongyrchol.

18 Byddwn yn tynnu sylw at arferion nodedig ac yn datblygu deunyddiau cymorth i gefnogi gwelliant.

19 Byddwn yn cyhoeddi data'n agored lle y gallai helpu i gefnogi gwelliant.

Amserlen

Arddangosyn 1: amserlen

Mae'r tabl isod yn nodi amserlen arfaethedig ar gyfer yr adolygiad:

Amserlen arfaethedig	
Dosbarthu briff y prosiect	Tachwedd 2020
Dadansoddi data a dogfennau	Tachwedd 2020 – Ionawr 2021
Galw am dystiolaeth gan asiantaethau gofal y sector preifat	Tachwedd 2020 – Mawrth 2021
Arolygon	Tachwedd 2020 – Mawrth 2021
Cyfweliadau cenedlaethol, ymchwil a gwaith arfer da ledled y DU	Ionawr – Mawrth 2021
Grwpiau ffocws a chyfweliadau gyda staff y cyngor ac Aelodau Etholedig	Ionawr – Mehefin 2021
Dod i gasgliadau a drafftio adroddiad	Gorffennaf – Medi 2021
Cyhoeddi'r adroddiad	Medi 2021

Dull y gwaith maes ac archwilio

20 Fel pawb, mae Archwilio Cymru wedi bod yn cadw golwg fanwl ar y sefyllfa sy'n newid yn gyflym o ran lledaeniad feirws COVID-19. Er bod yn rhaid i ni sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau statudol, blaenoriaeth yr Archwilydd Cyffredinol fu sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff Archwilio Cymru, eu teuluoedd a’n partneriaid mewn mannau eraill yn y gwasanaeth cyhoeddus ar yr adeg hynod heriol hon.

21 O ganlyniad, byddwn yn ceisio sicrhau, lle bynnag y bo modd, nad yw ein gwaith archwilio yn cael effaith andwyol ar y corff cyhoeddus a'i staff ar adeg pan fo gwasanaethau cyhoeddus o dan bwysau ac yn canolbwyntio

ar faterion pwysicach. Byddwn yn parhau i fod mor gefnogol a hyblyg â phosibl wrth gyflawni ein gwaith. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyrff cyhoeddus i gytuno sut y byddwn yn cynnal ein cyfweliadau a'n gwaith maes. Er ein bod yn ymwybodol na ddylai ein harchwiliad amharu ar waith pwysig cyrff cyhoeddus ar yr adeg dyngedfennol hon, credwn hefyd y gall ychwanegu gwerth a dirnadaeth i gefnogi sefydliadau i fod yn fwy cydnerth.

22 Caiff yr holl grwpiau ffocws a chyfweliadau eu darparu gan staff Archwilio Cymru gyda gwaith maes wedi'i sefydlu drwy dîm y prosiect a chydweithwyr lleol Archwilio Cymru. Caiff yr arolwg ffôn defnyddwyr gwasanaeth ei ddarparu gan gwmni ymchwil trydydd parti a gomisiynwyd gan Archwilio Cymru. Bydd yr allbynnau ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys adroddiad cenedlaethol yn crynhoi ein canfyddiadau allweddol a data a gyhoeddir yn agored lle y gallai helpu i gefnogi gwelliant.

23 Byddwn yn tynnu sylw at arfer nodedig ac yn datblygu deunyddiau cymorth i gefnogi gwelliant.

24 Byddwn yn sicrhau bod materion yn ymwneud â chydraddoldeb a’r Gymraeg yn ganolog i'n hastudiaeth.

Adolygu dogfennau a data

25 Byddwn yn cynnal adolygiad o'r dogfennau a'r data a restrir yn **Arddangosyn 2**. Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol a gellir gwneud ceisiadau am ddogfennau ychwanegol yn ystod yr adolygiad.

26 Mae rhai o'r dogfennau **yn Arddangosyn 2** ar gael i'r cyhoedd. Byddwn yn lawrlwytho'r rhain lle bo modd ac yn cysylltu â'r cyswllt enwebedig ym mhob awdurdod dim ond i weld at y rhai nad ydynt ar gael i'r cyhoedd fel arall.

27 Ymdrinnir ag unrhyw ddogfennaeth a data yn unol â'n polisi rheoli data a phreifatrwydd a chânt eu trin â'r gofal a'r sensitifrwydd mwyaf. Caiff cyfarwyddiadau a chanllawiau pellach eu darparu i gyswllt enwebedig pob awdurdod lleol o ran data personol unigolion, unrhyw ddogfennau nad ydym wedi gallu eu canfod ar-lein, ac i drefnu trosglwyddiad diogel.

Arddangosyn 2: mae'r tabl isod yn nodi'r dogfennau a'r data y byddwn yn eu hadolygu fel rhan o'r astudiaeth (lle bo modd, byddwn yn cael yr wybodaeth hon yn fewnol neu drwy ffynonellau sydd ar gael i'r cyhoedd).

Dogfennau	Data
• Polisi Taliadau Uniongyrchol Lleol. • Canllawiau Taliadau Uniongyrchol Lleol a ddarperir i ymarferwyr gwaith cymdeithasol. • Canllawiau Taliadau Uniongyrchol Lleol a ddarperir i swyddogion cyllid. • Manylion unrhyw adolygiadau neu werthusiad o effaith ac effeithiolrwydd Taliadau Uniongyrchol ers mis Ebrill 2016. • Manylion unrhyw gyfraddau y cytunwyd arnynt yn lleol ar gyfer Taliadau Uniongyrchol a thystiolaeth o sut y penderfynwyd ar hyn. • Dogfennau tendro a ddefnyddir wrth benodi cyflenwyr allanol i ddarparu cymorth gweinyddol Taliadau Uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth. Os caiff y swyddogaeth hon ei chyflawni'n uniongyrchol gan y cyngor, dylech gynnwys y cynllun gwasanaeth perthnasol a'r achos busnes dros ddarparu hwn yn fewnol. • Unrhyw ganllawiau penodol ynglŷn â COVID-19 a gwybodaeth gyhoeddus sy'n ymwneud â Thaliadau Uniongyrchol. • Cylch Gorchwyl y Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cenedlaethol a chofnodion cyfarfodydd. • Unrhyw adroddiadau blaenorol perthnasol gan gyrff arolygu a rheoleiddio eraill.	• Unrhyw ddangosyddion perfformiad a gesglir yn lleol sy'n ymwneud â darparu Taliadau Uniongyrchol. • Enw'r sefydliad a gomisiynwyd i ddarparu cymorth gweinyddol Taliadau Uniongyrchol ar ran y cyngor (os yw'n berthnasol) a manylion cyswllt perthnasol. • Manylion pob oedolyn sydd wedi derbyn taliadau uniongyrchol gan bob awdurdod ers mis Ebrill 2016. Manylion ynglŷn â phob unigolyn i gynnwys: – Dyddiad geni – Angen a nodwyd – Rhif ffôn (y defnyddiwr gwasanaeth neu'r eiriolwr) – Taliadau a dderbyniwyd (a gafwyd lle y bo'n bosibl o gyfrifon ariannol awdurdodau y bu Archwilio Cymru yn craffu arnynt at ddibenion archwilio ariannol)

Cysylltiadau Archwilio Cymru

Arddangosyn 3: Cysylltiadau Archwilio Cymru

Mae'r tabl isod yn nodi tîm Archwilio Cymru a fydd yn gweithio ar yr adolygiad hwn.

Enw	Manylion cyswllt
Cyfarwyddwr Archwilio	Huw Rees
Rheolwr Archwilio	Nick Selwyn
Tîm archwilio	Philippa Dixon Euros Lake Matthew Brushett

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Briff Prosiect: Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio – Cyngor Sir Ceredigion

Dyddiad Cyhoeddi: Mawrth 2021

Cefndir

1 Yn dilyn ein gwaith Sicrwydd a Risg yn 2019-20 a 2020-21, cytunwyd â'r Cyngor i gynnal adolygiad o'u Gwasanaeth Cynllunio.

Beth fydd yr archwiliad yn edrych arno?

2 Bydd yr adolygiad yn rhoi sicrwydd a mewnwelediad i weld a yw'r Gwasanaeth Cynllunio yn cyflawni ei amcanion yn effeithiol ac yn gynaliadwy ac yn cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor.

3 Yn ein gwaith byddwn hefyd yn ystyried darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Gwasanaeth Cynllunio ac i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddarparu'r Gwasanaeth. Bydd y gwaith yn cynnwys adolygiad o berfformiad y Gwasanaeth Cynllunio.

Sut bydd yr archwiliad yn cael ei gynnal?

4 Bydd ein gwaith yn cynnwys adolygiad o ddogfennau a chyfweliadau gyda swyddogion ac aelodau. Byddwn hefyd yn arsylwi ar gyfarfodydd perthnasol.

Beth fydd yr allbwn?

5 Byddwn yn cytuno â'r Cyngor ar y ffordd orau o adrodd canfyddiadau ein gwaith a byddwn yn darparu allbwn cryno.

Dogfennau yr hoffem eu hadolygu

6 Gofynnwn am gopïau o'r holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r adolygiad gan gynnwys:

- Strategaeth Gorfforaethol
- Cynlluniau Busnes y Gwasanaeth Cynllunio ar gyfer y tair blynedd diwethaf
- Data perfformiad ar gyfer y Gwasanaeth ar gyfer y tair blynedd diwethaf
- Cofrestr Risg Gorfforaethol
- Cofrestr Risg Gwasanaeth
- Cyllideb adrannol ar gyfer y tair blynedd diwethaf
- Adroddiadau perthnasol ar ddarpariaeth a pherfformiad y Gwasanaeth Cynllunio yn ystod y tair blynedd diwethaf gan gynnwys i'r Grŵp Arwain, y Cyngor, y Cabinet, y Panel Perfformiad, Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllgor Archwilio
- Ymateb y Gwasanaeth Cynllunio i COVID-19 e.e. cynnydd yn erbyn Cam 3 COVID-19 y Cyngor: Cynllun Addasu a Chydnerthedd Hirdymor
- Unrhyw arolygon cwsmeriaid sydd wedi'u cynnal gan y Gwasanaeth Cynllunio
- Cynllun Dirprwyo
- Deunyddiau hyfforddi ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu
- Crynodeb o'r rhesymau pam y mae'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn caniatáu ceisiadau yn erbyn cyngor swyddogion

Amserlen a chysylltiadau

7 Bwriedir gwneud ein gwaith rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mai 2021. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r pwysau presennol ar swyddogion ac aelodau ac, os oes angen, byddwn yn addasu ein cynlluniau yn unol â hynny.

8 Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar yr adolygiad hwn, cysylltwch â

- Nigel Griffiths – nigel.griffiths@archwilio.cymru
- Bethan Hopkins – bethan.hopkins@archwilio.cymru

Sail ddeddfwriaethol ar gyfer yr adolygiad

9 Mae'r prosiect hwn yn cael ei gynnal i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd lywio astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004, a/neu archwiliad a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

10 Mae **Atodiad 1** yn cynnwys hysbysiad preifatrwydd sy'n rhoi gwybodaeth am y posibilrwydd o gasglu gwybodaeth bersonol gan yr Archwilydd Cyffredinol yn rhan o'r gwaith hwn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

Atodiad 1

Archwilydd Cyffredinol Cymru – Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych sut mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a staff Archwilio Cymru yn prosesu gwybodaeth bersonol a gesglir mewn cysylltiad â'n gwaith sy'n cynnwys gwaith archwilio a gwaith proffesiynol, technegol neu weinyddol arall.

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Mae gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnwys archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, ac mae Archwilio Cymru yn darparu'r staff a'r adnoddau i'w alluogi i gyflawni ei waith.

Swyddog Diogelu Data

Ein Swyddog Diogelu Data yw Martin Peters, y gellir cysylltu ag ef dros y ffôn ar 029 2032 0500 neu drwy e-bostio: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Y cyfreithiau perthnasol

Rydym yn prosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu yw'r pwerau a'r dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Deddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Pwy fydd yn gweld y data?

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a thîm astudiaeth Archwilio Cymru yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth y byddwch yn ei rhoi. Efallai y byddwn yn rhannu rhywfaint o wybodaeth gydag uwch reolwyr yn y corff/cyrff a archwilir. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu rhywfaint o ddata â rheoleiddwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, er enghraifft Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, pan fo'r gyfraith yn caniatáu hyn.

Am ba hyd y byddwn yn cadw'r data

Byddwn yn cadw eich data am chwe blynedd (neu 25 mlynedd os caiff ei gynnwys mewn adroddiad wedi'i gyhoeddi).

Ein hawliau

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol hawliau i gael gwybodaeth, esboniad a chymorth o dan baragraff 17 o atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a/neu adran 52 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a/neu adran 26 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru)

2009. Gall fod yn drosedd, sy'n cael ei chosbi gan ddirwy, i berson fethu â darparu gwybodaeth.

Eich hawliau

Mae gennych hawliau i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol gyfredol a gedwir amdanoch ac i wrthwynebu prosesu data sy'n achosi difrod a gofid di-angen a sylweddol. I gael copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch neu i drafod unrhyw wrthwynebiadau neu bryderon, ysgrifennwch at y Swyddog Gwybodaeth, Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ neu e-bostiwch swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru. Gallwch hefyd gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data yn y cyfeiriad hwn.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am gyfraith diogelu data neu i gwyno am sut rydym yn ymdrin â'ch data personol, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF, neu drwy e-bost yn casework@ico.gsi.gov.uk neu dros y ffôn 01625 545745.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Cyfeirnod: 2186A2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2020

Asesu Cynaliadwyedd Ariannol 2020-21: Briff y Prosiect

Pwrpas

1 Nodau'r prosiect yw:

- Esbonio, o safbwynt annibynnol, effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol awdurdodau lleol a'r effaith a ragwelir wrth symud ymlaen (gan gynnwys nodi risgiau allweddol i gynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr a'r tymor canolig);
- cael sicrwydd bod awdurdodau lleol yn rhoi trefniadau priodol yn eu lle i gynnal cynaliadwyedd ariannol yng ngoleuni pandemig COVID-19 sy'n parhau; a
- nodi ymarfer nodedig o ran cwrdd â'r heriau ariannol sy'n gysylltiedig â COVID-19, o fewn Cymru ac mewn mannau eraill hefyd, y gellir eu hailadrodd mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Sail Ddeddfwriaethol

2 Cynhelir y prosiect hwn er mwyn bod o gymorth i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac efallai y bydd yn darparu gwybodaeth ar gyfer astudiaeth ynghylch gwella gwerth am arian dan adran 41 o Ddeddf 2004, a/neu archwiliad sy'n cael ei gynnal gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Prosesu Data Personol

3 Pan fyddwn yn prosesu data personol, bydd hyn yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein hysbysiad prosesu teg sydd ynghlwm yn **Atodiad 1.** Gofynnwn i chi rannu'r briff prosiect hwn gydag unrhyw swyddogion ac aelodau y byddwn yn eu cyfweld neu'n cyfarfod â hwy fel rhan o'r gwaith hwn. Bydd hyn yn gymorth i sicrhau eu bod yn deall pwrpas ein hadolygiad a sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwn.

Dull Gweithredu

4 Yn unol â'n hymrwymiad ehangach ar hyn o bryd, byddwn yn dilyn dull gweithredu sy'n ceisio lleihau'r baich ar gynghorau lleol tra byddant yn delio â'r pandemig a'i effaith.

5 Buom yn gweithio gyda Chymdeithas Trysoryddion Cymru, CLILC a Llywodraeth Cymru wrth gynllunio'r adolygiad hwn.

6 Y prosiect hwn yw ail ran (Cyfnod 2) ein hadolygiad o gynaliadwyedd ariannol mewn cynghorau yng Nghymru. Nodir isod y dull a ddilynwyd gennym yng Nghyfnod 1, a'r dull y byddwn yn ei ddilyn yng Nghyfnod 2.

Cyfnod 1 – asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol awdurdodau lleol

7 Asesiad sylfaenol oedd Cyfnod 1 o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol awdurdodau lleol. Defnyddiodd:

- y sefyllfa ddiwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20;
- y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac
- amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 ar gyfer 2020-21.

8 Cyhoeddwyd yr adroddiad cryno cenedlaethol ym mis Hydref 2020 (*cynnwys dolen*). Roedd yr adroddiad yn cynnwys sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd 2019-20, peth sylwebaeth ar themâu a materion allweddol oedd yn codi o'r pandemig, yn ogystal â phwysau'r galw.

Cyfnod 2 – Bydd hwn yn defnyddio'r sefyllfa a'r themâu a nodwyd yn ystod Cyfnod 1 ac yn canolbwyntio ar gynllunio ariannol ym mhob cyngor

9 Cynhelir Cyfnod 2 y gwaith cynaliadwyedd ariannol dros weddill 2020-21. Bydd y gwaith hwn yn defnyddio'r sefyllfa a'r themâu a nodwyd yn ystod Cyfnod 1 yn ogystal â chanolbwyntio ar gynllunio ariannol.

10 Mae'r dull o ymdrin â Chyfnod 2 yn debygol o fod yn ailadroddus ac yn barhaus. Bydd y gwaith ym mhob cyngor yn cynnwys cyfuniad o adolygu dogfennau, nifer fechan o gyfweliadau ac arsylwadau.

11 Fan leiaf, hoffem siarad â Swyddog Adran 151 y Cyngor fel rhan o'r adolygiad, ac efallai y byddwn hefyd yn dymuno siarad ag aelodau perthnasol o'r cabinet a/neu uwch swyddogion allweddol eraill. Bydd timau archwilio lleol Archwilio Cymru yn trafod manylion penodol pwy yr hoffem eu cyfweld, ac os bydd gennym unrhyw geisiadau am ddogfennau, drwy ein sianeli cyswllt arferol.

12 Lle bynnag y bo modd, byddwn yn dod o hyd i ddogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd er mwyn lleihau'r effaith ar staff y cyngor. Byddwn hefyd yn ystyried ymateb y Cyngor i arolwg Cynllunio Ariannol CLILC a gyhoeddwyd i gynghorau ar 16 Tachwedd 2020. Mae CLILC wedi cytuno i rannu ymatebion cynghorau â ni.

13 Byddwn hefyd yn ceisio darparu adborth mewn amser real a/neu'n rheolaidd pan fyddwn yn meddwl bod hyn yn briodol ac yn fuddiol gan gynnwys, lle bo modd, rhannu enghreifftiau nodedig o ymarfer o fannau eraill.

14 Ar ddiwedd Cyfnod 2 byddwn yn cynhyrchu allbwn lleol ar gyfer pob cyngor yn crynhoi ein canfyddiadau.

15 Byddwn hefyd yn cynhyrchu adroddiad cryno cenedlaethol ar ddiwedd Cyfnod 2 yn myfyrio ar y sefyllfa a'r materion a nodwyd yn adroddiad cryno Cyfnod 1 ac i ba raddau y mae'r sefyllfa honno wedi newid yn ystod 2020-21. Mae'r adroddiad cryno hefyd yn debygol o roi sylwadau ar heriau a risgiau yn y dyfodol yn ogystal â thynnu sylw at ymarfer nodedig o Gymru neu leoedd eraill.

Canolbwynt Cyfnod 2

16 Yn ystod y gwaith lleol ym mhob Cyngor ein bwriad yw canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- y bwlch ariannu rhagamcanol dros y tymor canolig.
- cynlluniau i gau'r bwlch ariannu gan gynnwys y strategaeth ariannol gyffredinol a chynlluniau arbedion.
- costau rhagamcanol y pandemig yn ystod 2020-21 a 2021-22 ym mhob cyngor – gan gynnwys yr incwm a gollwyd a gwariant ychwanegol. Bydd hyn yn cynnwys y costau gwirioneddol hyd yma, a'r amcanestyniadau ar adeg cytuno ar gyllideb 2021-22.
- cynnydd o ran cyflawni'r arbedion a nodwyd ar gyfer 2020-21 a 2021-22 ymlaen, lle mae'r wybodaeth ar gael.
- dadansoddiad o bwysau'r galw allweddol a sut y cyfrifir y rhain.
- dadansoddiad o batrymau allweddol gorwario/tanwario a chamau lliniaru.
- archwilio elfennau ariannol cynlluniau adfer a/neu gynlluniau ymateb (os byddant yn berthnasol/yn dibynnu ar gwrs y pandemig).

17 Y data y bwriadwn ei goladu a'i gynnwys mewn adroddiadau lleol a chenedlaethol yn gyson, gan gynnwys cymariaethau, yw:

- lefelau'r cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio.
- y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio fel cyfran o gost net gwasanaethau.
- bylchau ariannu a nodwyd ar gyfer pob cyngor dros y tair blynedd nesaf. Er mwyn sicrhau cymaroldeb byddwn yn cyfrifo gan ddefnyddio

amcanestyniadau'r cynghorau eu hunain ond gan ddefnyddio diffiniadau a thybiaethau cyffredin a chyson, lle bo'n berthnasol. Cymerir mai'r bwlch ariannu ar yr adeg y bydd pob cyngor yn cymeradwyo cyllideb 2021-22 fydd y dyddiad cyson i ddibenion cymharu.

- y bylchau ariannu a nodwyd o'u cymharu â chost net gwasanaethau.
- cyflawni yn erbyn gwariant refeniw.
- cymhareb/hylifedd cyfalaf gweithio – gan gynnwys cyfanswm asedau cyfredol/cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol.
- amcangyfrif o'r costau a'r colledion incwm sy'n gysylltiedig â COVID-19 ar gyfer 2020-21.

Amserlen ar gyfer Cyfnod 2

18 Bydd casglu tystiolaeth ar gyfer Cyfnod 2 yn adeiladu ar ein hymgysylltiad parhaus â'r cyngor drwy ein gwaith cynllunio adferiad, archwilio cyfrifon a gwaith sicrwydd ac asesu risg. Rhagwelwn y bydd unrhyw gyfweliadau a gynhelir gennym ar gyfer y prosiect hwn yn benodol yn digwydd ym mis Ionawr/Chwefror 2021 a'r allbwn lleol yn cael ei gyhoeddi tua mis Ebrill 2021, er y darperir adborth rheolaidd, fel y soniwyd uchod, pan fo'n briodol.

19 Y 'pwynt terfyn' bras ar gyfer casglu tystiolaeth fydd yr adroddiad terfynol i'r cyngor ynghylch pennu'r gyllideb ym mhob cyngor. Dyma'r dyddiad y byddwn yn dod i gasgliadau ynglŷn â chynaliadwyedd ariannol pob cyngor.

20 Cyhoeddir yr ail adroddiad cenedlaethol cryno (Cyfnod 2) yn haf 2021 a bydd yn cyfuno ac yn crynhoi ein canfyddiadau o waith lleol ym mhob cyngor yn ogystal â dod i gasgliadau ynghylch y darlun cenedlaethol ar gyfer llywodraeth leol yn ei chyfanrwydd, gan gymryd i ystyriaeth y sefyllfa ddiwedd blwyddyn ar gyfer 2020-21.

Atodiad 1

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2020

Archwilydd Cyffredinol Cymru – Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych sut mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn prosesu gwybodaeth bersonol a gesglir mewn cysylltiad â'n gwaith, sy'n cynnwys gwaith archwilio a gwaith proffesiynol, technegol neu weinyddol arall.

Pwy ydym a'r hyn yr ydym yn ei wneud

Mae gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnwys archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu'r staff a'r adnoddau i'w alluogi i gyflawni ei waith.

Swyddog Diogelu Data (SDD)

Ein Swyddog Diogelu Data yw Martin Peters, y gellir cysylltu ag ef dros y ffôn ar 029 2032 0500 neu drwy'r e-bost yn: infoofficer@audit.wales

Y cyfreithiau perthnasol

Rydym yn prosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu yw'r pwerau a'r dyletswyddau statudol dan ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Deddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Pwy fydd yn gweld y data?

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a thîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu gweld y wybodaeth a roddwch. Efallai y byddwn yn rhannu rhywfaint o wybodaeth ag uwch reolwyr yn y corff/cyrff a archwilir ac efallai y bydd ein hadroddiad cyhoeddedig yn cynnwys peth gwybodaeth. Efallai y byddwn yn rhannu rhywfaint o ddata â rheoleiddwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, megis Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, lle bydd y gyfraith yn caniatáu hyn.

Pa mor hir y byddwn yn cadw’r data

Byddwn yn cadw eich data am chwe blynedd (neu 25 mlynedd os caiff ei gynnwys mewn adroddiad cyhoeddedig).

Ein hawliau ni

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol hawliau i gael gwybodaeth, esboniad a chymorth dan baragraff 17 o Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a/neu adran 52 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a/neu adran 26 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall fod yn drosedd, y gellir ei chosbi drwy ddirwy, i berson fethu â rhoi gwybodaeth.

Eich hawliau chi

Mae gennych chi hawliau i ofyn am gopi o’r wybodaeth bersonol gyfredol a gedwir amdanoch ac i wrthwynebu prosesu data sy’n achosi niwed a gofid direswm a sylweddol.

I gael copi o’r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chadw amdanoch neu drafod unrhyw wrthwynebiadau neu bryderon, ysgrifennwch at y Swyddog Gwybodaeth, Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ neu anfonwch e-bost at: infoofficer@audit.cymru. Gellwch hefyd gysylltu â’n Swyddog Diogelu Data yn y cyfeiriad hwn.

Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am gyfraith diogelu data neu i gwyno am y ffordd yr ydym yn ymdrin â’ch data personol, gellwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF, neu drwy’r e-bost yn casework@ico.gsi.gov.uk neu dros y ffôn 01625 545745.

Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cynghorydd Elizabeth Evans
Cyngor Sir Ceredigion
Neuadd Cyngor Ceredigion Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

Cyfeirnod: HR21-03

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mai 2021

Annwyl Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Adroddiadau ac Argymhellion Archwilio Cymru

Gobeithio eich bod yn cadw'n iach.

Efallai eich bod yn cofio bod rhai o staff Archwilio Cymru wedi dod i gyfarfod rhwydwaith cadeiryddion Pwyllgor Archwilio Cymru ddiwedd mis Tachwedd 2020 i sôn am y goblygiadau i bwyllgorau archwilio o ganlyniad i'r hyn a oedd bryd hynny y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Yn y sesiwn hon, fe wnaethom grybwyll yn fyr hefyd ein disgwyliad bod pwyllgorau archwilio yn mynd ati i ystyried ein hadroddiadau yn ymarferol. Diben y llythyr hwn yw egluro ac ehangu ar hyn.

Fel y gwyddoch, mae ein gwaith archwilio perfformiad yn cynnwys astudiaethau cenedlaethol, astudiaethau llywodraeth leol (fel ein hadroddiad diweddar am wasanaethau yn ôl disgresiwn), gwaith thematig (fel ein hasesiadau cynaliadwyedd ariannol) a gwaith sy'n fwy seiliedig ar risg yn lleol. Rydym yn ymgynghori â chyrff archwiliedig ynghylch pynciau posibl ar gyfer ein hastudiaethau llywodraeth genedlaethol a lleol, a phenderfynir ar ein gwaith lleol sy'n seiliedig ar risg drwy ein proses sicrhau ac asesu risg. Nodir ein rhaglen waith ar gyfer pob cyngor yn ein cynlluniau archwilio blynyddol.

Rydym wedi canfod bod dulliau cynghorau o ymdrin â'n hadroddiadau archwilio perfformiad, cynigion ar gyfer gwella ac argymhellion astudiaethau Llywodraeth Leol yn amrywio. Mae dulliau cynghorau yn amrywio o adolygiadau rheolaidd, tracwyr archwilio a chynlluniau gweithredu i adroddiadau ac argymhellion nad ydynt ond yn cael eu gweld pan fyddwn yn cyflwyno ein crynodeb archwilio blynyddol. Felly, nid ydym yn hyderus bod pob cyngor yn gyson yn ystyried canfyddiadau ein hadroddiadau yn ymarferol.

O gofio mai swyddogaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor, byddem yn disgwyl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob cyngor ystyried pob adroddiad ar gyrff adolygu allanol yn ffurfiol – yn bennaf; Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, byddem yn disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt. Dylai'r pwyslais yn hyn o beth fod ar ddwyn swyddogion gweithredol a swyddogion i gyfrif er mwyn sicrhau y gweithredwyd ar adroddiadau ac argymhellion. Gall rhai o'n hadroddiadau fod yn berthnasol i'w hystyried gan bwyllgorau craffu hefyd.

Er mwyn helpu cynghorau i wneud hyn, bydd gennym ddull sydd wedi ei dargedu'n well ar gyfer dosbarthu adroddiadau terfynol wrth gyhoeddi, nodi ein disgwyliadau o ran sut y dylai cynghorau ymdrin â'n hargymhellion a darganfod pa un a yw'r disgwyliadau hyn wedi'u bodloni. Hefyd, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), mae’n rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru lunio amserlen sy'n nodi'r dyddiadau neu'r cyfnodau pan fydd Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn ymgymryd â'u gwaith. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r amserlen hon i gynghorau ac i gadeiryddion y Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio bob chwarter. Nid ydym yn bwriadu cyflwyno hyn yn ffurfiol i Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio bob chwarter ond byddwn yn cydgysylltu â chynghorau i drafod ein dull gweithredu lleol.

Bydd staff Archwilio Cymru yn parhau i weithio'n hyblyg i gyflawni ein rhaglen waith. Mewn ymateb i unrhyw gyngor gan y llywodraeth a chyfyngiadau dilynol, byddwn yn parhau i weithio o bell, gan adeiladu ar y trefniadau a wnaed yn 2020, tan y bydd yn ddiogel i ailddechrau cyflawni gweithgareddau ar y safle. Rwyf yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau na fydd gwaith staff Archwilio Cymru yn amharu ar y gweithgareddau hanfodol y mae angen i gyrff cyhoeddus eu gwneud i ymateb i’r heriau parhaus a gyflwynir gan y pandemig COVID-19.

Gobeithio y bydd y llythyr hwn o gymorth i chi. Cysylltwch â'n tîm lleol os oes gennych unrhyw anghenion neu bryderon penodol.

Yn gywir

Huw Rees

Cyfarwyddwr Archwilio

Archwilio Cymru
Audit Wales

Rheoli fersiynau: Dyddiedig 25 Mai 2021

Cyngor Sir Ceredigion – Crynodeb o gynnydd rhaglenni gwaith Archwilio Cymru

Rhaglen Waith Archwilio Perfformiad 2021-22

Prosiect	Disgrifiad o'r gwaith	Nodiadau ychwanegol gan gynnwys amserau, cynnydd a diweddariadau
Sicrwydd ac Asesu Risg	Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu pryd y gallai rhagor o waith archwilio fod yn ofynnol yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i waith y Cyngor o roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.	• Mae disgwyl i'r gwaith ddechrau ym mis Mai 2021 ac yna bydd gwaith yn parhau yn ystod 2021-22 i ddeall a chael sicrwydd o sefyllfa'r cyngor ar draws meysydd gwasanaeth a threfniadau llywodraethu. • Mae themâu a phwyslais allweddol yn cynnwys: – sefyllfa ariannol; – cynllun adfer; – datblygu trefniadau hunanasesu; – dyletswyddau newydd eraill sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan gynnwys cyflwyno cydbwyllgorau corfforaethol; a – chynlluniau newid yn yr hinsawdd / lleihau carbon. • Mae gwaith sicrwydd ac asesu risg yn cynnwys ymgysylltiad parhaus â'r Cyngor. • Bydd canlyniadau gwaith sicrwydd ac asesu risg ar y themâu a restrir uchod yn cael eu trafod yn fanylach â'r Cyngor yn barhaus a byddant wedi'u seilio ar ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg. Hefyd, bydd cyflwyniad yn crynhoi'r canfyddiadau cyffredinol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol tua dechrau 2022.

		• Mae gwaith sicrwydd ac asesu risg yn cynnwys cydweithio ac ymgysylltu â rheoleiddwyr ac arolygiaethau i gael sicrwydd o'r prif risgiau i'r cyngor. Bydd gwybodaeth a dealltwriaeth o waith sicrwydd ac asesu risg yn allweddol wrth asesu cynlluniau gwaith archwilio 2022-23.
Llamu Ymlaen – Archwilio'r blociau adeiladu ar gyfer dyfodol cynaliadwy	Gwaith thematig – Wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn yn ystyried pa mor effeithiol yw'r cynghorau wrth gryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal darpariaeth gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol a chymunedau.	• Bwriedir cwblhau'r gwaith rhwng mis Medi 2021 a mis Mawrth 2022. • Bydd rhagor o fanylion yn dilyn a bydd y pwyslais yn cael ei drafod gyda'r Cyngor maes o law.
Rheoli Perfformiad	Bydd y Cyngor yn adolygu ei drefniant Rheoli Perfformiad a byddwn yn gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor.	• Bwriedir gweithio ochr yn ochr ag adolygiad rheoli perfformiad y Cyngor ei hun yn ystod 2021-22.
Asesu perfformiad	Archwilio i gyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad.	• Bwriedir cwblhau'r gwaith a chyflwyno tystysgrif yn dilyn cyhoeddiad y Cyngor o'r ddogfen. • Hon fydd y flwyddyn olaf ar gyfer y math hwn o archwiliad, gan y diddymwyd Mesur 2009 i raddau helaeth o 1 Ebrill 2021 ymlaen ac ni fydd yn ofynnol i ni 'archwilio' y ddogfen ac adrodd/cyflwyno tystysgrif fel y bu'n ofynnol mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r elfennau adrodd ôl-weithredol ar berfformiad o dan Adran 15 o Fesur 2009 yn parhau i fod yn berthnasol i 2020-21, a dyletswydd Archwilydd Cyffredinol Cymru i 'archwilio' adroddiad o'r fath o dan Adran 17 ac adrodd ar hynny o dan Adran 19 yn yr un modd.

Crynodeb Archwilio Blynyddol	Hwn yw ein crynodeb archwilio ar gyfer Ceredigion. Mae'n dangos y gwaith a wnaed ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf. Mae ein crynodeb archwilio yn ffurfio rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.	• Bwriedir cwblhau'r gwaith tua mis Hydref/Tachwedd 2021 • Bydd y ddogfen yn crynhoi'r gwaith a wnaed yn ystod 2020-21 gan gynnwys crynodeb archwilio ariannol o waith, crynodeb archwilio perfformiad o gyhoeddiadau, crynodeb arolygiaethau/rheoleiddwyr ac astudiaethau cenedlaethol.
Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)	Rhagor o fanylion i ddilyn	• Dull ac amserau i'w cadarnhau • Bydd rhagor o fanylion yn dilyn a bydd y pwyslais yn cael ei drafod gyda'r Cyngor maes o law.

Rhaglen Waith Archwilio Ariannol 2020-21

Gwaith	Rhagor o wybodaeth
Archwilio datganiadau ariannol y Cyngor	**Ein hamcan yw darparu:** • barn ar 'wirionedd a thegwch' datganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021; ac • asesiad o ba un a yw Adroddiad Naratif y Cyngor a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'u paratoi yn unol â Chod CIPFA a'r canllawiau perthnasol ac a ydynt yn gyson â'r datganiadau ariannol ac â fy ngwybodaeth i o'r Cyngor. **Cynnydd a nod yr archwiliad:** • Mae gwaith archwilio interim yn parhau. • Disgwylir datganiadau ariannol drafft ym mis Mehefin/Gorffennaf 2021 • Bwriedir cyflwyno'r archwiliad terfynol rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2021 • Adroddiad o'r Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol (adroddiad ISA 260) Tachwedd 2021 • Barn ar y Datganiadau Ariannol erbyn 30 Tachwedd 2021 **Materion Presennol:** **Pryderon ynglŷn â'r archwiliad o waith ailbrisio asedau y Cyngor:** Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi adrodd anawsterau ers sawl blwyddyn o ran ein harchwiliad o waith ailbrisio asedau, gan gynnwys oedi mewn ymateb i ymholiadau, trywydd archwilio annigonol a diffyg Sicrwydd Ansawdd effeithiol. Yn ôl ein harfer fe wnaethom drefnu i gynnal profion cynnar yn y maes hwn gan ddechrau 18 Ionawr 2021. Fodd bynnag: • ddydd Gwener 15 Ionawr 2021 (un diwrnod gwaith cyn yr oedd disgwyl i'n staff ddechrau), dywedwyd wrthym nad oedd y prisiadau yn barod. Ni chafwyd unrhyw ymatebion i'n gohebiaeth ynglŷn ag aildrefnu felly bu'n rhaid tynnu ein staff yn ôl ar 21 Ionawr 2021. • ar 11 Mawrth 2021 fe wnaethom gyfarfod â'r swyddog adran 151 ac Ystadau o nodi ein pryderon ond er gwaethaf sicrwydd gan Ystadau, ni chawsom unrhyw ymateb gan Ystadau i'n ceisiadau i gynnal archwiliad ym mis Medi. Fe wnaethom uwchgyfeirio'r sefyllfa i'r Prif Weithredwr ar 22 Ebrill 2021 i gyfleu ein pryderon ynglŷn â chynnydd ond yn bwysicach ynglŷn â diffyg cyfathrebu ac ymgysylltu gan Ystadau. • Fe wnaethom gwrdd ag Ystadau ar 26 Ebrill 2021, ac roedd y Dirprwy Brif Weithredwr yn bresennol. Cytunwyd ar ddyddiadau mis Medi i wneud y gwaith archwilio.

	Mae swyddogion wedi rhoi sicrwydd i ni y bydd y tîm Ystadau yn sicrhau cyfathrebu ac ymgysylltu da o hyn ymlaen a bod trefn Sicrwydd Ansawdd fewnol fwy cadarn ar waith. Fodd bynnag, mae'r oedi i'r dyddiad yn golygu ein bod mewn sefyllfa waeth o ran cynnydd archwilio nag mewn blynyddoedd blaenorol ac mae hyn, ynghyd â materion hanesyddol yn y rhan allweddol hon o'r archwiliad yn cynyddu'r risg na fyddwn yn bodloni'r terfyn amser o fis Tachwedd. **Pryderon ynglŷn â chyfathrebu:** Mae cofnodion o gyfarfod mis Chwefror 2021 y Pwyllgor Archwilio yn nodi "Codwyd pryderon ynghylch y pwysau a roddwyd gan Archwilio Cymru i gwblhau'r Datganiad Cyfrifon yn gynharach, o ystyried na chafwyd setliad y Cyngor tan fis Mawrth". Rydym wedi ein siomi i nodi hyn a hoffem fod yn glir na fu unrhyw bwysau gan Archwilio Cymru ynglŷn â chynnal yr archwiliad yn gynharach: rydym wedi gohirio gwaith mewn ymateb i'r pwysau ar staff ers dechrau pandemig COVID, gan gynnwys symud yr archwiliad o ddatganiadau ariannol 2020-21 o fis Mehefin/Gorffennaf i fis Medi/Hydref 2021.
Archwiliad o Ddatganiad Blynyddol Awdurdod Harbwr Ceredigion	**Mae gwaith yn cynnwys:** • Barn ar ba un a yw'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Datganiad Blynyddol yn cyd-fynd ag arferion priodol ac ni thynnwyd ein sylw at unrhyw faterion sy'n peri pryder i ni na fodlonwyd gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol perthnasol. **Dyddiadau archwilio arfaethedig:** • Bydd gwaith archwilio yn cael ei wneud rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2021 ar ôl derbyn y Datganiad Blynyddol drafft ym mis Mehefin/Gorffennaf 2021 a bydd yr archwiliad yn cael ei gymeradwyo erbyn 30 Tachwedd 2021.
Ardystio nifer o geisiadau a ffurflenni grant yn unol â chytundeb â'r cyrff ariannu	Disgwylir i nifer yr hawliadau grant y mae angen eu harchwilio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020-2021 fod yn unol â'r rhai a archwiliwyd yn 2019-20. Disgwylir i'r gwaith archwilio gael ei wneud rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2021.

Rhaglen Waith Archwilio Perfformiad 2020-21 – Crynodeb

Prosiect	Cynnydd cyffredinol
Sicrwydd ac Asesu Risg	Wedi'i gwblhau
Dysgu/Adfer ar ôl COVID-19	Wedi'i gwblhau
Crynodeb Archwilio Blynyddol	Wedi'i gwblhau. Dolen ar gael YMA
Cynaliadwyedd Ariannol	Ar y cam adroddiad drafft. Yn cael ei gymeradwyo'n fewnol ar hyn o bryd. Bwriedir ei rannu â'r Cyngor ym mis Mehefin 2021
Adolygiad o Wasanaethau Cynllunio	Mae'r gwaith hwn ar y gweill a bydd nod i'w gwblhau tua dechrau haf 2021.

Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru:

Adroddiadau Cenedlaethol Diweddar ac Ar Ddod gan Archwilio Cymru	Dyddiad cyhoeddi a dolen os yw wedi'i gyhoeddi
Prosiect Dysgu o COVID	Cyhoeddiad parhaus o allbynnau ar gael YMA
Profi, Olrhain a Diogelu	Cyhoeddwyd Mawrth 2021. Dolen ar gael YMA
Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol	Cyhoeddwyd Ebrill 2021. Dolen ar gael YMA.
Cynllun Blynyddol Archwilio Cymru 2021-22	Cyhoeddwyd Ebrill 2021. Dolen ar gael YMA.
Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19	Cyhoeddwyd Ebrill 2021. Dolen ar gael YMA.
Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru	Cyhoeddwyd Mai 2021. Dolen ar gael YMA.
Darlun o wasanaethau cyhoeddus	Disgwylir ei gyhoeddi Haf 2021
Adroddiad Cenedlaethol ar Gynaliadwyedd Ariannol 2021	Disgwylir ei gyhoeddi Haf 2021

Adfywio canol trefi	Disgwylir ei gyhoeddi Hydref 2021
Gwasanaethau brys	Disgwylir ei gyhoeddi Hydref 2021
Taliadau uniongyrchol	Disgwylir ei gyhoeddi Hydref 2021